

ECO'R WYDDFA

Rhif 204

MEDI 1994

Pris 25c

**DOES OND TAIR
WYTHNOS TAN Y
RHIFYN NESAF.**

**Pob cyfraniad
i law y Golygyddion
erbyn**

**MEDI 19
os gwelwch yn dda**

Dau lyfr o ddiddordeb lleol

Cyhoeddwyd dau lyfr yn ystod yr wythnosau diwethaf fydd yn sicrhau o ddiddordeb i ddarllenwyr yr 'Eco'.

Ar nos Fawrth, 26 Gorffennaf, lansiwyd llyfr hunangofiant R. Gwynn Davies, *Anturiaf Ymlaen*. Gwyr y rhan fwyaf ohonom am Gwynn a'i yrfa fel cyfreithiwr a chlerc ynadon. Gwyddom hefyd am ei gyfraniad aruthrol i'r anabl, cyfraniad sydd wrth gwrs yn cynnwys sefydlu Antur Waunfawr.

Daeth nifer o'i gyfeillion a'i gymdogion i'r lansio swyddogol a chafwyd cyfraniadau gan Gerallt Lloyd Owen, Meirion McIntyre Hughes, Dafydd Wigley, O. M. Roberts, Norman Williams a John Ogwen.

Ffrwydriad y Powdwr Oil

Dyna deitl llyfr diweddar ar hanes y drychineb ar Wastad Llwyncoed ger Cwm-y-glo; trychineb yr adroddwyd ei hanes yn rhifynnau'r 'Eco' eisoes. Ond aeth yr awdur, T. Meirion Hughes o Gaernarfon (ac am gyfnod o Frynrefail) ati i chwilio'n drwyadl i holl hanes y ddamwain hon; damwain sydd wedi aros yn rhan o chwedloniaeth bro'r 'Eco'.

Yn y llyfr mae'n olrhain y digwyddiadau arweiniodd i'r ddamwain, yn adrodd hanes y cwest yng Nghwm-y-glo ac yn dadlennu hanes rhai digwyddiadau diweddarach ynglŷn â'r bobl a laddwyd neu a glwyfwyd yn y ddamwain. Diddorol iawn hefyd yw'r adran yn y llyfr lle ceir beirdd y cyfnod yn ymateb i'r drychineb.

Mae nifer helaeth o luniau a mapiau yn y gyfrol sy'n ychwanegu at y disgrifiadau.

Dyma gyfrol werthfawr o 'hanes bro'; un a ddylai fod ym meddiant pawb sydd â diddordeb yng ngorffennol dyffryn Peris. Mae ar werth yn eich siopau llyfrau lleol am y pris rhesymol o £3.75.



Glyn Tomos, Cadeirydd Antur Padarn, gyda'r Dr Dafydd Roberts, Tom Jones, Yr Athro Merfyn Jones a Dafydd Wigley.

Daeth cynulleidfya deilwng iawn i Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug, ar nos Wener, 8fed o Orffennaf i glywed teyrngedau lu yn cael eu hadrodd i'r cynchwarelwyr a'u teuluoedd am eu cyfraniad aruthrol i fywyd y fro hyd nes cau Chwarel Dinorwig ym mis Gorffennaf, chwarter canrif yn ôl. Bwriad y noson 'O'r Rwbwl i'r Dyfodol' oedd edrych yn ôl, ac edrych ymlaen i'r dyfodol a dyna yn sicrhau a gafwyd mewn noson arbennig iawn — un a fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd maith.

Fel y soniwyd gan bob un o'r siaradwyr gwadd yn eu tro, sef yr Athro Merfyn Jones; Dafydd Wigley, A.S.; Tom Jones, TGWU; a Chadeirydd y noson, Dr Dafydd Roberts, Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, roedd cau y Chwarel am y tro olaf chwarter canrif yn ôl nid yn unig yn golygu colli cyflogwr ond colli ffordd o fyw.

Bu'r diwydiant llechi yn sylfaen economaidd am ganrif a mwy i'r ardal gyfan ac yn gyfrwng i gadw'r boblogaeth yma neu wedi mudo fyddai pawb. Pan yn ei anterth roedd y diwydiant o bwysigrwydd mawr gan yr oedd Chwarel Dinorwig ar un cyfnod yn ganolfan y byd i'r diwydiant llechi. Nodwedd arbennig arall oedd bod y diwydiant yn un c'fan gwbl Gymreig a bu'r fro yn fagwraeth i lu o feirdd a llenorion. Ar y lalw arall atgoffwyd pawb o'r dioddefaint a'r caledi oedd yr un

mor nodweddiadol o fywyd y chwarelwyr a'u teuluoedd yn arbennig felly sgîl effeithiau llwch y garreg las. Bu'r dioddefaint a'r golled yn fawr. Eto fe ymladdodd y chwarelwyr yn ddewr dros gyfiawnder cymdeithasol a sicrhau cymdeithas ddemocrataidd. Roedd pawb yn perthyn i ryw bwyllgor neu'i gilydd; hawl i addysg i bob plentyn, beth bynnag fo ei gefndir; hawl i fod yn aelod o Undebau Llafur a sicrhau hawliau i'r gweithwyr. Dylem fod yn falch ohonynt. Yn ogystal a'r areithiau grymus cafwyd cyfraniad cerddorol o'r safon uchaf gan Hogia'r Wyddfa gyda Annette Bryn Parri wrth y piano. Hefyd dangoswyd rhannau o ffilmiau 'Y Chwarelwr' a 'Ffarwél Roc'.

Prif neges y noson a'r wers mwyaf y dylem ei chofio yw y perygl o ddibynnu ar un diwydiant fel gyda'r diwydiant llechi yn y Gogledd a'r diwydiant glo yn y De. Mae canlyniadau hynny i'w weld heddiw.

Diolchwyd yn wresog i Antur Padarn, a'u Cadeirydd Glyn Tomos yn arbennig, am drefnu'r noson ac am gydweithrediad Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis; Cyngor Sir Gwynedd a'r Cyngorau Cymuned lleol.

Ar yr un pen wythnos, dydd Sadwrn, Gorffennaf 9fed a'r Sul, Gorffennaf 10fed, cafwyd aduniad i gyn-chwarelwyr a'u teuluoedd yn y Gilfach Ddu, gyda'r ymateb yn un hynod o galonogol. Daeth oddeutu

250 o bobl ar y dydd Sadwrn a 280 ar y Sul. Daeth deunydd diddorol a gwerthfawr iawn i law, yn luniau, ysgrifau a straeon ac mae rhain naill ai wedi eu cyflwyno fel rhoddion i'r Adran Diwylliant a Hamdden, Cyngor Sir Gwynedd/Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, neu fe wneir trefniadau yn y dyfodol agos i dynnu lluniau ohonynt a'u dychwelyd i'w perchnogion. Felly, penwythnos gofiadwy iawn a diolch i chi bobl yr ardal am eich cefnogaeth.



Rhai o aelodau'r gynulleidfa yn eiddgar am gychwyn y cyfarfod.

ECO'R WYDDFA

Rhif 204
MEDI 1994

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(0248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (674669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

Gareth Williams, Angorfa,
Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)

Tony Storey, Awel y Mynydd,
Ceunant, Llanrug (650600)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn,
Ffordd yr Orsaf, Llanrug: (676846)

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEDI 29

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS LUN, MEDI 19

os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
HYDREF	MEDI 29	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 27	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	RHAGFYR 1	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

Llythyrâu

CHWILIO AM DALENTAU NEWYDD

Annwyl Ddarllenwyr,

Fedrwch chi ganu, dawnio, dweud
jôcs neu chwarae offeryn cerdd?
Ydych chi wedi breuddwydio am
gael bod yn seren ar y teledu?

Mae Ray Gravel a BBC Cymru yn
chwilio am dalentau newydd i
gystadlu am darian a gwobr ariannol
mewn cyfres deledu newydd, 'Tip
Top', fydd i'w gweld ar S4C yn y
flwyddyn newydd.

Yn ystod yr hydref bydd BBC
Cymru yn cynnal gwrandawriadau
mewn canolfannau ar hyd a lled
Cymru ar gyfer y gyfres. Mae'r
gystadleuaeth yn agored i unigolion
neu grwpiau o hyd at 6 o aelodau,
a dylai'r perfformiad fod rhwng tair
a hanner a phedair munud o hyd.

Os hoffech chi gystadlu am le ar
y rhaglen, cysylltwch ar unwaith â:

'TIP TOP'

BBC CYMRU

LLAWR 4

Y GANOLFAN DELEDU

LLANDÂF, CAERDYDD CF5 2YQ
Ffôn: (0222) 57952

gan nodi eich enw a'ch cyfeiriad, rhif
ffôn a manylion am eich perfformiad.

UNED 5

Annwyl Ddarllenwyr,

Rhaglen gylchgrawn gyffrous a
lliwgar ar gyfer plant 6-16 eg oed yw
'Uned 5'. Mae'r rhaglen yn ymdrin
ag ystod eang o bynciau, yn ddoniol,
difrifol, ysgafn ac addysgiadol, sydd
o apêl arbennig i blant.

Os oes rhywbeth neu rhywun yn
eich ardal chi yr hoffech dynnu sylw
plant (a phobl) Cymru gyfan ato, neu
os oes plant yn llechu yn eich ardal
sydd â diddordebau anghyffredin
neu ddoniau arbennig yna rhwch
wybod i ni yma yn 'Uned 5'. Chi yw
ein llygaid yn y fro, ac rydym yn
dibynnu arnoch i gysylltu â ni, er
mwyn i ni gael rhoi'r sylw
haeddiannol i blant a phobl ifanc yr
ardal.

Byddwn hefyd yn rhedeg slot 'Be'
sy' mlaen' felly anfonwch eich
hysbysebion atom i'w darlledu bob
nos Wener — unrhyw beth, o
ddrama Ffermyr Ifanc i drip Ysgol
Sul.

Bydd y gyfres yn cychwyn ar S4C
ar Fedi 13eg ac yn cael ei darlledu
bob nos Fawrth a nos Wener am 5
o'r gloch. Edrychwn ymlaen at
glywed gennych, a chofiwch wyllo.

Yn gywir,

RUTH JONES (Ymchwilydd)
Uned 5, Cibyn, Caernarfon,
Gwynedd LL55 2BD
Ffôn: (0286) 678592

YR ATHRO A'R DOCTOR

Annwyl Olygydd,

Mae'n bleser cael derbyn Eco'r
Wyddfa bob mis a mwynhau yr
ysgrifau diddorol sydd ynddo.
Hoffwn gydnabod yn arbennig waith
y Prifardd Selwyn Griffith yn ei
golofn fisol 'O Siambar Selwyn'. Yn
un o'i ysgrifau diweddar soniodd am
y Parchedig Rhys J. Huws,
Gweinidog yr Annibynwyr ym
Methel. Roeddwn wedi darllen a
chlywed llawer amdano gan fy nhad
a oedd yn feddyg i W. J. Gruffydd
ym Methel. Byddai fy nhad yn dod
adref gyda storïau diffyr gan yr
Athro.

Bu Selwyn a minnau ar ddau
achlysur arbennig yng nghapel yr
Annibynwyr ym Methel yn
ddiweddar. Holais ef am deulu David
Griffith yn y Bryn; ac hefyd ym
Mryntirion. Addawodd gael copi i mi
gofiant teulu y Parchedig David
Griffith. Ond wele! Yn yr Eco, mis
Gorffennaf, dyma Mrs Helen Jones
yn rhoddi yr hanes a llun o'r Parchg
David Griffith. Diolch yn fawr i
chwithau Helen.

Amser maith yn ôl bellach byddem
fel teulu yn mynychu, yn flynyddol,
gyfrfodydd pregethu eglwysi yr
Annibynwyr yn Seiloh a Moriah, Y
Felinheli, ac yn y ddau gapel roedd
yna gerrig marmor hardd i goffáu
teulu y Parchedig David Griffith,
Bethel.

Daliwch ati i 'sgwennu yr hen
hanes. Mae cyfoeth mawr yn stôr yn
yr hen ardaloedd hyn. Hanes y
capeli, y 'steddfod, a'r chwarelwyr
ym Methel. Gobeithio y daw yr oes
newydd i wybod dipyn o'u cefndir
drwy y papur bro gan ddod i garu a
pharchu eu gwreiddiau.

Yn gywir iawn,

GWILYM VAUGHAN JONES
Pencoed, 20 Trefonwys, Bangor.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU Gorsedd y Beirdd

Gorffennaf 1994

Annwyl Olygydd,

Â'r Eisteddfod Genedlaethol yn
ymweld â Bro Colwyn y flwyddyn
nesaf, caniatewch i mi dynnu sylw'r
darllenwyr at Arholiadau Gorsedd y
Beirdd.

Safodd yr Orsedd ar hyd y
blynyddoedd dros gynnal diwylliant
y genedl, a dyma'r swyddogaeth
addysgol yr ymrwymodd iddi, gan
ofalu bod Maes Llafur safonol ganddi
i'r Cymry sy'n dewis diwyllio eu
hunain yn y modd hwn.

Cynhelir arholiadau 1995 ar y
Sadwrn olaf yn Ebrill mewn
canolfannau yn Ne a Gogledd
Cymru, a rhaid i bob ymgeisydd
ddanfôn rhybudd o friad i eistedd
i mi erbyn Mawrth 1, 1995.

Ceir maes llafur mewn
barddoniaeth neu lenyddiaeth neu
gerddoriaeth, a meysydd arbennig

eraill i delynorion a datgeiniaid Cerdd
Dant. Ar gael, mae 'na lyfryn hwylus
yn rhoddi cyfarwyddiadau llawn am
y gwahanol feysydd llafur a'r
amodau ynghyd ag enwau arholwyr
a'r rhestr llyfrau. Am bris stamp (19c
neu 25c) byddaf yn barod i ddanfôn
y lyfryn hwn at unrhyw un o'ch
darllenwyr a wna gais amdano.

Wedi pasio dwy arholiad yn y
pwnc dewisiedig — a gellir cymryd
y ddau bapur yr un flwyddyn —
urddir yr ymgeiswyr llwyddiannus
yng Nghylch yr Orsedd gan yr
Archdderwydd ym Mharc Pentre
Mawr, Abergele ar fore Llun cyntaf
Prifwyl Bro Colwyn 1995.

Rwy'n mawr obeithio y bydd nifer
dda o'ch darllenwyr o 16 mlwydd
oed i fyny yn awyddus i gael mwy
o wybodaeth, ac os felly, gallant
ddanfôn ataf yn ddioed.

Yr eiddoch yn ddiffuant,

ALUN TEGRYN DAVIES

(Trefnydd yr Arholiadau)

Rhos Helyg, Cnwcydintir

Aberteifi, Dyfed SA43 1AW

O.N.: Gellir cael rhagor o fanylion gan
y Prifardd Selwyn Griffith hefyd.

AMBIWLANS ST. IOAN

Annwyl Olygydd,

Yn dilyn ymgyrch 'Anadl Einioes' a
lansiwyd gan Ambiwylans St. Ioan y
flwyddyn ddiwethaf bu cynnydd
sylweddol mewn diddordeb mewn
cysiaur Cymorth Cyntaf ac fe
gynhaliwyd llawer o gyrsiau Gofal
Brys i wahanol sefydliadau a
chymdeithasau.

Ysgrifennaf i dynnu eich sylw at
ddau lyfryn dwyieithog a
gyhoeddwyd gan Ambiwylans St.
Ioan yng Nghymru ym mis Ebrill
eleni. Gellir cael y llyfrynau
'Cymorth Brys' a 'Gwobr Tair
Croes', yn rhad ac am ddim gan
Ambiwylans St. Ioan.

Llyfryn yw 'Gwobr Tair Croes' ar
gyfer disgyblion ysgol o 10 i 15 oed.
Gobeithir lansio prosiect ysgolion
yng Ngogledd Cymru yn yr hydref.

Mae pob un ohonom yn
ymwybodol fod damweiniau a
chlwyfau yn bennaf epidemig ein
hoes fodern, a gobeithia Ambiwylans
St. Ioan y bydd y cyhoedd yn parhau
i gymryd mantais ar yr amrywiol
gyrsiau sydd ar gael a'r
cyhoeddiadau dwyieithog.

Os ydych eisiau mwy o fanylion
am y llyfrynau yna ysgrifennwch at
Mr Keith Dunne, Prif Swyddog
Ymarfer ym Mhencadlys Ambiwylans
St. Ioan, Cwrt Meridian, Ffordd y
Gogledd, Caerdydd CF4 3BL, neu
cysylltwch â mi ar y ffôn (0490)
420314. Os am dderbyn cop
anfonwch amlen 6½" x 9" wedi ei
stampio os gwelwch yn dda.

Yr eiddoch yn ddiffuant,

EDWARD DAVIES

Cynghorwr Materion Iaith Gymraeg
Ambiwylans St. Ioan

Llechwedd, Cerrigydrudion,

Corwen, Clwyd LL21 9SU

GAREJ D.M.

Annwyl Olygydd,

Parthed y llun 'Ble tynnwyd hwn?' yn rhifyn Gorffennaf/Awst credaf o'i archwilio'n fanwl mai llun o Garej D. M. Pritchard, ger y Post, Llanrug, ydyw. Mae'r gŵr ifanc gyda'r moto-beic yr un wyneb â'r diweddar Frank Pritchard, mab y Post. Cofiaf iddo fod yn berchen hen Triumph, gyriant-belt fu'n sefyll yn segur am flynyddoedd.

Mae cof gennyf am yr arwydd 'Shell Motor Spirit' ar gornel yr ardd, yn wynebu'r ffordd fawr. Mae'n bur debyg mai llun y Garej gyntaf a losgwyd yn y tân, tua Hydref 1925, ydyw ac fe losgwyd Ysgol Cwm-y-glo tua'r un adeg.

Fel y cofia llawer o'r hen do, roedd D.M. yn arloeswr ym myd y cerbydau modur a chanddo ef yr oedd y rhif CC4 ar yr hen siarabang y 'Mighty Atom' Ford Motel T. Bu corff honno mewn hen gwt yn y cefn tan 1936, i mi gofio.

Tybiaf mai D. M. Pritchard yw'r gyrrwr ar y chwith CC163 a Mr Bishton, sioffar Pantafon yn y Landaulette ar y dde.

Diolch am rannu ffrwyth eich ymchwil bob mis yn yr Eco; byddaf yn edrych ymlaen yn eiddgar amdano.

Yn gywir,
ROBERT WILLIAMS
Llain Gwta, 5 Gwelfynydd, Llanrug.

YSGOL BRYNREFAIL DOSBARTH 1962

Annwyl Ddarllenwyr,

Ydych chi'n cofio 1962? Blwyddyn darlledu 'Tynged yr Iaith'; blwyddyn marw Bob Owen, Croesor; blwyddyn cychwyn Teledu Cymru; blwyddyn cyhoeddus Teledu Cymru; blwyddyn y Dr Beeching; blwyddyn crogi James Hanratty; a blwyddyn pan oedd y ddawns ryfeddol honno, y twist, yn ei hanterth?

Wel, anghofiwch am fanion dibwys felly. Yn ystod y flwyddyn honno hefyd fe brynodd sawl rhiant sgertiau a throwsusau llaes llwyd i'w plant am y tro cyntaf. Crysau a blowsus bychain gwynion/llwyd, teis coch a gwyrdd, blesars gwyrdd a satchels lledr. Wedi sgwrio'r cyfryw blant yn lanach na glân, fe'u hanfonwyd ddechrau mis Medi i fangre addysgol a elwid YSGOL BRYNREFAIL yn Llanrug, ac yn ôl

trefn y cyfnod, fe'u didolwyd i bedair corlan.

Oeddech chi'n un o'r angylion bychain hynny? Y mae yn fwiad yn ystod mis Hydref/Tachwedd eleni i gynnal aduniad o'r disgyblion gychwynnodd eu rhawd addysgol ym Brynrefail yn 1962, a buaswn yn ddiolchgar iawn, er mwyn rhoi cychwyn ar y treddiadau, pe bai unrhyw un sydd â diddordeb yn cysylltu â mi yn y cyfeiriad isod. Yn anad dim, hoffwn y dderbyn enwau a chyfeiriadau y 'defaid colledig' a grwydrodd ymhell i geisio profa frasach!

Bydd hwn yn gyfle unigryw i hel atgofion, ail greu hen gyfeillgarwch, ac efallai yn wir ail-fegino sawl hen dân, ar aml i hen aelwyd!! Sgwennwch!

Yn gywir,
EIRUG WYN
Gwynllys, Y Groeslon, Caernarfon.

Y GORAU O'R GOREUON



Dyma Gavin Michael Taylor, 8 Rhos Cynfi, Deiniolen, yn y wisg ffansi fel Tomos y Tanc a'r giard yn y Carnifal eleni a enillodd Gwpan Gorau o'r Goreuon, er cof am Cledwyn Jones, ac yn cael ei chadw am y flwyddyn.

ANTUR PADARN

Gweithio ar Strategaeth Newydd

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae Antur Padarn wedi bod wrthi yn paratoi strategaeth newydd ar gyfer 1994/95 sydd yn cynnwys cynlluniau ar gyfer gwella'r amgylchfyd yn ogystal â hybu gweithgareddau cymdeithasol, addysgol a diwyllianol yn y fro. Mae'r cynlluniau hyn eisoes wedi eu cyflwyno i'r Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Arfon ac mae'r ymateb wedi bod yn hynod o bositif ac adeiladol. Felly edrychir ymlae at gydweithio gyda'r bobl leol a'r awdurdodau perthnasol yn ystod y misoedd nesaf er mwyn gweld y cynlluniau sydd wedi eu cynnwys yn y strategaeth yn cael eu gwireddu.

Hefyd yn ystod y misoedd nesaf gobeithir dosbarthu holiaduron o gwmpas busnesau bychain yr ardal er mwyn ceisio eu hymateb i'r math o gefnogaeth y dymunent ei weld yn cael ei gynnig iddynt. Yn ogystal fe ddylai'r Antur fod yn Gwmni Cofrestredig ac Elusennol o fewn yr wythnosau nesaf gan bod y cais wedi ei dderbyn gan y Comisiynwyr Elusennau erbyn hyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Antur ar 15fed o Fedi am 7 o'r gloch yng Nghanolfan Ysgol Gynradd Penisarwaun. Croeso i aelodau newydd i'r cyfarfod hwn.

YMCHWIL Y GALON

Dyma ganlyniad y casgliad o dŷ i dŷ Ymchwil y Galon — Dinorwig: £61.09; Deiniolen: £122.46; Cwm-y-glo: £60.66; Penisarwaun: £69.09; Llanrug: £299.34; Brynrefail: £45.02; Nant Peris: £11.45; Bethel: £80.51; Llanddeiniolen: £46.34; Caeathro: £51.97; Rhyd-ddu: £33.72; Waunfawr: £241.93; Llanberis: £290.76.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a'u cynorthwyodd gyda'r casglu ac am haelioni pawb ym mro'r Eco. Y cyfanswm a gasglwyd yng Nghaernarfon a'r Cylch oedd £3,435.23.

GŴ YL GERDD DANT BRO'R FROGWY, M Ô N

Cymanfa Gerdd Dant yng Nghapel Rhos y Gad Llanfairpwll

Nos Sul, 30 Hydref
am 8 o'r gloch

Arweinydd:
ALED LLOYD DAVIES
Mynediad drwy Davies
(detholiad allan o 'Cerdd Dant')
Oedolion: £2 Plant £1

YMFALCHÏO O FOD YN GYMRO O'R CWM

Ers rhai blynnyddoedd bellach rydym wedi gwyllo S4C a chael hanes Pobol y Cwm, ond pa gwm? On rwyf fi am fanteisio ar y cyfle i sôn am y cwm lle'm ganwyd, sef Cwm-y-glo. Ardal fechan, glyd yng nghesail mynyddoedd Eryri yng nghanol bro Eco'r Wyddfa. Ardal ynghyd â llawer o gymeriadau nad oedd eu tebyg yn siopwyr, saeri coed, saeri meini, paentiwrs, ac yn bysgotwyr gwyh. Yn amser fy mhientyndod yn yr ardal roedd dau gapel — Capel Bach yr Annibynwyr a'r Capel Mawr a adeiladwyd yng nghyfnod diwygiad 1904 — ac Eglwys St. Gabriel. Roedd effaith y Diwigiad yn aros yn fyw iawn yn yr ardal pryd yr oedd y tri addoldai yn llawn. Tri daliad y Sul, Band of Hope ar nos Lun, Seiat ar nos Fawrth a Chymdeithas Lenyddol ar nos Fercher.

Chwarelwyr oedd mwyafrif o ddynion yr ardal a weithient yn chwarel Llanberis. Roedd Y Glyn y pryd hynny, lle gweithiai Richard Parry, Craig-y-don, John Pricer, Morannedd, a John 'Rallt-deg. Er yn

ardal fechan roedd yn ddoeth iawn.

Roedd iddi Gastell Bryn Bras, lle y gwraiais lawer o fy brawd yn ystod fy moriau hamdden. Roedd llawer iawn o'r dynion yn bysgotwyr gwyh fel Dic Llew, Evan Evans, tri brawd Herber ac Ivor ei frawd, Evan Ty'n Alice, Huw Dan, Twm Pritch, Idwal Pary a Cecil, mab Herber, heb anghofio Bob Pritchard.

Manchester House oedd ein Llythyrdy a'r swyddog oedd W. Roberts, brawd Owen Roberts Glan 'Rafon gynt. Yno y gweithiai Llew Hughes a Wil Bach Rabar. Ymgymrodd Llew Hughes â busnes Robert Angle, Seiont House, ac yno y bu hyd ei ymdeoliad. Llew Hughes yw conglaen yr ardal heddiw er yn 84 mlwydd oed ac rwy'n siŵr fod ei wasnaeth yn sicr o haeddu clod.

Rwyf yn hen ac yn alltud o'r Cwm ac wedi byw yng ngwlad y Sais ond yn y Cwm mae fy nghalon. Ar lawer tro byddaf yn ymfalchïo fy mod yn Gymro o'r Cwm. Fy Nhwm i.

STAN GRIFFITHS
71 BRAMHAM DRIVE
HARROGATE
SWYDD EFROG

Cynhyrchiad gan BARA CAWS

DIANA

gan JOHN GLYN

Drama newydd gyffrous am 'wehilion cymdeithas' mewn byd lle mae'r agendor rhwng tlodi a chyfoeth wedi ymestyn i'r eithaf. Byd lle mae trais yn rheoli a dyn wedi ei ddifreinio i'r fath raddau nes ei fod yn cael ei ddylanwadu a'i reoli gan ei reddfau anifeilaidd. Sut mae dianc? Trwy hiraethu am orffennol dychmygol? Trwy wireddu ffantasiau? Mae unrhywbeth yn well na bodoli yng ngorffwylledd y presennol.

Nid yw'r cynhyrchiad yn addas i blant dan 12 oed.

Yr Actorion:

CATHERINE ARAN, ALUN ELIDYR, GWENNO HODGKINS
MERFYN JONES, TREFOR SELWAY
Cyfarwyddwr: JOHN GLYN

NOS FERCHER, 12 HYDREF

YN YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG

(TREFNWDYD GAN GANGEN PLAID CYMRU LLANRUG)

CHWILOTA CYMRY'N CRWYDRO

Y WLADFA



Fis wedi i'r Eisteddfod Genedlaethol groesawu'r Cymry alltud yn ôl i'r hen wlad, mae'r golofn y mis hwn yn olrhain rhai o gysylltiadau'r fro â gwahanol rannau o'r byd. Yn naturiol ddigon, 'Y Wladfa' yw'r Gymru dros y dŵr, ac yn dilyn yr erthyglau diweddar am hanes Nefydd Hughes Cadfan, a'i gysylltiadau ef â Phatagonia, daeth llythyr o'r wlad honno yn adrodd mwy o'r hanes. Fe'i hanfonwyd gan Irma Hughes de Jones, golygydd 'Y Drafod' — papur bro a phapur cenedlaethol Y Wladfa! Mae ei gwreiddiau o ochr ei thad yn ardal bro'r 'Eco', ond fe'i ganed yn Y Wladfa, ac yno y bu'n byw gydol ei hoes. Dyma'r hanes yng Nghymraeg graenus un na fu'n byw yng Nghymru erioed:

'Rwyf yn lwus o gael darllen 'Eco'r Wyddfa' drwy garedigrwydd cyfnither drwy briodas i mi, sef Gwladys Medwen, gweddwr'r diweddar W. A. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug.

A dyma fi'n gweld cyfeiriad yn rhifyn mis Mawrth at y Parch Nefydd Hughes Cadfan. A chan iddo gael ei fagu yma yn ardal Treorci yn Nyffryn Camwy, dyma finnu'n penderfynu anfon gair i'r Eco o'r tir pell yma amdano. Mab oedd i David Hughes Cadfan a ddaeth yma ar y 'Mimosa' yn 1865 efo'i dad, Hugh Hughes, 'Cadfan Gwynedd', gwladfawr brwd a'r cyntaf i ddod i'r lan o'r llong pan gyrhaeddwyd a phlygu i lawr i gusanu cerrig a graean y traeth yn y llawenydd o fod wedi cyrraedd.

'Roedd wedi amlygu talent a diddordeb mewn diwylliant yn ifanc iawn. Byddai yn gohebu i'r 'Drafod' yn ei arddegau o dan y ffug-enw 'Ap Selyf', ac roedd aeddfedrwydd yn ei waith. Credaf ei fod yn cymryd rhan yn y Capel hefyd achos, yn ôl a ddywedwyd, wrtho fo y dywedais i fy adnod am y tro cyntaf erioed: 'Yr Iesu a Wylodd'. Dydw i'n cofio dim am hynny nac amdano yntau chwaith yn y blynyddoedd hynny 'roeddwn i'n rhy fach mae'n debyg. Ond 'roedd cyfeillgarwch dwfn rhwng y ddau deulu a'u gwreiddiau yn yr un rhan o Gymru yn 'Sir Gaernarfon'. Credaf fod perthynas rhyngddo â theulu William Parry yn yr ardal hefyd, hwythau yn hanu o Lanbers rydw i'n meddwl.

Wedyn mi aeth i ffwrdd i Gymru i baratoi ar gyfer y Weinidogaeth. I Ysgol Clynog yr aeth o gynta' a dwi'n meddwl bod o yn 'run pryd â R. Bryn Williams (Richie i bobl Y Wladfa pryd hynny). Daeth yn ei ôl yn 1931 wedi graddio yn Aberystwyth. Bu'n aros gyda brawd iddo, Heber Hughes a'i briod Florence, yn yr ardal yma ac efo brawd arall Iago a'r teulu yn yr Andes. 'Roedd ganddo chwaer, Lizzie, yn briod ac yn byw yng nghyffiniau Rawson, ac un brawd arall, Cynddelw. Buasai ei dad yn briod ddwywaith a chael ei adael yn weddw'n ifan efo plant bach a gafodd eu magu efo perthnasau. Wedi amryw o flynyddoedd ail briododd Dafydd Hughes, a Nefydd oedd yr unig blentyn o'r ail briodas. Buont yn Canada am sbel a dod yn ôl wedyn i'r Wladfa.

Mae ei chwaer yng nghyfraith yn byw yma yn yr ardal o hyd, erbyn hyn yn 92 oed, ac mae nith iddo, merch ei

frawd Iago, yma hefyd, ac amryw berthnasau eraill yma ac yn yr Andes.

Pan ddaeth yma yn 1931 arhosodd am tua blwyddyn a bu'n weithgar iawn. Fo sefydlodd adran o'r Urdd yn Treorci. 'Roedd wedi gweithio'n ddiwyd ar gyfer yr Eisteddfod hefyd ond oherwydd llifogydd mawr yn 1932 gohirwyd y Steddfod am flwyddyn a chafodd Nefydd ddim bod yma i'w mwynhau.

'Roedd ganddo ddarlith ddifys ar ei brofiad yng Nghymru ac 'roedd yn ddiddorol cael cip ar fywyd pobl ifanc y colegau a deall fod mwy nag astudio'n unig yno. 'Roedd yn gymeradwy iawn gan bawb a galwyd plentyn bach a anwyd y flwyddyn honno yn Nefydd o barch tuag ato. Ni ddaeth yn ôl byth wedyn er fod tipyn o ddisgwyl wedi bod amdano adeg y Canmlwyddiant yn 1965 wrth ei fod yn fab i un o'r 'Hen Wladfawyr'.

Priododd ag Enid, merch i'r Parch R. R. Jones, a fu'n weinidog yn Trelew unwaith. Dyna pwy a'm bedyddiodd innau, ac i'm rhan innau hefyd y daeth y gorchwyl o anfon llythyr o gydymdeimlad ag Enid, pan fu farw ei phriod, dros eglwys Treorci lle y treuliasai ei febyd a'i lencyndod.

Fel hyn fe weloch fod yma gysylltiad o hyd a 'Nefydd' yn Y Wladfa a bod yma rai o hyd yn cofio amdano. Credaf ei fod hefyd yn gefnder i'r diweddar Tryfan Hughes Cadfan a fu'n weithgar iawn gyda Cymdeithas Gymraeg Buenos Aires am flynyddoedd lawer.

Mae'r drol, sydd a'i llun yng 'Nghymru'r Plant', yn awr onid wyf yn camgymeryd, mewn amgueddfa yn Rawson. Efallai mai eiddo ei ewythr, Llewelyn Hughes Cadfan, ydoedd; yng nghyffiniau Rawson y cartrefai ef a'r teulu.

Cyn mynd yn ôl i Gymru yr adeg honno, fe roddodd Nefydd lyfr Cymraeg yn anrheg i bob plentyn bach yn yr ardal dwi'n meddwl. I'm rhan i fe ddaeth hanes Griffith Jones, Llanddowror, llyfr gwyrdd tywyll heb fod yn drwchus iawn, a chefais felly wybod hanes yr ysgolion a sefydlodd ef yn yr amser gynt ac a fu'n ddylanwad mor llesol ar y wlad i gyd a rhoi tro newydd i hanes y werin yng Nghymru. Mi roddodd lun ohono ei hun hefyd yn anrheg i'r teuluoedd ac mae'n siwr fod rhai ar gael o hyd wedi eu trysori er cof amdano.

O Ddeiniolen i Utica

Bu Mr a Mrs Iolo Llywelyn ar wyliau yn yr America yn ystod misoedd yr haf a darganfod cysylltiad annisgwyl â Deiniolen. Fel hyn yr ysgrifenna Mrs Llywelyn yr hanes:

Tra ar wyliau yn Unol Daleithiau America ym mis Mehefin elenin buom yn ymweld â chartref ffrindiau i ni, Norman a Marian Williams, yn Utica, talaith Efrog Newydd. Dangosodd Marian groes aur hardd a oedd wedi ei hetfeddu ar ôl perthynas i'w gŵr. Syndod iddi oedd clywed ein bod yn gwybod am y lle a enwyd ar y groes, gan mai'r ysgrifen ar y cefn oedd:

PRESENTED TO E. ELLIS
by the Congregation of
Cefnywaen
1886

Clywsom fod Elias Ellis wedi bod yn ŵr uchel iawn ei barch, yn aelod a blaenor yn eglwys Moreia, Utica. Mae'n debyg ei fod hefyd yn ddyn hynod o alluog a diwylliedig, o bosib wedi ei addysgu ei hunan. 'Roedd yn berchen llyfrgell dda ac ymhlith ei lyfrau roedd amryw o lyfrau Groeg. Wrth ei alwedigaeth roedd yn arddwr a chauffeur yn ninas Utica.

Gwelsom hefyd adroddiad papur newydd am hanes marwolaeth gwraig Elias Ellis. Dywedwyd amdani mai Margaret Williams o Rhiwen, Deiniolen, ydoedd. Daeth i ddinas Efrog Newydd yn 1891 a phriodwyd hi ac Elias Ellis yno ym mis Hydref y flwyddyn honno. Roedd gan Elias a Margaret Ellis un ferch o'r enw Mae (May) a hi a ewyllysiodd y groes aur i ffrind, wedyn daeth i berthynas i Norman ac yn awr i'w briod yntau, Marian.

Oes rhywun o'r ardal â gwybodaeth am Elias Evans, neu ei briod, Margaret Williams o'r Rhiwen? Tybed oes aelodau o'r teulu yn parhau i fyw yn Neiniolen heddiw. Anfonwch air gydag unrhyw wybodaeth.

Gwregysau Haearn yr Arch Dderw

Cafwyd cadarnhad am ffeithiau Elwyn Jones yn y rhifyn diwethaf ynglŷn â chwmni D. J. Williams a gwneuthuriad y gwregysau haearn. Mrs Mair Parry o Lanllyfni a anfonodd gopi o lythyr a dderbyniodd D. J. Williams oddi wrth Syr Lionel Earle, dyddiedig 12 Tachwedd 1920. Yn y llythyr mae'n nodi: '... the admirable way in which you carried out the metal work in connection with the coffin for the "Unknown Warrior". Mae hefyd yn mynd ymlaen i ddweud: '... your labours were very onerous, entailing practically four consecutive days and nights without sleep, together with long journeys in connection therewith ...'

Yn ôl Mrs Parry, cwmni o Southampton gafodd yr archeb wreiddiol i wneud y gwregysau, ond yr oeddynt yn anghywir. Pedwar diwrnod o rybudd gafodd cwmni D. J. Williams, a bu ef a'i weithwyr wrthi ddydd a nos yn gorffen y gwaith. Un o'r gweithwyr oedd Morris Parry (Moi) o Lanrug a oedd yn brentis gof a fforman cyn ymfudo i Canada yn 1930.


Dyna gadarnhau'r stori o lygad y ffynnon, gan mai Mrs Parry yw gweddwr y diweddar Morris Parry a fu'n gweithio ar y gwregysau haearn.

Tameidiau i ddod ...

Mae amryw eraill wedi cysylltu â mis dros fisoedd yr haf, a gobeithiaf gasglu mwy o ffeithiau ynghyd am wahanol destunau o ddiddordeb dros y rhifynnau nesaf. Gyda diolch am wybodaeth ychwanegol am deulu Bwlch Gwynt, Dinorwig, a hanes Bryn Fynwent, Waunfawr.

Ymholiad neu wybodaeth am hanes bro'r 'Eco'; yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (0286) 673515.

* * * *



Un o'r gwregysau (handlenni) haearn oddi ar yr arch dderw i'r 'Unknown Warrior'.

'Un funud fach . . .'

Blwyddyn Newydd Dda i chi

Nid cyfarchiad hwyr ar gyfer 1994 na chyfarchiad cynnar ar gyfer 1995 mo'r pennawd y golofn y mis hwn. Gan mai ym mis Awst y caf fy ngwyliau, mis Medi yw cychwyn naturiol y flwyddyn waith i mi bob amser. Felly'n union mae hi mae'n debyg trwy ysgolion y wlad yr wythnos yma. Mae'r flwyddyn newydd wedi dod.

Dechrau go sâl fu hi. Dod adra o'm gwyliau, a mynd ati'r bore wedyn i danio'r car. Methu. Batri fflat. Chwilio am help. Cael batri arall a phâr o 'jumper leads', a hyd yn oed bodloni ar roi'r batri'n sownd wrth beiriant arbennig i'w atgyfnerthu.

Er cyn lleied a wn i am geir, rwyf yn deall bod rhaid wrth fatri iach, a bod rhaid hefyd wrth betrol. Waeth i mi heb â gadael y car heb betrol a disgwyl iddo fynd â mi i ben y daith. Rwy'n ddigon call i sylweddoli nad awn yn bell iawn heb betrol yng nghrombil y car.

Ond 'dyw hi'n rhyfedd fel y gallwn fod yn gall efo rhai pethau ac yn ffôl efo pethau eraill. Mae yna flwyddyn waith newydd o'm blaen: blwyddyn gyfan, os Duw a'i mynn, yn ei wasanaeth Ef, ac yng ngwasanaeth ei fab Iesu Grist. Blwyddyn gyfan, os byw ac iach, o gydweithio ag eraill er mwyn rhannu'r Newyddion Da am Iesu Grist, ac er mwyn ennill tir i'r Deyrnas. Mi wn nad oes modd gwneud y gwaith heb gymorth Duw ei hun; nid oes modd ei wasanaethu ef heb ei nerth a'i allu Ef. Ond mae'n hawdd iawn gwybod hynny ac eto dal ati i geisio gwneud Ei waith heb alw am ei gymorth.


Hoffech chi weld Efengyl Iesu Grist mewn bri? Hoffech chi weld pobl yn cofleidio Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd? Hoffech chi weld eglwys i'r fro yn cael eu bywchau? Wynebwcw flwyddyn newydd o addoli a gwasanaethu'r Arglwydd Iesu Grist gan atgoffa'ch hun bob dydd o'r angen am ei gymorth a'i allu Ef. Ddaw dim byd o'n hymdrechion os mynnwn fynd ymlaen gan ddibynnu ar ein nerth a'n doniau ni.

Fyddden ni wir yn disgwyl i'r car redeg heb betrol?

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.

cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Y Ganolfan: Gofynnir i'r Clybiau/Mudiadau a ddymuna ddefnyddio Neuadd y Ganolfan neu'r Caban dros dymor y gaeaf i hysbysu eu gofynion, mewn llythyr, i'r Ysgrifennydd Llogi yn 4 Tai Caradog. 'Y cyntaf i'r felin gaiff . . .'

Y Clwb Snwcer: Dyma'r canlyniadau — Cwpan Coffa Arthur Owen; 1, Gethin Williams; 2, Meirion Jones. Cwpan Lockwell i barau: 1, John Williams a Dylan Hughes; 2, Idris Roberts a John Humphreys. Cwpan Coffa Idwal Jones (Billiards): 1, John Williams; 2, Huw Jones.

Llongyfarchiadau i dîm y Cochion am wneud mor ardderchod yn Adran B ac sydd yn cael codi i gynghrair A y tymor nesaf; ac hefyd am gipio cwpan y gynghrair. Llongyferchir pawb a wnaeth mor rhagorol yn y gwahanol gystalaethau eraill yn ystod y tymor.

Mae'r Clwb am ddiolch i Mr Hefin G. Jones am ei gyfraniad fel Cadeirydd ond sydd bellach am ymddeol oherwydd pwysau gwaith. Diolch yn fawr iawn.

Llongyfarchiadau:

— i Huw Tomos ar ennill cwpan Banc y Midland yng Ngholeg Glynllifon am fod yn efrdydd gorau ym mhob adran.

— i Michael Iorwerth Jones, Frondeg, Clwt-y-bont am lwyddo arholiad gradd pedwar canu'r piano. Da iawn ti, oddi wrth ei deulu a'r cymdogion.

— i Lyndsey Vaughan am ddod yn ail

ar yr unawd Cerdd Dant yn Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau. Llongyfarchiadau hefyd i Michelle, ei chyfneither o Lanrug, a ddaeth yn drydydd ar yr unawd dan 15 oed.



Michelle a Lyndsey â'u tystysgrifau o Eisteddfod Nedd a'r Cyffiniau.

Diolchiadau:

Dymuna Nicola, 11 Porth y Gogledd, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau, arian a'r galwadau ffôn tra bu yn Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr i staff Ward Conwy am eu gofal arbennig. Diolch i bawb.

Dymuna Julie, brenhines Carnifal Deiniol 1994, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr



Criw y Clwb Chwarae a aeth ar drip i barc Camelot.

GORFFENNAF YR AIL — diwrnod agor Cae Pêl-droed newydd Deiniolen

Atebwyd gweddi llawer un heddiw
Ar iddi ddal yn sych a peidio bwrw
A pleser yw cael canmol yr holl drefniada
Yn yr orymdaith, y Band, Majorettes, y bws dau lawr a'r stondina.

Difyr oedd yr adloniant ar y cae
Y ddau dîm plant yn fedrus eu chwarae
Addewid amlwg mewn sawl bachgen
A dyfodol sicr i dîm cyntaf Deiniolen.

Yr anerchiadau yn gweddu a dadlenol
O'r cronfeydd gyfranodd i'r fentr uchelgeisiol
A'r diolchiadau i'r unigolion yn ddiffuant
Am y cydweithio er sicrhau y fath lwyddiant

Ond peidiwn ag anghofio cyfraniad y pwyllgor lleol
A gweithgarwch y cadeirydd di-ildio a'i lafur sylweddol
Ymroddiad Alun Wyn, a'r pwyllgor am amser maith
Sicrhodd y cae i'r ardal, dyma gwobr eu gwaith.

Llongyfarchwn ef a'r pwyllgor yn wresog
Am eu dygnu a'u llwyddiant ardderchog
Gwerthfawrogwn eu llafur er sicrhau'r hwylystod athletaidd hwn i'r ardal
Trwy ei barchu, a'i ddefnyddio'n gyfrifol, a'i warchod rhag pob fandal.

holl anrhegion, arian a chardiau a dderbyniodd ar yr achlysur o gael ei choroni yn frenhines y Carnifal eleni. Diolch yn fawr i bawb — Julie.

Dymuna Ronald, Elizabeth a theulu y ddiweddar Doris Fleming, 12 Maes Gwylfa, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Llauer o ddiolch am y llu o gardiau, galwadau ffôn, ymweliadau, blodau a'r rhoddion tuag at Wardiau Twrog, Ysbyty Eryri; a Hebog, Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r holl feddygon a'r staff ar y Wardiau hynny am eu gofal. Diolch i'r Parchedig Tegid Roberts am ei wasanaeth; Mr Bryn Griffiths, Organydd; Mrs M. Davies a Mrs A. Hughes am ddarparu'r lluniaeth. Diolch arbennig i Glenys, Nellie a Jackie, Susan, cymdogion a merched Cymorth Cartef. Diolch i Mr E. W. Pritchard a Gwynfor am eu trefniadau trylwyr.

Llongyfarchiadau: Estynnwn ein llongyfarchiadau cynnes i holl blant a phobl ifainc y pentref a lwyddodd yn eu arholiadau TGAU a Lefel Uwch. Dymunwn yn dda iddynt yn eu gwaith neu mewn astudiaeth bellach. Hefyd dymunwn llongyfarchi tri gŵr ifanc a enillodd raddau, sef Tegid Wyn Roberts, Crud yr Awel, a enillodd radd B.Sc., yn Aberystwyth; Iwan G. Williams, Hafle, a enillodd radd B.A. yn Salford; a Glyn Ll. Gruffudd, Cynfi, a enillodd radd B.A. ym Mangor.

Diolch: Dymuna Mrs Edith Parry, 19 Pentre Helen, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau oll am bob caredigrwydd a ddangoswyd ati yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch am bob gofal a gafodd yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref.

Cynllun Chwarae: Cafodd plant y pentref elwa ar Gynllun Chwarae dan nawdd Cyngor Arfon yn ystod gwyliau'r haf. Trefnwyd i'r plant fynd i Neuadd Chwaraeon Arfon ym Mangor ar ddydd Mercher ac i Bwll Nofio Bangor ar ddydd Gwener dros gyfnod o bum wythnos. Cafwyd triapiau hefyd i Butlins a Pharc Hamdden Camelot a Chanolfan Sglefrio Glannau Dyfrdwy. Roedd tua 35 o blant yn rhan o'r cynllun. Rhian Evans a Hilda Parry oedd yn gyfrifol am y trefniadau yn lleol, a diolchir i'r ddwy am eu gwaith caled.

Ebeneser a Chefnywaun: Trefn newydd oedfaon undebol y ddwy eglwys ar y Sul o fis Medi ymlaen yw: 10 o'r gloch: Oedfa ac Ysgol Sul yn Ebeneser; 5 o'r gloch: Oedfa yng Nghefnywaun.

♥ Geni ♥ Bedyddio ♥ Iddod ♥ Priodas ♥

✱ **Achlysur arbennig?** ✱
✱ **Anrheg unigryw?** ✱
Beth am un o sampleri

PWYTHAU
CAIN

✱ Cynllunir pob sampler
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn

✱ Hefyd gwniadwaith o bob math
gwneud dillad, newidiadau, ffenni, a.g.y.d.

✱ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd ♥ Darnau a Farfodoniaeth

O SIAMBAR SELWYN

O'R BRIFWYL I'R SIAMBAR

Aeth mis heibio ers Prifwyl Nedd a'r Cyffiniau. Yn 1934 y bu'r brifwyl yno ddiwetha, ac yno yr enillodd y Parchedig William Morris, Caernarfon, ei gadair genedlaethol am ei Awdl 'Ogof Arthur'. Prin y gellid dweud mai yng Nghastell Nedd y cynhaliwyd yr Eisteddfod eleni gan fod maes y brifwyl tua deng milltir i fyny'r cwm. Ym mhentrefi Glyn Nedd a Phontneddfechan y teimlid yr awyrgylch eisteddfodol eleni.

Os oedd hi'n damp o dan draed roedd cynhesrwydd y croeso i'w deimlo ar y maes, ac yn yr ardal. Anghofia i byth y croeso a gawsom yng ngwesty Craig-y-Ddinas, Pontneddfechan a'r seiadau hwyliog a gawsom bob nos.

Tydi o'n beth rhyfedd bod rhywun yn gwneud ffrindiau newydd ymhob Steddod, ac yn dod i adnabod ambell i gymêr. Mae'n debyg fod amryw ohonoch yn gyfarwydd a llais 'Hilda' a fydd yn troi i mewn yn aml i 'Stondin Sulwyn'. Wel, fe drodd Hilda a'i ffrindiau i mewn i Craig-y-Ddinas bob nos, ac fe gawsom seiadau cofiadwy. Un dda am jôcs ydi Hilda, ond does fiw i mi eu hailadrodd yn y golofn hon! Ia, diolch am gael cyfarfod â hen ffrindiau a chael gwneud ffrindiau newydd.

Oes yna ddechra' a diwedd i'r tymor eisteddfodol deudwch? Y pen wythnos hon rydw i'n eisteddfod fawr Llanbedr Pont Steffan, ac yn ôl fy nyddiadur — os byw ac iach — mi fyddai i wedi cael y fraint o ymweld ag o leia ddwsin o eisteddfodau ledled Cymru cyn bydd y corn gwlad wedi galw arnon ni i ymgynull ym Mhrifwyl Bro Colwyn yn Awst 1995.

* * * *

Mae yna ddechra' a diwedd i'r tymor pêl-droed, er mai byr iawn fu'r seibiant eleni oherwydd Cwpan y Byd.

O ystyried hyn dwi'n sylweddoli fy mod i'n treulio y rhan fwyaf o fy Sadyrnau, naill ar faes pêl-droed neu ar faes/neuadd steddod. Rwy'n ymlacio ar un maes ac yn gweithio'n galed ar y maes arall.

Rwy'n mwynhau ac yn ymlacio ar faes pêl-droed am y ffaith mai mynd yno i *wyllo'r gêm* y byddai i, yn hytrach nag i *wyllo* ac i gefnogi un tîm. Aeth y dyddiau hynny trosodd; a phan fyddai i yn ymweld â meysydd

pêl-droed Llanrug, Llanberis, Bangor, Porthmadog, Conwy neu Landudno mynd yno i *wyllo'r gêm* y byddai i bob tro. Fyddai i byth yn cynhyrfu ac yn gweiddi a chwifio 'mreichiau i'r awyr pan fydd gôl yn cael ei sgorio. Fyddai i byth yn taflu geiriau cas i gyfeiriad y reff os bydd i hwnnw wneud camgymeriad (a pha reff sy'n berffaith yntê?) — ond mi fyddai i'n hoffi gwrandao a gwylio ymateb y dorf.

Ond efallai y dylwn i wneud un cyfaddefiad, sef mi fyddai i'n *cefnogi tîm Cymru bob tro* ac yn awyddus i'w gweld nhw'n ennill. Ond, rhoswch — mi fyddai i bob amser yn awyddus ac yn dymuno i Lloegr golli hefyd — felly mae'n rhaid fod y chwilen gefnogol ynof o hyd. Byddai i, mi fyddai i'n ysu am weld Lloegr yn colli ym mhob gêm, o bêl-droed i ping-pong. Pam ys gwn i? A pham fod 'na gymaint yn teimlo'r un fath a fi? Wel, am mai 'collwrs gwael' ydyn nhw o bosib, a bob tro mae 'na fai ar y bêl, neu ar y maes neu ar y reffari. Dydyn nhw ddim wedi dysgu ennill yn wylaidd a cholli yn anrhydeddus.

* * * *

Mae beirdd a llenorion yn 'well collwrs' — wel, y dyddia' yma o leia'. Ond ym mlyneddodd y tridegau roedd 'na gryn lythyru yn y wasg ar ôl pob Eisteddfod Genedlaethol.

Un o'r bois a fyddai'n 'cael cam' yn flynyddol fyddai y Prifardd Dewi Emrys. Fe enillodd o bedair cadair genedlaethol ac un goron. Os am gael hanes y llythyru a fu rhyngddo fo a W. J. Gruffydd, ac eraill, darllenwch gyfrol ddiddorol y Prifardd Eluned Phillips, *Dewi Emrys*.

Gafodd 'na rhywun gam yn Eisteddfod Nedd? Mae'n siŵr bod 'na rai yn teimlo ym mēr ei esgryn iddo fethu ag ymateb i 'chwaeth y beirniaid'.

Yn ôl y cyfansoddiadau, cael a chael fu hi i ni gael teilyngdod yng

nghystadleuaeth y Gadair. rhaid i mi gyfaddef fy mod i'n hoffi'r Awdl, a chredaf y bydd canu arni yn eisteddfodau'r dyfodol. Oes mae yma rannau sy'n adleisio'n gry' o awdlau Tilsli — 'Y Glöwr' a 'Cwm Carnedd'. Ond mae awdlau'r Prifardd Tilsli wedi byw dros y blyneddodd, am y rheswm syml eu bod nhw'n ganadwy ac yn ddealladwy. Sawl prydddest ac awdl genedlaethol sy' wedi eu claddu rhwng cloriau'r cyfansoddiadau a neb wedi adrodd na chanu yr un linell ohonyn nhw?

Y cynnyrch gorau yn y cyfansoddiadau gen i yw cywydd gwyth Vernon Jones ar y testun 'Lleisiau'. Mae'n hen bryd i Vernon eistedd yn y gadair a gwisgo'r goron.

Pleser pur i mi oedd cael cyrchu Gerwyn i'r llwyfan i dderbyn ei goron. Roeddwn i'n rhagweld y deuai ei 'awr fawr'. Dwi'n gweld hi'n braf ar y 'bois' 'ma yn ennill prif wobrwon y brifwyl a hwythau mor ifanc. Gall rhain fynd ymlaen yn hyderus 'o'u gwobr at eu gwaith'.

Mae gen i reswm arall dros ymfalchïo ym muddugoliaeth Gerwyn. Tydi ei nain, Eirianwen — sy'n byw yn 1 Bro Rhos, Bethel — yn gyfneither i 'nhad — o, ia, 'tewach gwaed' yntê.

CANTORION ELIDIR

Mae cantorion prysuraf yr ardal yn paratoi at gymryd rhan mewn cyngerdd mawreddog yn Llanfairfechan ddiwedd mis Medi. Gwahoddwyd Cantorion Elidir i gymryd rhan mewn cyngerdd a drefnwyd gan gangen cylch Llanfairfechan o Cymdeithas Cenedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC). Bydd Trebor Edwards, Siân Llewelyn Jones (Telynores), a'r Llanfairfechan Community Players yn cymryd rhan hefyd. Mae'r trefnwyr yn gobeithio y bydd cefnogaeth dda i'r cyngerdd a gynhelir i godi arian at waith y Gymdeithas. Ffoniwch Phyllis Lloyd ar (0248) 680058 i archebu tocynnau i'r cyngerdd a gynhelir yng Nghanolfan Gymunedol Llanfairfechan, nos Wener, Medi 23, am 7.30 o'r gloch.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

JOB A HANNER I JAMIE AR Y TELEDU

Bod yn fecanic — dyna uchelgais Jamie Alun Williams o Lanrug. Diolch i Gwmni'r Castell o Fae Colwyn, fe gafodd Jamie ei ddymuniad, am ddiwrnod o leiaf, ac mewn cyfres newydd sy'n cychwyn ar S4C yn fuan bydd cyfle i weld sut hwyl gafodd Jamie ar brofiad gwaith yng ngarej ATS Caernarfon.

'Ar ôl imi dyfu mi fuaswn yn hoffi bod yn fecanic,' oedd geiriau Jamie mewn llythyr at Gwmni'r Castell yn gynharach eleni, ac yntau'n ddisgybl ar ei flwyddyn olaf yn Ysgol Gynradd Llanrug. Roedd Cwmni'r Castell yn paratoi'r gyfres newydd 'Job a Hanner' i S4C ac wedi gofyn i ddegau o blant yr ardal ysgrifennu am yr hyn yr hoffon nhw ei wneud ar ôl gadael yr ysgol. 'Yn ATS mae 'na lawer o dears o bob math ac mi fuaswn i wrth fy modd ync ael geithio ar geir yno,' âi llythyr Jamie yn ei flaen. Mae'n amlwg fod ei eiriau wedi gwneud cryn argraff ar y cynhyrchwyr, oherwydd dewiswyd Jamie i ymddangos yn y gyfres sy'n cychwyn dan ambarél PUMP ar S4C, ddydd Mercher, 14 Medi.

'Cyfres am swyddi o bob math ydi hi,' meddai'r cynhyrchydd Elwyn Vaughan Williams am 'Job a Hanner'. 'Mae'r rhaglenni wedi eu rhannu i ddwy ran — profiad gwaith, sy'n cynnwys plant o wahanol rannau o Gymru, a phortread o rywun wrth ei waith bob dydd.'

Gyda Goronwy Roberts, gosodwr teiars yn ATS Caernarfon y treuliodd Jamie ei ddiwrnod. 'Dwi'n meddwl ei fod o 'di mwynhau ei hun,' meddai Goronwy Roberts. 'Mi gafodd helpu i drwsio pyncjar, ac aethon ni drwyddi'n iawn.' Oes yna obaith i Jamie weithio mewn garej yn y dyfodol? 'Mae'n anodd deud rŵan be' neith o pan fydd o'n hŷn,' meddai Goronwy Roberts, 'ond o hogyn o'i oed, roedd ganddo fo ddigon o ddiddordeb.'

Gellir gweld Jamie Williams yn 'Job a Hanner' am 5 o'r gloch brynhawn dydd Mercher, 9 Tachwedd, ar S4C. Cyflwynydd y gyfres yw Ffion Wyn Davies.

Cofiwch anfon newyddion ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Medi 19.

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG

Caernarfon 673513



AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM

FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim

**CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!**

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160



W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG

Pant Tirlon, Llanrug

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr

Nwy

Cofrestredig

Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

**Dim un dasg rhy tychan
Dim un dasg rhy fawr**



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Gwenllian a Carl ar enedigaeth mab bychan, Iago, brawd bach i Efa ac wŷr cyntaf i Myfanwy a Dic Parry, Tawelfan. Pob bendith i chwi fel teulu.

Pen-blwydd Arbennig: Llongyferchir Osian Dafydd a Morrgan Elis ar achlysur dathlu eu pen-blwydd yn 18 oed. Pob bendith i Iola Williams, Carrog, ar gyrraedd 21ain oed. Anfonir cofion annwyl a llongyfarchiadau i Mrs Nellie Roberts, Llys y Gwynt, ar gyrraedd 90 oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau: Mawr yw'r llawenydd o glywed am lwyddiannau nifer o bobl ifanc y pentref mewn amrywiol arholiadau yr haf hwn. Llongyfarchiadau mawr i Mark Porter ar ennill gradd B.Sc. ym Mhrifysgol Aberystwyth. Pob dymuniad da i'r dyfodol. I'r rhai ohonoch a fu'n sefyll arholiadau TGAU a Lefel-A, llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da yn y Chweched dosbarth ac yn yr amrywiol poblegau.

Dymunir pob bendith i Cai Larsen fel prifathro newydd Ysgol Gynradd Llanystumdwy.

Nid canu clodydd ein pobl ifainc yn unig a wnawn ond hefyd ein hanifeiliaid a'r adar! Unwaith eto llongyferchir 'Deiniolen Dewi' ar 'sgubo'r gwobrau yn y sioeau mawr, ynghyd â chefyllau gwedd Dylan ac W. H. Griffiths; adar Dilwyn Green; a defaid Eifion Harding.

Gwellhad: Anfonir cofion annwyl a phob dymuniad da am adferiad iechyd llwyr a buan i Mrs Sydney Williams, Cae Hywel; Mrs Alice Thomas, Waun; a Haydn Jones, Bryntirion, wedi triniaethau yn yr ysbyty.

Gair o Ddiolch: Dymuna Mrs Olwen Ingham, Y Felinheli, ddiolch i holl staff yr Ysgol, y plant a'r rhieni am eu caredigrwydd ar achlysur ei hymddeoliad.

Dymuna Osian Dafydd ddiolch am y llu cardiau a rhoddion a dderbyniodd gan y teulu, cymdogion a ffrindiau.

Ar achlysur dathlu ei phen-blwydd dymuna Iola Williams, Carrog, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd.

Dymuna Mrs Nellie Roberts, 12 Llys y Gwynt, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau oll am y llu cardiau, galwadau ffôn ac anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

Profedigaeth: Awst 10fed, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr Tom Wyn Griffiths. Cydymdeimol yn ddwys iawn â'i briod Mrs Sally Griffiths, ei blant John, Edith, Iac ac Elfyn, a'r cysylltiadau oll.

Diolch: Dymuna Mrs Sally Griffiths a'r teulu oll ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth lem. Cydnabyddir y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion tuag at Feddygfa Llanrug a'r Waunfawr.

Dymuna Eunice a Humphrey Jones, Rhiwlas, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli Mr Emyr Williams, Hafod Olau.

Pwyllgor y Neuadd: Dymuna'r pwyllgor longyfarch Michael Jones ar ei lwyddiannau gyda 'Deiniolen Dewi'. Tynnwyd Clwb Cant mis

Gorffennaf yn Llygad yr Haul a'r enillwyr oedd: 1, Dafydd Owen, Bryn Hyfryd; 2, E. Jones, 17 Bryntirion; 3, Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr. Tynnwyd Clwb Cant mis Awst yn Llygad yr Haul, a'r enillwyr Iwcus oedd: 1, Dorothy Lamb; 2, Myfi Jones; 3, Jean Roberts.

Ysgol Sul Bosra: Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn ar fore Sul, Medi 11eg am 10.00 a.m. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cronfa Haematoleg: Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at y gronfa uchod gan sicrhau £1,600. Penderfynwyd dirwyn y casgliad i ben ar ddiwedd mis Medi. Felly os ydymuna unrhyw un gyfrannu, anfoner y cyfraniad i'r Trysorydd, Margaret Williams, Carrog, Y Waun, ffôn: 870716. Diolch am eich haelioni tuag at yr achos teilwng hwn.

Colled Fawr: Brawychwyd y pentref bnawn Sul, Awst 28ain, ar farwolaeth sydyn Mrs Beti Hughes, Brython, Bryn Hyfryd. Fe'i hadwaenid fel Bet i'w ffrindiau ac Anti Bet i lu o blant Ystol Tan-y-coed. Estynnir y cydymdeimlad llwyr i Ron, ei gŵr ac i Bronwen a Kevin a'r wyrion bach, Rhys ac Osian, ei nai Alan Rees a'r teulu oll.

Carnifal y Pentref: Dymunir diolch i BAWB a gefnogodd y Carnifal eto eleni. Oherwydd y tywydd fe'i cynhaliwyd yn hynod effeithiol yn y Neuadd Gymuned. Llongyferchir y cystadleuwyr oll, yn arbennig Anest a Jason enillwyr Tlws y Carnifal. Diolch i'r beirniaid caredig am eu gwaith caled. Diolch i chwi Sioned a Trystan Larsen am wneud y Carnifal yn un pleserus a llwyddiannus.



Enillwyr Tlws y Carnifal: Anest a Jason.

Ysgol Gymuned Penisarwaun: Rheolwr Banc y National Westminster, ym Mhwllheli yw Mr D. Williams, on yn fwy na hynny mae'n un o rieni Ysgol Gymuned Penisarwaun ac hefyd yn un o'i llywodraethwyr. Yn ei swyddogaeth fel llywodraethwr fe gyflwynodd sic o £200 i'r Ysgol yn ddiweddar ar Banc y NatWest. Penderfynwyd buddsoddi'r arian yma mewn llyfrau darllen Cymraeg ac ymysg y rhain mae nifer o deitlau 'Rala Rwdins' gan Angharad Tomos. Yn ffodus tua'r un cyfnod cafodd y Babanod gyfle i fynd i Theatr Gwynedd i weld y cynhyrchiad 'Cerdyn Post o Wlad y Rala' gan Gwmni'r Arad Goch. Cafodd pawb bleser a mwynhad a phenderfynwyd estyn gwahoddiad i Angharad Tomos i ddod i'r Ysgol i



Llund llwyfan o gystadleuwyr y Carnifal.

siarad gyda'r plant. Cyflyswyd y digwyddiadau trwy gael Mr D. Williams yn yr Ysgol yr un pryd yn cyflwyno'r llyfrau 'Rala Rwdins' ym mhresenoldeb yr awdures. Yr ydym yn hynod ddiolchgar i Mr Williams ac Angharad Tomos am ymweld â ni ac fe hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mr Williams am ei rodd o £200 ar ran y Banc. Gofynnwn yn garedig iawn iddo drosglwyddo ein diolch ymlaen i Fanc y NatWest am eu cymorth a'u caredigrwydd. Fe'i gwerthfawrogi yn fawr iawn.

I gloi eu thema am 'Rhyfedd o Fyd' aeth Bl. 5 a 6 i ymweld a Ceudyllau Llechwedd er mwyn cymharu nodweddion ac amodau gwaith y chwarel gyda chwarel Llanberis. Bu'r tywydd yn ffafrliol a'r ymweliad yn un gwerth chweil. Cawsom gyfle i ddysgu llawer iawn am gefndir y diwydiant yma sydd mor bwysig i ni yn y rhan yma o'r wlad, ac roedd yn ddiweddglo ardderchog i'r thema.

Ychydig cyn diwedd y tymor daeth plant yr Ysgol Feithrin i dreulio bore gyda ni yn yr Ysgol cyn trosglwyddo yma ym mis Medi. Ynghyd â'r plant fe ddaeth eu hathrawes Mrs Julie Williams, ac fe gafodd y plant gyfle o flas bore arferol, ac yn wir cinio, cyn dychwelyd. Edrychwn ymlaen at

eich gweld ym mis Medi blantos.

Cynhaliwyd mabolgampau'r Ysgol yn ystod wythnos olaf y tymor rhwng y tai, sef Dewi, Arthur a Llewelyn. Cafwyd cystadlaethau difyr a phawb yn dangos agwedd iach iawn tuag at ennill a cholli. I gloi'r mabolgampau cafwyd gêm bêldroed gyda Mr Selwyn Griffith yn cadw trefn ar bawb. Ar ddiwedd y dydd, Dewi oedd y tŷ buddugol ac fe gyflwynwyd y capteiniaid â tharian i'r tŷ i'w chadw am flwyddyn.

Ar ddiwedd ein mabolgampau cyflwynodd Mr Griffith rodd o eiriadur i Victoria Williams am ei gwaith canmoladwy a'i hymdrech yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Diolch i Mr Griffith am ei garedigrwydd.

Mae yna saith o ddisgyblion yn ein gadael am Ysgol Brynrefail eleni. Dymunwn pob hwyl a llwyddiant i Victoria, Deon, Stephen, Rowan, Gareth, James a Justin yn eu hysgol newydd.

Plygu'r Eco: Erfynnir am wirfoddolwyr i blygu rhifyn mis Hydref o'r Eco yn Neuadd yr Eglwys, ar nos lau, MEDI 29ain, o 6 p.m. ymlaen. Diolch yn fawr.

DRAENOG



"Almaenwyr ydach chi?" meddai'r wraig ddiarth wrth glywed teulu bach yn siarad Cymraeg efo'i gilydd tra'n cael picnic ar lan y môr. Mae'n debyg bod yna lawer o Gymry wedi cael yr un profiad yr haf yma, yn Sbaen, a Ffrainc, a Phortiwgal a manau tebyg. Ond braidd yn annisgwyl oedd clywed y cwestiwn yn Llandudno.



Tri arall wedi cael hwyl arni yng Ngharnifal y pentref.

'Y LLAW SY'N SIGLO'R CRUD . . .'

gan Selwyn Pritchard, Llanberis

Anodd iawn oedd i nifer o famau wynebu canrif newydd gan fod nythaid o blant i'w magu, ac 'roedd llawer iawn ohonynt yn tyfu i fyny heb na thad na phenteulu. Dyna fu hanes fy hen nain a llawer o neiniau eraill ledled yr ardal.

Jane Hughes oedd ei henw, ac fe'i mageg hi yn y Bing (Llanberis), sef rhan o ardal y 'South-end'. Enw anghyfarwydd i lawer erbyn heddiw, ond fel 'Limbo' efallai yr adwaenir y lle orau. Ei ystyr yn ôl gwybodusion yw man rhwng y byd yma a'r nesaf — rhyw fangre o anobaith ar ororau'r fall! 'Dwi ddim yn gwybod ac nid yw llawer o ots gen i chwaith. Ond fe wn i un peth — mae 'Limbo' yn agos iawn at fy nghalon i oherwydd dyma'r fan lle'm magwyd innau hefyd.

Ymunodd Jane Hughes mewn priodas â Thomas David Jones gan ymsefydlu yn 18 Stryd yr Wyddfa, Llanberis. Ym mis Tachwedd 1886 tystiodd yr ardal i nifer o ddamweiniau erchyll yn y chwarel. Yn yr *Herald Cymraeg* yn ystod yr un flwyddyn cofnodwyd a ganlyn:

Ar fore Mercher digwyddodd dwy ddamwain — un yn anghwyl a'r llall o natur difrifol yn Chwarel Dinorwig. Cymerodd y gyntaf le yn Sinc Pantyceubren, Diffwys. Oddeutu naw o'r gloch pan syrthiodd darn o graig gan beri niweidiau difrifol i ŵr a priod, sef Lewis Griffith, Bethel, Llan-ddeiniolen. Cyd-ddigwyddiad rhyfedd a galarus mewn cysylltiad â'r ddamwain hon mai y cyntaf i gyrhaedd y truan oedd gŵr priod arall o'r enw Thoms David Jones, 34 mlwydd oed; 18 Stryd yr Wyddfa, Llanberis, yr hwn ychydig yn ddiweddarach a gyfarfyddodd ei hunan a damwain a brofodd yn anghwyl iddo.'

Gadawodd Thomas Jones wraig weddw i ofalu am bedwar o blant bach. Roeddynt wedi claddu tri o blant yn barod — efeilliaid a gladdwyd yn yr un bedd yr un diwrnod yn 1882; yn ogystal â merch a fu farw ymhen blwyddyn yn ddiweddarach. A oedd yr heintiau a soniwyd amdanynt yn gynharach yn gyfrifol efallai? Chawn ni byth wybod i sicrwydd.

Gorchwyl anodd oedd cael dau-ben-llinyn ynghyd, ac i warchod y pwrs rhag mynd yn hest ymgymerodd Jane Jones â swydd fe glanhawraig yn Ysgol Dolbadarn am dâl o ddau swllt y mis (rhyw 20c yn

ôl arian heddiw). Swydd wasaidd oedd hi a dweud y gwir gan fod yr amodau gwaith yn drychinebus o wael.

Bûm yn ffodus iawn yn ddiweddar i gael cipolwg ar gopiâu o gofnodion yr ysgol rhwng 1914-18. Er mai bregus yw'r wybodaeth am y cyfnod, serch hynny cawn ryw syniad o'r cefndir. Roedd Jane Jones dros ei hanner cant oed erbyn hynny ac wedi llwyr ymadael â'i swydd. Yn Saesneg y cofnodwyd digwyddiadau dyddiol yr ysgol ond ceisiais eu cyfieithu fel a ganlyn:

1915

Ionawr 5: Agorwyd yr ysgol y bore 'ma. Cynifer dda o blant dros 5 oed wedi troi i fyny, ond am y babanod — dim ond 14 yn bresennol.

Ionawr 25: Derbyniwyd nodyn gan Mr Gillespie yn dweud fod ei ferch Catherine Ann yn sâl ac yn methu a dod i'r ysgol.

Chwefror 2: Tywydd stormus iawn — dim ond 43 o blant wedi dod i'r ysgol y pnawn 'ma, ac roedd amryw ohonynt yn wlyb ac yn oer. Caewyd y cofrestri ac anfonwyd y plant adref.

Chwefror 3: Tywydd garw eto heddiw. 53 o blant yn yr ysgol heddiw. Caewyd y cofrestri ac fe ohiriwyd y tabl amser. Anfonwyd y plant adref am 11 o'r gloch. Stormus iawn eto y pnawn 'ma —

dim ond 59 o blant yn bresennol. *Mawrth 15:* Ail agorwyd yr ysgol y bore 'ma. Dim ond 79 o blat yn bresennol allan o gyfanswm o 164. Nifer o blant yn dioddef gyda'r clwyf pennau a'r ffliw.

Mawrth 18: Storm fawr o eira y pnawn 'ma — 59 o blant yn bresennol. Casglwyd y cofrestri ac anfonwyd y plant adref am 2 o'r gloch.

Ebrill 20: Tywydd oer iawn — y thermometr ond yn cyrraedd 45°F. Gofynwyd i'r gofalwr wneud tannau bychain yn y dosbarthiadau am ychydig ddyddiau gan fod y plant bach yn dioddef o oerni.

Tachwedd 8: Y frech goch yn lledaenu'n araf drwy'r ysgol. Niwmonia yn ogystal yn creu anhawsterau difrifol.

1917:

Ionawr 29: Oerni a barrug eithriadol. Y plant yn dioddef gydag annwyd. Y thermometr i lawr i 32°F. Caewyd yr ysgol am 10 o'r gloch y bore.

Boed ef, neu hi, yn athro neu athrawes, yn lanhawr neu lanhawraig, dyma gyfnod tywyll a thrist yn hanes yr ysgol a'r ardal. Bu'r Rhyfel Mawr yn rhoi ar draws gyfandir Ewrop am ddwy flynedd, ond rhwng 1916 a 1917 cyrhaeddodd ei anterth. Cafodd nifer helaeth o fechgyn ieuainc Llanberis a'r pentrefi cyfagos eu lladd neu eu clwyfo'n ddifrifol a nifer fechan iawn a ddychwelodd o ffosydd Ffrainc.

Nid oedd hyd yn oed sefyllfa erchyll fel hyn yn ddim ond meithrinfa i fwy o drychinebau a ddaeth yn sgil y Rhyfel Mawr.

(I'w barhau)

Ration Books a'r Blackout

A ninnau'n dathlu hanner canmlwyddiant 'D-day' eleni, y mae'n naturiol i lawer ohonom ddwyn i gof brofiadau a gysylltwn â chyfnod yr Ail Ryfel Byd. Cofiw'n am y gwŷr a'r bechgyn ifainc a fu'n brwydro ar faes y gad ac y mae'n dyled iddynt yn enfawr. Er hynny, efalli ein bod wedi anwybyddu cyfraniad pwysig y gwagedd fu'n gwarchod yr aelwyd ac yn magu teulu yn ystod y cyfnod anodd hwnnw. Ar eu hysgwyddau hwy y bu'r dasg o gynnal teulu drwy'r blynyddoedd o brinder mawr. Bydd pob gwraig tŷ yn cofio am y *Ration Book* a'r dogni a fu ar fwyd a dillad, a chofio am y sloganau 'Wate Not, Want Not', 'Make Do and Mend', a 'Dig for Victory' a daeth yn orchmynion dyddiol iddynt. Cofio clywed y geiriau fel *queue, evacuees, utility* a *black-out* am y tro cyntaf a dysgu yr oblygiadau a ddaeth yn eu sgil. Cofio am wau dillad gwlan i'r milwyr, cofio am groesawu plant bach dieithr i'r cartref. Gwraig ifanc yn cofio am sefydlu cartref newydd yng nghyfnod y Rhyfel, plant yn cofio am werth y *points* ar gyfer prynu melysion a siocled bob mis . . .

Mae gan bawb ei stori ac mae Minwel Tibbott o Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yn awyddus i gofnodi atgofion y rhai ohonoch fu'n cadw tŷ yng Nghymru yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd. Beth am ysgrifennu pwt o lythyr ati i sôn am rai o'r argraffiadau sydd wedi aros yn y cof? Hoffai glywed am y llon a'r lleddf, am yr her a'r tro trwstan. Ewch ati i groniclo'r hanes pwysig hwn fel ei fod ar gof a chadw yn yr archifau yn Amgueddfa Werin Cymru. Maent yn cynnig gwobr o £25 am y llythyr gorau.

Y cyfeiriad i anfon y llythyrau yw:


Mrs S. Minwel Tibbott
Is-geidwad
Adran Adeiladau a
Bywyd Cartref
Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan
Caerdydd CF5 6XB

South End, Llanberis.



Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
**BRISIAU
CYSTADLEUOL**
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CWRS GOLFF TYDDYN MAWR, LLANRUG

Chwi gofiwch i mi adrodd yn rhifyn Gorffennaf am fy mhrofiad wrth gerdded Cwrs Golff Tyddyn Mawr. Yn ddiweddar galwais draw i weld sut mae pethau'n datblygu.

Dywed Meirion bod dros gant o unigolion wedi ymateb i'r daflen ddsbarthwyd gyda'r 'Eco' ac mi 'rydw i, fel sawl un arall, sy'n dechrau cael blas ar daro'r bêl fach wen, yn sylweddoli y bydd cwrs Tyddyn Mawr yn gyfle gwyh i'r 'hogia' lleol ddygu a chael mwynhad o'r gêm.

Cyn agor y cwrs yn swyddogol bydd rhaid i Meirion gwblhau y fynedfa newydd, a chau yr un bresennol, ac hefyd rhoi sylw i wal y ffordd fawr. Mae tynged y wal yn dibynnu ar ganlyniad trafodaethau rhwng Adran Briffyrdd Cyngor Sir Gwynedd ac Adran Gynllunio Cyngor Arfon. Gan ystyried fod y gwaith o wella'r ffordd ger Hyfrydle yn dirwyn i ben mae Meirion wedi cynnig i'r Adran Briffyrdd i wella rhedfa'r ffordd, ar yr amod, wrth gwrs, y byddai'r gwaith yn cyd-redeg â'r gwaith y bydd ef yn ei wneud ar y fynedfa newydd. Ar hyn o bryd nid oes ganddynt gynllun ar y gweill.

Tra bo Meirion yn disgwyl i'r awdurdodau 'ddod at eu coel' rhaid iddo fodloni ar eistedd yn sedd y Fergie Bach llwyd yn rhodio'r lleiniau gan dorri gwair a lladd chwyn, a chael lliw haul am ddim yr un pryd.

Rhaid i mi, a llawer Hacıwr arall, fod yn amyneddgar am ychydig amser eto, cyn wynebu y sialens, i'r dechreuwr beth bynnag, sydd wedi'i baratoi gan Meirion ar ein cyfer.

Yn dilyn fymweliad cyntaf â Thyddyn Mawr 'rwyf wedi cael gafael ar lyfr bach difyr iawn ar gelfyddyd chwarae golff o dan y teitl *Cerdd Daro*. Enillodd y llyfr hwn yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1979. Yr awdur yw Mr William Lloyd Griffith (Wil Lloyd i aelodau Clwb Golff Nefyn). Sylwch gyd-hacwyr mae hwn yn gwybod ei stwff, ac hefyd yn feistr ar drin geiriau a chlybiau golff. Bu'n chwarae i dim gogledd Cymru gyda handicap o 4, 'nawr mae o'n llwyddo i chwarae oddi ar handicap o 7.1.

Wrth feddwl, yn arbennig am yr wythfed twll ar gws Tyddyn Mawr, dyfynnaf o'r Rhagymadrodd i *Cerdd Daro*: 'Y wers gyntaf, felly, ydyw bod rhaid osgoi meddyliau negyddol. Mae'n holl bwysig meithrin agwedd meddwl hyderus.'

Mentra ddweud, Meirion, y bydd y llyn yn dranc i sawl Hacıwr ac y cei, rhyw ddydd, gynhaef o beli golff!!


Cefnogwch ein Hysbysebwy

DRAENOG



Pam bod yna ambell un sy'n haws i'w bigo nag eraill deudwch? Newydd sgwennu'r stori am y cloeon 'Chiv' ar gyfer yr Eco dwythia roeddwn i pan

glywais stori arall am yr un cyfaill o Lanbêr. Roedd o'n coginio pysgodyn blasus i de. Clywodd gnoch ar y drws ac aeth i'w ateb. Pan drodd yn ôl i'r gegin cafodd gip sydyn ar y gath yn diflannu trwy'r ffenest gefn... â'r pysgodyn yn saff rhwng ei dannedd! Plis, Mr Silias, peidiwch a gwneud dim byd gwirion y mis nesaf yma; faswn i ddim yn hoffi gorfod adrodd trydedd stori amdanoch. Ond cofiwch, os clywa i rywbeth...



GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

'Dacw'r Wyddfa a'i Chriw'

Nos Sul, Medi 25, ar Radio Cymru — am ddeng munud wedi naw — fe ail-ddarlledir y rhaglen 'Dacw'r Wyddfa a'i Chriw', a ddarlledwyd gyntaf bedair blynedd ar ddeg yn ôl ym mis Tachwedd 1980 pryd y bu rhai o drigolion yr ardal a fagwyd wrth droed neu ar lethrau'r Wyddfa yn sôn am eu cysylltiadau â'r mynydd.

Yn ystod y rhaglen clywir lleisiau y diweddar Syr Thomas Parry-Williams; J. W. Elis

(Perisfab); Michael Pritchard (Meic Rali); Pyrs Williams, Hafod y Llan, Nant Gwynant; ac Evan Roberts, Caper Curig. Yn ogystal clywir lleisiau Clifford Williams, Eurwyn Lloyd Evans, John Ellis Roberts a Gwynfor Williams. Fe geir eitemau cerddorol gan Hogia'r Wyddfa, Rosalind a Myrddin a pharti merched Clychau'r Grug o ardal yr 'Eco'.

Lluniwyd a chyflwynir y rhaglen gan Rol Williams a'r cynhyrchydd yw R. Alun Evans.

COFFAU'R ARWISGO A CHOFIO CAU CHWAREL DINORWIG

A gofiwch chwi ddiwrnod yr Arwisgo
A'r holl rwyg Brenhinol ddaeth i'w ganlyn o
Y miloedd pobl o wahanol wledydd y byd
A'u prif weinidogion, a'u cynffonwyr ynghyd.

Lleolwyd y Siou ar lawnt y Castell, a'r drysau yn glöedig
O flaen cynulleidfa dethol, ar lwyfan o lechfaen caboledig Dinorwig
Digwyddodd a darfu fel pob diwrnod mewn oes
Ei riantwch cynffonllyd yn gofiadwy gan rai, i eraill yn loes
A rhyw siou tebyg, wedi'i ail dwymo oedd hon eto
A mwyafrif cynghorwyr y dre' wedi 'i boicotio.

CAU CHWAREL DINORWIG

Bu digwyddiad cofiadwy arall ymhen ychydig
Sef cau ar fyr rybudd Chwarel fawr Dinorwig
Dwy flynedd a mwy o drefnu a darparu i'r Arwisgo
Awr neu ddwy o rybudd i'r chwarelwr i'w ddiffreinio
Coffeir yr Arwisgo, mewn cyfrolau coeth rhwymedig
Cofadail chwarelwyr Dinorwig, yw tomenydd y chwarel gaeedig.

H.J.

AILADRODD CAMP MARCONI

Rhai misoedd yn ôl bu'r 'Eco' yn adrodd am weithgareddau arbennig gan Glwb Radio Amatur y Ddraig i ailadrodd camp Marconi 75 mlynedd ynghynt pan anfonwyd neges radio o'r orsaf ar Cefn Du i Wahroonga, Awstralia. Y llynedd fe wnaed y cysylltiad drwy gyfrwng y Côt Morse ond ar 22ain Medi eleni gobeithir ailadrodd y gamp trwy ddarlledu llais.

Rheolwr yr orsaf, a sefydlwyd mewn rhan o'r hen adeiladau ar y Cefn Du, fydd Mr John Parry (GW3VVC), Ar Allt, Lôn Hedydd, Llanfairpwll, ac fe'i cynorthwyr gan aelodau o'r Clwb — y rhan fwyaf ohonynt yn hanu o Arfon a de Ynys Môn. Dymunwn yn dda i'r fenter a gobeithiwn gael adrodd am ei llwyddiant yn y rhifyn nesaf.

SOBIN A'R SMAELIAID yn ROC MÔR

Tŷ Newydd Morfa
Llanfrothen
Nos Sadwrn
1 Hydref 1994
am 8 o'r gloch
Mynediad £5

TREFNIR GAN PLAID CYMRU

LLWYDDIANT ARBENNIG MERCH O FETHEL

Mae Angharad Price, o Fethel, wedi ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Almaeneg yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, ac yn sgil y canlyniad gwyh hwn fe ddyfarnwyd dwy ysgoloriaeth iddi. Gyda chymorth Ysgoloriaeth Saunders Lewis bydd Angharad yn mynd i Vienna i ymchwilio barddoniaeth a beirdd Awstria. Fe dderbyniodd hefyd ysgoloriaeth blwyddyn gan yr Academi Brydeinig ac o dan amodau yr ysgoloriaeth hon gall Angharad ddewis y maes y mae am ei ymchwilio.

Yn amlwg mae ieithoedd — a thrin geiriau — yn rhan o Angharad gan, chwi gofiwch, iddi gipio'r brif wobwr yng nghystadleuaeth y Stori Fer yn Eisteddfod Genedlaethol Llanellwedd y llynedd. (Mae hyn yn ddatblygiad naturiol i un a fwriad ei phrentisiaeth yn Eisteddfod Bethel!!)

Dymunwn pob llwyddiant i Angharad ym mha faes bynnag a ddewis ymchwilio iddo — ond, gobeitho na fydd ei chynnyrch llenyddiaeth Gymraeg yn prinhaus.

CHIROPDIST Gwasanaeth yn eich Cartref E. Ll. Parry M.S.S.Ch., M.B.Ch.A. 57 Glanffynnon LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
675754

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn: 675384.

Merched y Wawr: Bydd y Gangen yn cyfarfod yn Ysgol Gynradd Llanrug, nos Fawrth, Medi 13, am 7.30 p.m. ac ar yr ail nos Fawrth o bob mis wedi hynny. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd i flasu'r amrywiol weithgareddau sydd wedi'u paratoi ar gyfer pob mis. Trowch i mewn ar nos Fawr am noson ddifyr a chyfeillgar.

Cydymdeimlwn â Mrs Owena Davies, Bethesda Bach, a'r teulu (Garth, Llanrug, gynt) yn eu profedigaeth o golli ei phriod, Mr Glyn Davies, yn ddiweddar; a gyda Mr a Mrs Owen Jones, Y Garth, o golli eu mab yng nghyfraith.

Capel y Rhos: Ar Medi 11, yn y Capel Mawr am 10 a.m. fe bregethir gan y Parchg H. Jones-Parry, Caernarfon; ac yna am 2 p.m. fe gynhelir y gwasanaeth olaf, sef y gwasanaeth dadgysegru. Estynnir gwahoddiad cynnes i'r ddau gyfarfod.

O ddydd Sul, Medi 18 ymlaen bydd yr Eglwys yn addoli ym Mhont-rhythallt.

Bydd tymor yr Ysgol Sul yn ail ddechrau ar Fedi 11, am 10 a.m. ac fe'i cynhelir yng Nghapel Pont-rhythallt.

Bwrriedir rhedeg gwasanaeth bws i oedfaon y bore, a gofynnir i'r aelodau sydd yn awyddus i wneud defnydd o'r gwasanaeth i hysbysu'r swyddogion.

Cymdeithas y Chwiorydd: Bydd Cymdeithas Chwiorydd Capel y Rhos yn aildechrau ar ôl gwyliau'r haf, ar nos lau, Medi 22, pan geir sgwrs gan Miss Doris Adlam. Croeso cynnes i bawb.

Diolchiadau:

Dymuna Nigel, 1 Rhos Rhug, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion ac arian a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty. Diolch hefyd i'r meddygon a gweinyddesau Ysbyty Frenhinol Lerpwl a Clatterbridge. Diolch arbennig i bawb a gludodd ei fam, Anti Ellen ac Uncl Cled i'r ysbyty tra y bu yno. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Ronald, Elizabeth a theulu y ddiweddar Doris Fleming, 12 Maes Gwylfa, Deiniolen, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Llauer o ddiolch am y llu o gardiau, galwadau ffôn, ymweliadau, blodau a rhoddion tuag at Wardiau

Twrog yn Ysbyty Eryri a Hebog yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r holl feddygon a'r staff a'r wardiau Twrog a Hebog am eu gofal. I'r Prchedig Tegid Roberts am ei wasanaeth; Mr Bryn Griffiths, Organydd; Mrs M. Davies a Mrs A. Hughes am ddarparu'r lluniaeth.

Diolch arbennig i Glenys, Nellie a Jackie, Susan, cymdogion a merched Cymorth Cartref. Diolch i Mr E. W. Pritchard a Gwynfor am eu trefniadau trylwyr.

Llongyfarchiadau i Michelle Louise Roberts, 12 oed, am ddod yn drydydd ar yr unawd 12-15 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghastell Nedd a'r Cyffiniau. Bu Michelle yn llwyddiannus hefyd yn Eisteddfod Ryng-wladol Llangollen pan ddaeth yn drydydd ar yr unawd dan 16 oed. Da iawn hi.

Ysgol Sul Eglwys y Rhos: Cofiwch blant y bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn wedi'r gwyliau ar fore Sul, Medi 11, am 10 o'r gloch, yng Nghapel Pont-rhythallt. Bydd cyfarfod yng Nghapel Pont-rhythallt yn brofiad gwahanol i chi'r plant ac i'r athrawon hefyd. Gobeithiwn weld plant bach newydd yn cychwyn yn yr Ysgol Sul ac edrychwn ymlaen yn fawr at weld pawb arall ohonoch yno. Edrychwn ymlaen at gychwyn cyfnod mentrus a newydd yn hanes yr Ysgol Sul yn Llanrug. Cofiwch ddod yno.

Cyngor Eglwys - Cymorth Cristnogol: Dymuna'r pwyllgor ddiolch i drigolion Llanrug a'r ardal am eu hymateb hael i'r casgliad hwn eto eleni. Diolch yn arbennig i'r casglyddion am eu hymdrechion. Y cyfanswm terfynol oedd £569.24.

Plaid Cymru: Yng Nghyfarfod Blynnyddol y gangen ym mis Gorffennaf etholwyd y swyddogion canlynol - Cadeirydd: Phyllis Ellis; Is-gadeirydd: Berwyn Parry Jones; Trysorydd: Meirwen Lloyd; Ysgrifennydd: Olwen Llywelyn; Ysgrifennydd Aelodath: Vera Williams; Swyddog y Wasg: Llinos C. Davies; Trefnydd Clwb Cant: Cliff Williams.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu gwaith a'r aelodau am eu ffyddlondeb gydol y flwyddyn. Apeliodd am yr un teyrngarwch a phresenoldeb i gyfarfodydd y tymor sydd ar gychwyn. Trefnwyd rhaglen amrywiol a diddorol unwaith eto gan ddechrau gyda ymweliad Cwmni Bara Caws ar nos Fercher, Hydref 12, yn Neuadd Ysgol Brynrefail.



Tîm Pêl-droed leuenctid Llanrug a dderbyniodd grysau newydd gan gwmni Fitlock yn ddiweddar.

Fe ddaw y Barnwr Dewi Watkin Powell atom ar nos Fercher, Tachwedd 9, i siarad am 'Y Gyfraith - Cymru a Chymraeg'. Bydd y cyfarfod yma yng Nghanolfan Penisarwaun am 7.30 o'r gloch.

Mae dyddiad y Ffair Nadolig wedi ei drefnu ar gyfer Rhagfyr 7, yn Neuadd yr Ysgol Gynradd.

Bu amryw o'n aelodau yn wael yn eu cartrefi ac yn yr ysbytai yn ddiweddar ac yn eu plith: Emyr Tomos, Tanycae, Tan-y-coed; Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar; a Nan Humphreys, Pant Bryngwyn; a dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i bob un ohonynt.

Anfonwn ein llongyfarchiadau cynnes i holl bobol ifainc ar eu llwyddiant yn eu arholiadau yn ddiweddar a dymunwn yn dda iddynt yn y tymor newydd mewn ysgol, gwaith, ysbyty a choleg.

Cydymdeimlwn â Mrs Mair Huws, Glasgoed, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl yn ystod yr haf.

Ganwyd merch fach arall i Leri a Dylan yn Bodffordd, Sir Fôn a llongyfarchwn Eryl ac Islwyn Roberts, 3 Bryn Moelyn, ar fod yn nain a thaid unwaith eto.

Bydd cyfle i ail-ymaelodi yn y gangen cyn bo hir ac fe ddaw'r casglyddion i gasglu eich tâl aelodaeth. Bydd croeso hefyd i gyfeillion sydd wedi symud i'r ardal yn ddiweddar i ymaelodi ac i ddod i'r cyfarfodydd.

Enillwyr y Clwb Cant yn ystod yr haf oedd - Mehefin: 1, Robin Williams, Sŵn y Gwynt; 2, Margaret Jones, Dwyros. Gorffennaf: 1, Dyfan Roberts, Melin Cwaria; 2, Delyth Tomos, Tan y Cae.

Diolchiadau:

Dymuna Catrin Thomas, Bron y

Nant, ddiolch i bawb am y cardiau, y rhoddion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar, ac yn dilyn ei llwyddiant yng nghanlyniadau arholiadau Lefel Uwch.

Carai Mair, Gwyndaf, Rhodri a Gwion, Glasgoed, Llanrug, ddiolch yn ddiffuant iawn i'w teulu, ffrindiau a phentrefwyr yr ardaloedd cyfagos a fu mor ffyddlon a charedig wrthyn yn ystod eu profedigaeth sydyn o golli mam a nain annwyl, sef Mrs Annie Williams, Ystrad.

Diolch i Mr E. W. Pritchard, Llanberis, am drefniadau trylwyr yr angladd. I'r Parchedigion John Morris a John Pritchard am wasanaethu ac i Mrs Carys Jones yr organydd. Trysorwyd geiriau arbennig Mr Gwyn Parri, Deiniolen, yn ei deyrnged hyfryd ac annwyl i Anti Ann. Rhannwyd dros £500 o roddion coffa rhwng Meddygfa Waunfaw a Wardiau Tryfan a Chybi yn Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon am bob cyfraniad.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

EISTEDDFOD LLANRUG

TESTUNAU LLENYDDOL

1. Englyn Ysgafn: 'Fi'
2. Cerdd: 'Crwydro'
3. Cân Ysgafn: 'Y Ganolfan Gymuned'
4. Gwaith Rhydd/Creadigol: Unrhyw gyfrwng - stori, ysgrif, drama, ar unrhyw thema
5. Erthygl ffeithiol: addas i'w chyhoeddi yn 'Eco'r Wyddfa' ar unrhyw destun
6. Limrig: yn cynnwys rhif
7. Parodi: un o gerddi Cynan
8. Creu brawddeg o: EITHIN DUON
9. I rai dros 60 oed: 'Atgofion'

Y cyfansoddiadau i'w hanfon i Rolant Wynne, Fron Hyfryd, Ffordd yr Orsaf erbyn nos Fercher, Medi 28

COFIWCH GYSTADLU!

DYDDIAD NOSON
CELF A CHREFFT
Nos Lun, Hydref 10
6.30 - 6.45 p.m.
yn yr Ysgol Gynradd

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (0286) 673559



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau
bedydd, pen-blwydd a phob
achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant -
disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

APÊL MYNWENT LLANRUG A'R CYLCH

gan LLINOS WYN PARRY, Llanrug

Pe byddai rhywun yn gofyn i mi ddiffinio mynwent byddwn yn eu hateb yn ddigon sydyn trwy ddweud mai man gorffwys i'r meirw ydyw. Mae'r ateb yn un digon teg, onid yw; sut arall y gallwn ddisgrifio mynwent?

Ond, a yw mynwent yn fwy na hyn? Onid yw pob mynwent yn rhan o etifeddiaeth bro?

Cymerwch mynwent Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, er enghraifft. Wrth gerdded trwy yr hen fynwent un pnawn o haf dechreuais gymryd mwy o ddiddordeb yn y beddau na'r arfer.

Canfyddais, mor aml, wrth edrych ar llawer bedd pa mor ifanc oedd cymaint yn marw yn nechrau y ganrif hon a diwedd y ganrif a fu.

Mae yna un bedd ar ochr y prif lwybr yn enghraifft trist o'r gwirionedd hwn. Dyma a ysgrifennwyd arni: 'Er Serchog Gof am blant Hugh a Jane Roberts, Madryn House, Llanrug.' Wedyn cawn restr o wyth o blant a gladdwyd yn y bedd hwn rhwng 1872 a 1906. Oed y plant oedd 17 mis, 2, 4, 8, 21, 22, 26 a 28 mlwydd oed.

Nid yw'r bedd hwn ond un esiampl sy'n tanlinellu cyflwr iechyd ein cenedl yn y gorffennol — a hynny mor ddiweddar yn wir.

Wedi treulio amser yn myfyrio ar boen Hugh a Jane Roberts euthum ati i geisio darganfod y bedd hynaf yn y fynwent. 1750 oedd y dyddiad hynaf a welais i, ond pwy a wŷr efallai bod yno rhai hŷn.

O ddiddordeb hefyd oedd yr englynion a'r cerddi ar y beddau, a'r ffydd oedd i'w canfod ynddynt. Er enghraifft, er bod Hugh a Jane Roberts wedi claddu wyth o'u plant dyma a gawn ar y bedd:

*Na wylwn ddim, na fyddwn drist
Am neb sydd wedi mar y'Nghrist
Does yma ond y corph o glai
Mae'r enaid fry yn llawenhau.*

Mynwent Llanrug yw'r fynwent fwyaf mewn ardal wledig yng Nghymru gyfan. Dyma a ddywedir

gan y Parchg Hugh Williams yn ei lyfr *Rural Welsh Parishes* a gyhoeddwyd yn 1907. Hefyd fe ddywedir yn y llyfr y gall trigolion y plwyf fod yn falch ohoni gan ei bod mor daclus a thwt.

Pe bai y Parchg Hugh Williams yn ymweld â'r fynwent heddiw pa sylwadau fyddai ganddo os gwn i? A ydym ni fel cymuned yn gwarchod a chynnal y fynwent fel ag y dylem? A yw'r saith mil a mwy sy'n gorffwys yno — o bob enwad crefyddol, ac o bob pentref cyfagos — yn derbyn eu dyledus barch? Gobeithio yn wir, ond am faint eto?

Mae'r arian sydd wrth law i gynnal y fynwent bron wedi gorffen. Rhoddion yn unig sy'n galluogi i'r fynwent gael ei chynnal a'r gwaith i'w dorri ddwywaith y flwyddyn. Dim y Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am gadw trefn ar yr hen fynwent, yn wahanol i'r fynwent newydd.

Yr HEN fynwent medda' ni, fel petae neb yn cael eu claddu ynddi bellach. Ond mae hyn yn bell o fod yn wir gan fod 54 o bob enwad wedi eu claddu ynddi ers 1990.

Etifeddiaeth yn wir yw'r fynwent hynafol hon a dwi'n siŵr fod perthnasau a chyn-ffrindiau y rhan fwyaf ohonom yn gorffwys yno.

Os ydych am i'r fynwent barhau i fod yn orffwysfa deilwng i filoedd o'n cyd-ardalwyr anfonwch eich rhodd i **Mrs Dilys Jones, 18 Hafan Elan, Llanrug.**

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr
650552

AR WERTH HWYAIID GWYLLT (Mallard)

Ffôn: (0286) 870735

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyraains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

LLWYDDIANT I UN O FECHGYN LLANRUG

Daeth cryn lwyddiant i ran bachgen o Lanrug yn ddiweddar. Daw Berwyn Owen yn wreiddiol o Tegfryn, Ffordd yr Orsaf, ond mae ei gartref bellach yn Newcastle. Gadawodd Llanrug pan oedd yn ddeunaw oed i weithio yn adran ymchwil cwmni Smithkline Beecham Pharmaceuticals yn Sussex ac ar ôl ennill BTEC mewn Gwyddoniaeth a'r HNC mewn Cemeg fe raddiodd gydag anrhydedd mewn Fferylliaeth ym Mhrifysgol Brighton y llynedd. Yn gynharach eleni cafodd swydd gyda cwmni Sterling Winthrop Chemicals yn Newcastle ac mae bellach, gyda nawdd ysgoloriaeth PhD, yn ymchwilio i driniaeth afiechydon arennau mewn babanod a phlant.

Yn gyn-aelod o Seindorf Llanrug mae o'n treulio peth o'i amser hamdden yn chwythu corn gyda band pres enwog Ever Ready Batteries ac fe fydd yn cystadlu gyda



hwy yn y brif adran yn Neuadd Albert, Llundain, yn yr hydref. Mae o hefyd yn cefnogi Newcastle United ac yn rhoi cefnogaeth Gymraeg i Malcolm Allen.

GWASANAETH TACSI HURIO BWS MINI CABS LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN

6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**

Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



Bistro
43 - 45

Stryd Fawr

LLANBERIS. Ffôn 871278


*Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w dewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis*

ECO'R IFANC

LLANRUG



Enillwyr dan 12 oed Tlws yr Eco 1994.



Ar Draws:-

- 1 Gŵr Nain (4)
- 3 Cewch ymuno â hwn (4)
- 6 Un sy'n gweithio â'i ddwylo (6)
- 7 Lliw brân (2)
- 8 Hi sy'n edrych ar eich ôl (3)
- 11 Gwlan dafad (3)
- 12 -- Ni, -- Chi (2)
- 15 Cyflwynwr Uned 5 (6)
- 16 ---- 5 (4)
- 17 Gofalu amdanoch yn yr ysbyty (4)

I lawr:-

- 1 Cewch weld Uned 5 ar hwn (6)
- 2 Beth wnewch â llyfr (6)
- 4 Ar --- y môr (3)
- 5 --- a saeth (3)
- 9 Mae'n eich cario drwy'r awyr (6)
- 10 Saith diwrnod (6)
- 13 Gwisg aderyn (3)
- 14 Cartref pryf copyn (3)

BETHEL



oedd yn y rownd terfynol dan 12 oed yn erbyn Llanrug.

Diolch i griw Uned 5 am
hon. Dyma luniau'r timau
Tlws yr Eco ym


Ar Fedi 13eg bydd Gaynor, Garmon a Nia yn
rhaglen yn cael ei darlledu bob nos Fawrth a

Os hoffech ymuno â **CHLWB UNED 5** anfonwch
atom yn y cyfeiriad isod:-

Uned 5, Cibyn, Caernarfon, Gwynedd, LL5


Pob hwyl gyda'r gemau - mae'r atebion i gyd a

Mae'r rhif 5 wedi dianc o'r Uned, ond mae un o'r cyflwynwyr wedi llwyddo i'w
ddal. Mae'r ddau gyflwynydd arall yn gafael bob pen i'r un llinyn. Pwy sydd
wedi dal y 5?



Gaynor

Garmon



Lliwiwch y llun gan ddefnyddio'r lli

1 - Glas 2 - Melyn 3 - Oren 4 -

Labwr, 7-Du, 8-Mam, 11-Cnu,
Bwa, 9-Awyren, 10-Wythnos, 13-Plu,



posau ar gyfer y dudalen
oedd yn rowndiau terfynol
mis Gorffennaf.

ar S4C mewn cyfres newydd o UNED 5. Bydd y
s Wener am 5 o'r gloch.

ddau lun bychan ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad

2BD

waelod y dudalen.



au canlynol:-

wyd 5 - Piws 6 - Gwyrdd

Pwy sy'n dal ei afael ar y 5? Gaynor

14-Gwê

1 lawr: 1-Teledu, 2-Darllen, 4-Lan,
12-Tŷ, 15-Garmon, 16-Uned, 17-Ny

Croesair:- Ar draws: 1-Taid, 3-Ciwb,

LLANBERIS



Enillwyr dan 10 oed Tlws yr Eco 1994.

Mae'r geiriau canlynol wedi'u cuddio yn y blwch islaw, naill ai ar i fyny,
ar draws, neu'n groes gongl. Ceisiwch eu darganfod.

Clwb, Cyfarchion, Difyr, Dim Trwbwl o Gwbwl, Fideo,
Garddio, Garmon, Gaynor, Nain Nain Nain, Nia, Peldroed,
Plant, S4C, Steddfod, Sioe, Ty Ni Ty Chi, Uned 5

4	N	I	A	T	R	I	L	L	O	P	S	T	E	D	D	F	O	D
C	D	S	B	D	I	M	T	R	W	B	W	L	O	G	W	B	W	L
P	T	L	G	4	N	A	I	N	N	A	I	N	N	A	I	N	O	S
D	U	G	A	R	M	O	N	M	T	C	W	4	C	R	A	T	L	4
B	P	T	Y	U	N	E	D	5	4	T	P	E	L	D	R	O	E	D
P	L	A	N	T	T	D	P	S	R	L	B	S	W	D	A	T	D	I
C	R	M	O	T	S	I	B	M	A	G	B	I	B	I	4	5	E	F
B	L	N	R	C	Y	F	A	R	C	H	I	O	N	O	R	H	D	Y
W	M	O	T	Y	N	I	T	Y	C	H	I	E	4	P	B	L	T	R

LLANRUG



oedd yn y rownd terfynol dan 10 oed yn erbyn Llanberis.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Diolchiadau:

Dymuna Mair, Ceris a Lorna, priod a phlant y diweddar Gwilym Wyn Williams, 5 Tan y Cae, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd caredig o gydymdeimlad a chefnogaeth yn ystod eu profedigaeth drist a sydyn o golli priod a thad annwyl. Diolch i chwi am y cardiau, llythyrau, galwadau ffôn a'r ymweliadau personol. Diolch i'r Parchg W. R. Williams a'r Parchg John Morris, y blaenoriaid a'r organyddes. Diolch yn arbennig i'r meddygon teulu ac i Beth a Falmi, Eirianwen a Dora, y gweinyddesau yn y Feddygfa yn Llanrug. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesar ar Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd, am eu caredigrwydd a'u gofal. Diolch i Mr Myrddin Pritchard, Llanberis, am ofalu'n eiffithiol am drefniadau'r angladd. Bydd y rhoddion a ddaeth i law yn cael eu rhannu rhwng Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd, a'r Feddygfa, Llanberis.

Dymuna Eifion Watkins ddiolch yn fawr i staff, plant a rhieni yr Ysgol am yr anrheg anrhydeddus a'r dymuniadau da wrth iddo ymadael â'r Ysgol a chychwyn ar ei swydd newydd yn ddirprwy brifathro yn Ysgol Llanfechell. Wedi gweithio yn Ysgol Bethel am bum mlynedd mae lle cynnes iawn iddi yn ei galon. Mae Mr Watkins yn mawr werthfawrogi pob caredigrwydd a ddangoswyd iddo tra ym Methel.

Apêl Rwanda: Casglwyd £246 tuag at Apêl Cymorth Cristnogol Rwanda yn y pentref. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael at yr achos teilwng hwn a diolchir i'r rhai a fu'n gyfrifol am drefnu'r casglu.

Llwyddiant Eisteddfodol: Mae Dafydd Guto Ifan wedi cael cryn lwyddiant mewn nifer o eisteddfodau dros yr haf. Enillodd wobrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn eisteddfodau Môn, Llanddeusant a Phonrhydfendigaid. Llongyfarchiadau mawr iawn iddo.

Cydymdeimlo: Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 30, bu farw Mr Gwilym Wyn Williams, 5 Tan y Cae. Estynnir ein cydymdeimlad â Mrs Williams a'r teulu yn eu profedigaeth.

Enillwyr diweddar Clwb 100 y Neuadd: mis Mehefin — £20: David Markland, Ceidio, Tre Gof (223); £10: Mrs Olwen Williams, 8 Stad Eryri (18); £5 yr un: Mrs Elizabeth Rowlands, Almira (141); Mrs Ella

Roberts, Acer Las (216); Gwynnaf Williams, Llyfnwy, Tan-y-cae (107); Mrs Elizabeth Evans, Blaen Parc (12); Maldwyn Hughes, 27 Bro Rhos (177); Michael Roberts, 26 Y Ddôl (124); Mrs Beryl Jones, 25 Bro Rhos (145); William Humphreys, Llwyn Hudol (60). Mis Gorffennaf — £20: Mrs Glenys Griffiths, Llwyn Eithin (142); £10: Clifford Hughes, Lliidiart-y-coed (134); £5 yr un: Howell Owen, 18 Cremlyn (143); Goronwy Owen, 18 Cremlyn (35); Dan Pierce, Swyn-yr-awel, Llanrug (206); Mrs Gwyneth Hughes, Cae Rhos (85); Miss Glenys W. Jones, 14 Tan-y-cae (146); Ian Mercer, Roslyn, Tan-y-ffordd (9).

Enillwyr Clwb 100 yr Ysgol am fisoedd Gorffennaf ac Awst: Gorffennaf — £20: D. A. Pritchard, Cae Gwyn, Y Felinheli (47); £15: Nia Morgan, Tegid, Brynsiencyn (33); £10: Wendy Roberts, Bryn Rhydd (107); £5: Ellen Ellis, Drws-y-coed (13); £3: Gwyneth Collis, Frondirion, Y Felinheli (104). Mis Awst — £10: Ann Elis, Cilgeran (9); £15: Gwilym Williams, 20 Y Ddôl (85); £10: Pat Owen, Cefn Cynrig (90); £5: Glenda A. Owen, Snowdonia (53); £3: Pat Jones, 15 Tan-y-buath (40). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Dymuniadau Gorau: Fel arfer mae mis Medi yn fis pan fo newid mawr ar fyd i nifer o blant a phobl ifainc — o'r plant ieuengaf sy'n dechrau yn yr Ysgol Feithrin, neu'r Ysgol; a'r ieuencid sydd yn mynd i goleg neu i waith. Llongyfarchiadau mawr i bawb ar eu llwyddiant yn eu gwahanol arholiadau dros yr haf a dymunwn y gorau i bawb yn eu gyrfaedd newydd ym mis Medi.



Ffion Williams, Y Ddôl, a enillodd y wobr gyntaf am goginio pedair cacen yn Sioe Gogledd Cymru.



Cynrychiolwyr yr Ysgol Feithrin, yr Ysgol Gynradd ac Ysgol Pendalar yn derbyn rhoddion yn deillio o elw'r cynhyrchiad 'O Gaethiwed i Ryddid'.

O Gaethiwed i Ryddid: Yn y rhifyn diwethaf rhoddwyd sylw i gynhyrchiad penigamp ardalydd Llanddeiniolen o'r ddrama gerdd. Fel mewn cynrychiadau cynharach fe rannwyd yr elw ariannol ymysg sefydliadau lleol a'r tro hwn yn addysgiadol. Cyflwynwyd rhoddion anrhydeddus mewn noson arbennig a gynhaliwyd ym Mhlas Menai ym mis Gorffennaf. Yn elwa eleni roedd Ysgol Gynradd Bethel (£1,000); Ysgol

Pendalar (£750); ac Ysgol Feithrin Bethel (£250). Yr oedd y tri sefydliad yn hynod ddiolchgar am y rhoddion a braf oedd clywed Betty Williams, wrth dderbyn y rhodd ar ran Ysgol Pendalar, yn sôn am y berthynas agos sy' wedi datblygu rhwng yr Ysgol a Chantorion Elidir.

Cofiwch am y perfformiadau ychwanegol yn Theatr Gwynedd ar Fedi 15 a 16.

Pwyllgor y Neuadd: Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar a rhoddwyd cryn bwyslais ar yr angen i'r gymdeithas leol wneud defnydd o'r Neuadd y maent wedi cyfrannu mor hael tuag at ei ail-sefydlu. Byddai'n braf meddwl am sefydlu mwy o atyniadau cymdeithasol a fyddai'n seiliedig ar y Neuadd. Y mae gwir angen am syniadau newydd, er enghraifft mae yna gwrth badminton (mesuriadau llawn) wedi ei osod ar lawr y neuadd. Pwy tybed fydd y cyntaf i chwarae badminton arno? Ar hyn o bryd dyma'r defnydd a wneir o'r Neuadd gan gofio ei bod ar agor o 5.30 p.m. hyd 9 p.m.

Dydd Llun: Aerobics o 6.30 hyd 7.30; Clwb Ieuencid o 7.30 hyd 9.00.

Dydd Mawrth: Clwb Ffermwyr Ieuainc o 7.30 hyd 9.00.

Dydd Mercher: DIM.

Dydd Iau: Yr Urdd o 5.30 hyd 7.30; Clwb Ieuencid o 7.30 hyd 9.00.

Dydd Gwener: Aerobics o 6.30 hyd 7.30.

Ar yr ail a'r pedwerydd dydd Mawrth o bob mis fe gynhelir cymhorthfa'r meddyg rhwng 9 a.m. a 12.00.

Cynhelir y cyfarfod blynyddol ar NOS FAWRTH, HYDREF 4ydd am 7.30 p.m. Taer erfynnir am

gefnogaeth i'r cyfarfod pwysig yma, a gofynnir i phob cymdeithas a mudiadau lleol anfon cynrychiolydd.

Cytunwyd ar y symiau isod fel prisiau llogi ar gyfer y Neuadd:

(a) **Cymdeithasau neu Unigolion** i gynnal gweithgarwch fel pwyllgor, parti plant, etc. — taliad o £6 a £3 fesul awr neu ran o awr wedi'r ddwyawr gyntaf.

(b) **I Gymdeithas neu Unigolion** sy'n cynnal gweithgarwch ble y bwriedir gwneud elw trwy godi tâl mynediad — taliad o £10 a £5 fesul awr neu ran o awr wedi'r ddwyawr gyntaf.

(c) **I Fasnachwyr** — taliad o £20 a £10 fesul awr neu ran o awr wedi'r ddwyawr gyntaf.

Am unrhyw wybodaeth bellach cysyllter â'r Ysgrifennyddes:

OLWEN WILLIAMS
8 ST ÂD ERYRI
BETHEL
(0248) 671110

Plaid Cymru: Cynhelir cyfarfod anffurfiol o'r gangen yn y Bedol o 8 o'r gloch ymlaen ar nos Fercher, 21 Medi.

Bydd cyfle i'r aelodau gyflwyno'u syniadau neu welliannau ar gyfer y flwyddyn newydd ac i'r rhai newydd i'r ardal sydd am ymuno â ni i ddod i'n cyfarfod. Croeso cynnes i bawb. Os nad yw'n bosib i chi ddod, a bod gennych ddi-ddordeb, yna ffoniwch Nia ar 670641.

Magu Blas: Bu tair aelod o gangen Bethel o Ferched y Wawr yn llwyddiannus yn Sioe Gogledd Cymru, a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Llwyddodd Edwina Morris, Eirlys Williams a Glenys Griffiths i gipio y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth coginio.

Dathlu Priodas Aur: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs John Owen, Penrhyn Bach, ar dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Llongyfarchiadau:

— i Non Llewelyn, Llys Alaw, ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth cyfansoddi cân yn yr Adran Ieuencid yn Eisteddfod Nedd a'r Cyffiniau.

— i Mr a Mrs Owen, 6 Bron Gwynedd ar enedigaeth merch fach.

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:

C'fon 672898 (dydd)

C'fon 676285 (nos)

Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri

am brisiau rhesymol
**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Sadwrn
10.00 — 4.30

Ffôn: Llanberis
870922

+

**J.M.
JONES**
A'I FEIBION

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**



Eirlys, Glenys ac Edwina — y cogyddion llwyddiannus gyda'u cynnyrch blasus a gipiodd y brif wobwr.

ADUNIAD CHWARELWYR DINORWIG

(a gynhaliwyd yn ôl yn 1974)

(Derbyniwyd y nodiadau a'r penillion canlynol oddi wrth Bobbie Williams, 3 Bro Deiniol, Deiniolen.)

O berthynas i'r llun 'Aduniad Chwarelwyr Dinorwig' yn rhifyn diwethaf yr Eco, rwy'n amgau copi o'r penillion a gyfansoddwyd ar gyfer yr achlysur gan y diweddar John D. Evans, Maesydfref, Clwt-y-bont (Johnni'r lard). Hyderaf y bydd lle yn yr Eco i'w chyhoeddi'n llawn gan y byddant yn dwyn atgofion melyn i gyn-chwarelwyr Dinorwig.

Difyrwyd y gwmniâeth yng Nghaffi Milburn ar y noson gofiadwy honno wrth wrando ar Lorna Lewis, Esther Ann Williams a Margaret Williams yn canu i gyfeiliant Helen Wyn Lewis, roedd y merched i gyd yn byw yn Neiniolen.

(Bobbie Williams)

Fe gawsom wahoddiad i Gaerwen Sir Fôn,
Am gaffi y Gaerwen bu llawer o sôn.
Ond heno'r chwarelwyr sy'n hawlio y clod
Ni welwyd mewn hanes y fath fynd a dod.

Chwarelwyr Dinorwig, o Arfon a Môn,
A phawb gyda'i stori, ei atgof neu don.
Yn wŷr ac yn wragedd, yn hapus a ffri,
Yn uno mewn swper a dipyn o sbri.

Ail-fyw yr hen gyfnod dreuliasom ynghyd
Ar glogwyn Dinorwig mor hapus ein bryd.
Daw eto rhyw adlais o ganiad corn un,
A miwsig diflino yr ordd a'r hen gun.

Huw Berth gyda'i wagan a John gyda'i raw
Yn symud tunelli o rwbwl a baw.
Jac Darron a'i deulu yn ll'gadu hen raff,
Heb gwlwm y llongwr a phopeth yn saff.

Huw Bryn ar y clogwyn mor bwylllog ei law
A'i bylor yn barod am glec caniad naw.
Mered a Wil Robaits a Wil Tomos Twt,
A'u bargaen fel tresal yn lân ac yn dwt.

Ond, beth yw y bloeddio a glywaf uwchben?
Dic Betws yn chwerthin nes ysgwyd y nen.
A Harri Llanddeiniol, ychydig is i lawr,
Yn galw rhyw enwau cynddeiriog o fawr!

Ond os wyf am gadw fy nghorffyn yn iach
Wel, rhaid gwneud cyfeiriad at Bonc Penrhydd Bach,
Now John wyt ti'n cofio rhen Benny a Moss,
Hen hogia y crystyn fu'n garfan mor glôs.

Jac Owen Pwllbudur, Now Tom, a'r hen El,
A'r odiaf ohonynt, John Rowlands Clwt-Bêl.
Glanaber a Jackson, a Now Bach y Cwm,
Kind Fellow heb faco a'i bwrs bach yn llwm.

Hen Gonwy and Company, a Cwil Ynys Wen,
Yn methu mynd allan, heb lwyth ar 'i ben,
Ond er yr holl lafnio yng nghanol y baw,
Mor felys yw cofio y dyddiau, 'rhen law.

I lawr yn y Felin hen hogia Cae Glas
A'r Yank yn ei afiaeth yn trin cerrig bras.
Wil Sinc a'r hen Eban a Gwilym Fachwen,
Hen dri garwn gofio cyn rhoi fy 'Amen'.

Yr un oedd y stori drwy'r chwarel i gyd,
O'r Lernion i'r Muria a'r Braich ar ei hyd.
Yng nghanol eu lludded 'roedd hiwmor a chân
Rhwng muriau'r cabannau wrth danllwyth o dân.

Adolygiad o 'Ffrwydriad y Powdwr Oil' gan T. Meirion Hughes (Arffwyr Caernarfon Cyf.)

Yn nyddiau fy mhentyndod i roedd hen drigolion y Waen Winau yn tueddu i amseru cyfnodau, yn hanesyddol, 'cyn enu ar ôl 'Y Powdwr Oil', fel pe bai'r digwyddiad hwnnw yn ganolbwynt oedran y byd.

Bu'r ddau air, o'u clywed yn cael eu crybwyll gan oedolion, yn ddirgelwch i mi am beth amser gan nad oedd plant i fod i ofyn cwestiynau. A hyd yn oed ar ôl cael y wybodaeth yn arwynebol yn ddiweddarach, doeddwn i ddim yn sicr pa un oedd yr ansoddair a pha un yr enw.

Rwy'n dweud 'arwynebol' gyda pheth cyfiawnder, a rhywfaint o syndod erbyn hyn, o feddwl bod cyfran o'r hen bobl hyn wedi bod o 'oedran sylwi a chlywed' yn 1869, degawd cyn geni fy rhieni innau. Lle da felly i rai canrif a mwy yn ddiweddarach ystumio peth ar yr hanes yn anfwriadol.

Roedd bras ffabrig yr hanes wrth gwrs yn gyson, ond ymysg y manylion, cefais yr argraff mai dim ond un drol a chwythwyd, a bod y certmon a'i was yn eistedd arni ar y pryd. Ond beth oedd byth yn amrywio oedd y pwyslais ar danbeidrwydd y pylor a oedd ynddi.

Clywais fwy nag un yn dweud: 'Y creigwyr yn gorfod tywallt y nitro glycerine yn ara' deg tros ymyl y twll tanio rhag iddo ffrwydro wyddost ti.' Ac o gael gwybod fod yr hylif yma wedi dod i Gaernarfon mewn llong, ni fedrwn ddirnad pam y caniatwyd i'r dref gyfan gael ei pheryglu gan y deunydd hwnnw.

Ond mae'r oll bellach yn glir a chredadwy, a hynny oherwydd diwydrwydd a manylder Mr T. Meirion Hughes yn ymchwilio ac adrodd yr hanes yn ei gyfrol ddogfennol werthfawr: *Ffrwydriad y Powdwr Oil*, sydd yn rhoi'r holl olygfa ger ein bron mewn dull clir a byw o'r frawddeg gyntaf.

Y mae'r bennod ar y cwest yn rhoi inni ddarlun o ddulliau'r oes

honno o drafod cyflafan fel hyn. Dywedir bod y rheithwyr wedi eu gwysio ar y noson drannoeth y ddamwain i ymgynull mewn capel heb fod nepell o'r fan, a chefais yr argraff fod pwyslais wedi ei roi ar dystiolaethau y gwerinwyr syml a ddaethant ymlaen mor barod. Dywedir bod William Thomas o Bontrhythallt, wedi cael ei alw i fynd i geisio adnabod un o'r lladdedigion, Robert Morris. Mae hynny yn awgrymu fod y gweithgareddau wedi bod yn rhai trylwyr.

Mae yn y gyfrol hefyd gerddi a marwnadau i'r ddamwain, wedi eu cyfansoddi gan rai fel y Bardd Crwst a Dora Eifion, yn ogystal â lluniau clir o leoliad a thirwedd y gyflafan, fel yr oedd yng nghyfnod y drychineb ac fel y mae heddiw. Ni ddylai'r darlennydd mwyaf estronol gael trafferth i leoli'r disgrifiadau perthnasol yn y testun.

Ceir hefyd sylwadau ymylol wrth fynd heibio ar rai fel Alfred Bernhard Nobel, y gwneuthurwr ffrwydron o Sweden, a'i amcanion a'i yrfa.

Nid fy amcan yw gwneud truth ar y cyfanwaith fel na fydd fawr yn weddill i'r darlennydd ei ganfod yn y llyfr. Gallaf ddweud, fodd bynnag, ei bod yn gyfrol ar gyfer astudiaeth a diddanwch, ac yn un a wnaiff ail ennyn diddordeb mewn traddodiad bro.

I mi, fel un a fu mor hir 'o dan y badell' ynglyn â manylion damwain y 'powdwr oil', mae'r gyfrol yn gymwynas ac yn agoriad llygad.

JOHN E. WILLIAMS
ALLT RIWTH, LLANRUG

COFIWCH!

MAE ANGEN DEUNYDD
RHIFYN MIS HYDREF
I'R GOLYGYDDION
ERBYN
MEDI 19

Diolch am bob cydweithrediad

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel


Ffôn: Llanberis 870253

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

I'r Orsedd: Llongyfarchiadau i Robert Elwyn Griffith, gynt o 5 Stryd Ceunant, am lwyddo yn arholiad yr Orsedd. Cafodd ei urddo yn Eisteddfod Nedd a'r Cyffiniau ym mis Awst. Ei enw barddol yw Elwyn Eilian. Mae'n byw yn Bod Eilian, Stryd Dinorwig, Caernarfon.

Ysgol Dolbadarn: Cynhaliwyd mabolgampau blynyddol yr Ysgol ar Orffennaf 13, a chafwyd tywydd ardderchog a phrynhawn llwyddianus iawn. Enillwyd tlysau'r Victor a Victrix Ludorum gan Gareth Jones ac Elsa Orlick. Llongyfarchiadau i'r ddau ac i'r holl blant am gymryd rhan.



Gareth ac Elsa.

Ar brynhawn olaf y tymor cafwyd cyngerdd arbennig yn neuadd yr Ysgol i nodi ymddeoliad Mrs Jane Roberts wedi 23 o flynyddoedd o wasanaeth yn athrawes yn yr Ysgol. Yr oedd plant pob dosbarth yn cyflwyno eitem a chafwyd cân hynod o swynol ac amserol gan rai o'r athrawon. Cyflwynwyd anrhegion i Mrs Roberts ar ran staff, disgyblion a chyfeillion yr Ysgol.

Bu Cyfeillion yr Ysgol yn brysur ar ddydd y Carnifal eleni eto, gan ddarparu lluniaeth yn y Ganolfan trwy'r dydd. Diolch yn fawr iawn i'r rhai fu'n paratoi'r bwyd a'r rhai a fu'n brysur wrth y byrddau ac yn y gegin.



Mrs Jane Roberts ar ddydd ei hymddeoliad.

Clwb yr Henoed: Aeth llond dau fws o aelodau Clwb yr Henoed ar eu trip blynyddol i Landudno a'r Rhyl yn gynharach yr haf yma. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

Capel Coch: Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau wedi gwyliau'r haf ddydd Sul, Medi 11. Edrychwn ymlaen at groesawu'r plant yn ôl ac at gael cychwyn y maes llafur newydd sbon 'Gyda'n Gilydd'. Croeso i blant newydd ymuno â ni yn festri Capel Coch am 2 o'r gloch.

Côr Meibion Dyffryn Peris: A'r misoedd yn prysur fynd heibio, bu'r Côr yntau yn brysur yn ystod yr haf. Dechreuwyd y gweithgareddau ar Fehefin 2 trwy ddiddori'r ymwelwyr yng Ngwesty'r Fictoria. Ar Fehefin 12, cymerwyd rhan mewn Cymanfa Ganu yn Lleuar Bach, Pontllyfni; yr oed y 'neuadd' bron yn llawn, ac fe gafwyd canu da dan arweiniad Arwel Jones a'r gyfeilyddes Mrs Ann Jones. Cymerwyd rhan hefyd gan Iola Gregory (Pobol y Cwm) a phlant ysgolion Brynaerau a'r Groeslon. Ar Fehefin 24, cafwyd noson o 'Godi'r To' yng Ngwesty Dolbadarn dan ofal Arwel Jones eto, i godi arian at Antur Waunfawr. Siomedig oedd y nifer a ddaeth ynghyd, ond er hynny cyflwynodd Mr Cyril Jones, Cadeirydd y Côr, sic o £556 i Mr Hywel Evans o'r Antur. Hoffai'r Côr ddiolch i'r canlynol: Gorsaf Betrol Beran; Mr Meirion Owen (Sarjant);

Mrs Nancy Jones, Maes Padarn; Mr Deryck Gomez; Tony ac Aloma, Blackpool; Raymond, Post; a Douglas Ellis. Trefnwyd y raffl gan Roy Griffith, a diolch i Eurwyn a Grace Roberts am fynd o amgylch i werthu'r tocynnau. Bydd y ddau yma wedi dychwelyd i Awstralia erbyn y daw y rhifyn hwn o'r 'Eco' o'r Wasg; dymuna'r Côr yn dda iddynt a diolch am eu cwmni a'u cyfeillgarwch tra buont yma. Dyma'r rhai a fu'n lwcus efo'r raffl: Eifion Becws, Keith Jones, mair Williams, Sylvia, Jean, Dafydd, Eifiona, Catherine, Mrs D. Ellis, Annwen, Idris, Olga Williams, a Menna. Ar nos Sul, Mehefin 26, cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen, dan nawdd y gangen leol o Gymdeithas y Beibl. Er ei bod yn noson o wynt a glaw daeth nifer dda ynghyd, a chafwyd hwyl ar y canu. Arweinwyd y noson gan Mr Gwyn Parri a chafwyd eitemau gan y Côr, Arwel Jones yn arwain y canu a Mr John Jones oedd yn cyfeilio. Traddodwyd y fendith gan y Parchg John Morris, Brynrefail. Y noson ganlynol yn yr ymarfer cyflwynodd Mr Cyril Jones ar ran y Côr lun o'r ardal i Eurwyn a Grace ar eu hymadawiad yn ôl i Awstralia. Gobeithio y byddant yn hapus wedi dychwelyd yno. Ceir rhagor o hanes yr haf yn y rhifyn nesaf gobeithio. Diolch yn fawr.

—GORONWY LEWIS

Llongyfarchiadau i Kate Pritchard, wyres Mrs Mary Pritchard, 15 Stryd Turner, ar ennill medal aur y Gymdeithas Farddoniaeth (The Poetry Society). Mae Kate, sy'n ferch i Rich a Jean Pritchard, yn byw yn Ninbych, ac enillodd ei medal aur yn yr Ysgol Llefarydd a Drama yn Llundain yn ddiweddar. Cyflwynodd raglen deuddeng munud o farddoniaeth yn y gystadleuaeth. Dyma'r tro cyntaf i'r Gymdeithas Farddoniaeth gyflwyno medalau aur, a dim ond wyth ohonynt a ddyfarnwyd. Yr oedd Kate eisoes wedi cael medal arian y llynedd.



Kate Pritchard.

Llongyfarchiadau i Nia Wyn, merch Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri, ar ennill gradd anrhydedd B.A.(Addysg) yng Ngholeg Cyncoed, Caerdydd.

Bydd Nia yn cychwyn ar ei gyrfa fel athrawes yn Ysgol Gymraeg Merthyr Tudful ym mis Medi a bydd yn byw yng Nghaerdydd.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i Mrs Elizabeth Roberts, prifathrawes Ysgol Dolbadarn, a'r athrawon, y plant a'u rhieni, y llywodraethwyr a staff y gegin, y teulu a'r ffrindiau, am yr anrhegion lu a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad. Diolch am flynyddoedd hapus yng nghwmni'r plant a'r athrawon. Atgofion melyn a ddaw i'r cof a bydd pyliau o hiraeth yn sic o ddod.

Dymuna Hugh Jones, 79 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau o bell ac agos, am yr holl gardiau, anrhegion a blodau hardd a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed. Diolch i bawb.

Dymuna Maria Pritchard, 4 Vaynol Cottages, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau i gyd am yr anrhegion, cardiau a'r blodau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd am bob caredigrwydd ar ôl dod adref. Hoffwn ddiolch i staff Wardiau Cybi a Dulas am eu gofal caredig. Diolch hefyd i Mrs Eirian Mali a staff Bron Eryri am eu caredigrwydd tuag ataf tra yn aros yno. Diolch o galon i bawb am bopeth.

Dymuna brenhines Carnifal Llanberis '94, Rebecca a'i morynion, Ffion a Manon a'r gwas, Wili, ddiolch o galon i bawb am y llu o anrhegion ac arian a dderbyniwyd.

Er Cof: Er cof am Hetty Hughes, mam, gwraig a nian hynod garedig ac annwyl, a fu farw Awst 30, 1984.

'Ymgeledd am ffawd ein teulu ni Oedd unig angerdd ysol ei byw a'i marw hi.'

Oddi wrth Bob, Elizabeth, Griff, Eluned a Carwyn, Dei, Elwyn a Lyn (Stryd Siarlot gynt).

Cefnogwch Fusnesau Lleol

**CEIR CYMRU
BETHEL (0248) 670451**

(Hefyd yng Ngherrig-y-drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

DRAENOG



Noson dywyll ganol haf, pob man yn dawel a Stryd Fawr Llanberis yn wag . . . ond am un dyn. Mae'n mynd at siop, yn ceisio agor y drws, ond mae'r drws wedi'i gloi. Mae'n gwtio'r drws, ond i ddim diben. Mae'n chwilio am ffenest agored, ond does yna'r un. Mae'n codi carreg, yn dychmygu swm y larwm, yn ofni llygaid craff y camera diogelwch. Un ergyd galed, y ffenest yn deilchion, ac i mewn a fo. Achos arall i Crimewatch UK? Dim cweit. Y 'lleidr' oedd perchennog y siop, ac roedd o wedi cloi ei allwedd i yn y siop yn gynharach y noson honno!

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT**

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440

Croeso: Mae perchennog newydd wedi dod i'r Ysgol yn y Nant. Mae David Kendall, sy'n wreiddiol o Northampton, yn tynnu lluniau o'r ardal i bapurau newydd ac i arddangosfeydd ledled y wlad. Mae o'n gobeithio datblygu a helaethu lluniau ac ati mewn gweithdy yno a hefyd cael un ystafell fawr i arddangos ei waith i'r cyhoedd a phlant ysgol y fro. Gobeithio y byddwn fel ardalwyr yn cefnogi y bachgen ifanc hwn yn ei fentr newydd.

Llongyfarchiadau i David John Pritchard, mab Prydwen a Melvyn Pritchard, Llys Awel, ar ennill cadair yn Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i Rhona Lampard, Tŷ Gwyn, am fod yn gyntaf drwy Gymru mewn cystadleuaeth i ddarganfod 'Merch y Nawdegau' ac fe enillodd wobwr o £500. Mae'r wobwr yn cael ei rhoi i ferched sy'n gwneud gwaith tŷ, cadw rheolaeth ariannol ac sydd gyda nod personol a phositif i'r nawdegau, a hynny yn ogystal â magu plant. Cafodd ei henwebu gan ei mham ac fe gyflwynodd draethawd ei hun i'r gystadleuaeth. Sonia'r traethawd am ei gwaith rhan-amser fel milfeddyg ym Mhorthmadog ac hefyd am y gwaith papur mae'n ei wneud i'w gŵr, Dai, yn ei fusnes mynydda rhesymegol mae o yn ei redeg o'u cartref yn ogystal â magu'r plant, sef Anna sy'n 4 oed, a Janie sy'n ddyflwydd oed. Mae'r plant yn dysgu rhywfaint o Gymraeg i'w rhieni a chyn iddynt gael eu geni roedd Rhona, sy'n wreiddiol o Ayrshire, Yr Alban, â diddordeb mawr mewn dringo mynyddoedd ac wedi bod yn dringo ledled y byd. Ddechrau mis Medi bydd Rhona yn mynd i Lundain pan fydd merched o'r Alban, Iwerddon a Lloegr yn cystadlu yn ei herbyn i ddarganfod enillydd Prydain. Dymunwn pob llwyddiant iddi.

Gwellhad: Gobeithio y bydd Mr Thompson, Tŷ 'Rysgol yn well ar ôl ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Hefyd gobeithiwn weld David George Welsby, 1 Glanrafod Terrace yn ôl ar ei feic unwaith eto wedi iddo gael damwain go hegar arno.

Diolch: Eleni yn y Nant fe gasglwyd £40 tuag at Ymchwil yr Arennau. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Carnifal Nant Peris: Wedi rhai

blynyddoedd o seibiant fe gynhaliwyd noson garnifal y Nant ar nos Wener, Gorffennaf 22ain; ac fe fu'n eithriadol o boblogaidd a llwyddiannus. Dymuna aelodau'r pwyllgor ddiolch i bawb a'u cefnogodd ac yn arbennig felly i lywydd y noson, Dei Tomos (BBC); y beirniaid Mr a Mrs J. H. Hughes, Llanberis; Parchg a Mrs J. Pritchard; a brenhines Rebecca o Lanberis. Diolch hefyd i'r canlynol: Seindorf Deiniolen; Mis Rosebud, Nant Peris, Manon Lyn; Parc Cenedlaethol Eryri; Ty'n Llan; Siop Ffrwythau Valerie, Llanberis; W. Roberts, Cigydd, Llanrug; H. Hughes a'i Feibion, glo; Mr a Mrs M. Pritchard, Tŷ Isa am eu cymorth a'u haelioni. Dyma'r canlyniadau — **Gwisg Ffansi:** dan 4 oed: 1, Sophie Jarvis a Rhian Wyn Morris; 2, Amy Williams a Ceri Hughes; 3, Ian Williams ac Elin Ann Morris. 5-8 oed: 1, Tomos Bleddyn Jones; 2, Amy Louise Jones; 3, Ceri Bryn Morris a Nia Wyn Morris. 9-16 oed: 1, Reene Mullane; 2, Branwen Roberts, Collette Fleming a Leona Lloyd; 3, David Welsby. Dros 20 oed: 1, Helen Mai Pritchard; 2, Amanda Welsby, Sian Ellen Sibley, Heddwen Pritchard; 3, Kevin Guy Kerry, Sara Davies, Ann Jones, Glenys Wyn Bingham. Babi Bochgoch: Mared Meleri Morris (3 wythnos oed). Gliniau Gwlanog: 1, Alun Roberts a John Utting. Coets wedi ei haddurno: 1, Mathew Jones; 2, Rachel Kerry; 3, Mirian Ella Pritchard. Beic wedi ei addurno: 1, Tomos Bleddyn Jones; 2, Nicholas Welsby. Het wedi ei haddurno: 1, Rhian Pritchard; 2, Carys Williams; 3, Helen Mai Pritchard. Trol wedi'i haddurno: Dôl Elidir, Llanberis. Dyfalu pwysau'r oen (59 pwys): Nain Jennie. Dyfalu enw'r ddol (Irene): Jason Roberts.

Enillwyr y raffl oedd: 1, Glenys Wyn Bingham; 2, Mrs R. Lloyd Jones; 3, Madeline Rodgers; 4, Ian Williams; 5, J. H. Hughes; 6, Kevin Guy Kerry; 7, Sharon Gruffydd; 8, John Noel Pritchard.

Enillwyr y mabolgampau: dan 4: 1, Alex Roberts; 2, Byron Lloyd a Rhian Wyn Morris; 3, Kelly Jones. 5-8 oed: 1, Iwan Jones; 2, Mathew Lloyd; 3, Dylan Evans. 9-11 oed: 1, Claudette Fleming; 2, Evan Williams; 3, Mark Evans. Oedolion: 1, John Pritchard; 2, Gareth Jones; 3, Gwilym Evans. Ras deircoes: 5-8 oed: 1, Gethin ac

Iwan; 2, Dafydd a Mathew; 3, Bleddyn a Ben. 9-16 oed: 1, Claudette a Sara; 2, Efan a Mark; 3, Aaron a Dafydd. Oedolion: 1, Maxine a Helen; 2, Llyr ac Aled; 3, Sian a Heddwen.

Cwblhawyd y gweithgareddau drwy gynnal cystadleuaeth tynnu rhaff ac ategwyd y farn fod y noson yn adlewyrchu'r croeso cefn gwlad unigryw a gysylltir â'r Nant a bod yna werth cymdeithasol gwirioneddol yn deillio ohoni. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Diolch: Dymuna Manon Lyn Pritchard

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

'Twill Mewn Un': Llongyfarchiadau i Roy Roberts, Seaview, am gyrraedd twll maes golff mewn un ergyd — 'twill mewn un' gyda ergyd o 170 llath! Mae o hefyd wedi ennill cystadleuaeth y mis mewn cylch-grawn golff.

Llwyddiant Mewn Addysg: Llongyfarchiadau i Côt Edwards, Maes y Coed, ar ennill gradd anrhydedd B. Addysg yn y Coleg Normal, Bangor. Bydd yn dechrau ar ei gyrfa dysgu yn Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion ym mis Medi.

Y Dynfa Fisol: Enillwyr mis Awst oedd — £40: Dafydd a Bethan Iwan, Carrog (1); £25: Elwyn Griffiths, 14 Erw Wen (69); £15: Eirian Roberts, Seaview (87).

Gwerthiant Eco'r Wyddfa: Dim ond 25 copi o'r Eco sy'n cael eu gwerthu yng Nghaeathro! Ydy eich cymdogion chi yn prynu copi? Os ydych chi'n gwybod am rywun arall sy'n fodlon prynu ac felly gefnogi'r achos, cysylltwch â Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, neu Clive James, Hafan, Rhesdai Bryngwna.

Sioe'r Pentref: Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Sioe Cynnyrch Gardd a Thŷ yn y Ffestri am 7 o'r gloch, nos Fercher, 14 Medi. Croeso i bawb ac yn enwedig i wynebaw newydd.

Cafwyd sioe pentref gweddol lwyddiannus ar bnawn Sadwrn, 20 Awst yn y Ffestri. Yn nosbarth 1, blodau, enillwyd gwobrau am yr eitemau unigol gorau gan Deiniol Huws, Ifan Hughes, Eurwen Hughes ac Ifor Hughes a Chwpan Plas Treflan am y nifer mwyaf o bwyntiau gan Deiniol Huws. Cipiwyd pedwar grŵp yn nosbarth 2, llybiau, gan Ifor Hughes a'r llall gan Albert Jones; hefyd enillwyd Cwpan Cefn Gof gan Ifor Hughes. Un dyn, Clive James, a

ddiolch i'w llu ffrindiau a'i pherthnasau am yr anrhegion a dderbyniodd ar achlysur o fod yn Miss Rosebud Nant Peris.

Yn Nhir Prins: Ar nos Fawrth, 16 Awst, ymwelodd nifer o drigolion y Nant ar cyffiniau a'r Rasus Trotian yn Nhir Prins, Prestatyn, a phrofodd yn noson ddifyr iawn. Er i ambell un ddychwel adref yn gyfoethocach nag eraill mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr a gobeithir ymweld a'r lle eto yn y dyfodol. Diolch i John Owen, 8 Nant Ffynnon am drefnu'r cwbl.

enillodd grŵp yn nosbarth 3, coginio, gyda Vera Roberts, Heather Jones, Mannon Hughes, Iona Wyn Thomas hefyd yn ennill; Vera Roberts yn ennill hefyd Cwpan Clwb y Merched. Roedd cynnydd yn y diddordeb yn nosbarth 4, crefftiau llaw, gyda dresel fach Heinz Muhdenfel yn eitem orau. Roedd adran y plant, dosbarth 5, o safon uchel iawn, yn arbennig lluniau o Garej y Pentref. Enillydd Cwpan y Clwb Garddio am yr eitem orau yn y dosbarthiadau blodau a llybiau oedd Deiniol Huws am drefniant o flodau.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar am y gefnogaeth. Fodd bynnag, petae POB darlennydd Eco'r Wyddfa o ddalgyllch y sio yn cynnig dim ond UN eitem byddai'n sioe llawer mwy llwyddiannus.

Priodas: Llongyfarchiadau i Richard a Carey Jones, Tryfan, ar eu priodas ar 24 Awst. Croeso, yn swyddogol, i gymdeithas a chymuned Caeathro a diolch i chi am gyfrannu'n barod. **Gwasnaethau'r Capel:** Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr wythnosau nesaf:

MEDI

11. Parchg Gareth Maelor (2)
18. Parchg W. R. Williams (2)
25. Parchg Iorwerth Jones Owen (2)

HYDREF

2. Diolchgarwch
Parchg W. R. Williams (2)
9. Parchg Gwynfor Williams (2)
16. Parchg Trefor Jones (5.30)
23. Parchg W. R. Williams (2)
30. Parchg Ronald Williams (2)

Miri Haf: Cynhaliwyd pnawn o chwarae criced, rownderi, rasus ac ar y castell gwynt yn y Cae Chwarae ar Wyl y Banc ym mis Awst. Diolch i bwylltor a Chymdeithas y Cae Chwarae am drefnu prynhawn o hwyl.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

MODURDY PLAS BACH

CAEATHRO
Ffôn: C'fon 672072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

NOS A BORE

Y Gwalch

Roeddwn i unwaith yn gweithio mewn swyddfa arwerthwr yn y dre, am bum swllt ar hugain yn yr wythnos. Mae'n rhaid nad oedd telerau felly yn pigo llawar ar gydwybod cyflogwr nac undebwr gan fod yr wythnos rheiny yn amal yn rhai chwe niwrnod, a'r dyddia yn ymestyn ar adeg a ddeuddang awr a throsodd. Roeddwn ni yn gyfrifol am gludo miloedd o bunna ar draws gwlad, o bendraw Llŷn a pherfeddion Sir Fôn, a disgwyliad i bob cyfri gyrraedd yn llawn a digam-gymeriad. Mewn cyfyngdera, roeddwn ni'n gwasanaethu fel gyrrwyr gwarthag a chludwyr dodran. Serch hynny, roedd o'n gyfnod addysgiadol, yn rhoi ffenest i ni ar y byd a natur ei drigolion.

Un pnawn Sadwrn llethol ganol haf, roeddwn i wedi cael shanghai i ocsiwn ddodran mewn tŷ teras ym Mhenygroes, ac rwy'n cofio dau beth ynglyn â'r achlysur: llewygodd gwraig yno mewn llofft o dan draed, a daeth rhyw hen ffarmwr ataf i dalu hefo siec beth a oedd yn ddyledus arno ers rhyw sêl arall, ac yr oedd gorfod rhoi sylw i un felly ar draws busnas y funud yn beth oeddwn i yn ei gasáu yn fwy na dim, gan fod yn rhaid cofnodi'r manylion a chadw'r arian ar wahân i elw'r dydd. Deg punt ar hugain oedd y siec, a rhoddais hi yn fy waled. Roedd o'n swm sylweddol yr adag honno o gofio y basa yn rhaid i mi weithio am gryn hanner blwyddyn i'w ennill.

Roedd hi'n amsar te arna i yn cyrraedd yn ôl i'r offis, a phwy oedd yno hefo'i mop a'i bwcad ond Miss Williams llau, hefo'r sgythrant mawr hwnnw yng nghil ei cheg. Roedd hi'n trigo yn y tai cefn rheiny a ddymchwelwyd i wneud maes parcio, mewn cyfnod pan oedd pobol yn bwysicach na cheir.

'Gwatchia lle rhwt ti'n rhoi dy draed uffar,' medda hi cyntaf ag y rhoi i fy mhen drwy'r drws. 'Mi rydw i newydd neud fan'na. O'r lle doist ti rŵan?'

Ar ôl cael y wybodaeth honno, dechreuodd fy stilio am fy mywyd personol. Roedd Miss Williams yn licio cael ffeil pawb.

'Wyt ti'n mynd i pitiwrs?' gofynnodd wedyn. 'Mae Wallace Beery yn Guild Hall. Mi rydw i wedi ei weld o.'

'Ella yr a' i.'

'Sgin ti bisin i fynd hef chdi?'

'Nagoes. Gymaint a fedra i spario ydy panad i mi fy hun.'

Rhoddais y bag pres yn ysêff a'i goleuo hi.

Yn y 'Cubby Hall', tros y ffordd i siop gabais Williams Ara Deg y byddai ni yn cael ein pryda pan fyddai ni 'adra' yn yr offis. Y ddwy chwaer Misses Williams oedd yn ei redeg o, o'r gegin i fyny'r grisia, ac yn y fan honno y byddai ni'n byta wrth y bwrdd bach. Chwe cheiniog fyddai ni'n dalu am sglasio sparion a chrafu dysgla, a difa teisis fyddai yn dŵad yn eu hola o'r gwaelod. Fel cydnabyddiaeth, mi fyddai ni'n golchi llestri a berwi amball i ŵy, rhedag i'r siopa i negas i'r genod, a chario bwyd i lawr grisia. Weithia mi fyddai ni'n gallu rhoi bargan bach o'r stafall ddodran yn eu ffordd nhw.

Y noson honno roedd y stafell fyta yn llawn o gymysgfa: pobol yn cael panad cyn mynd adra, a chriw fengach yn cael te fel matar o ffurf, cyn dechra ar ddiddanwch yr hwyr. Wrth y bwrdd bach yng ngwaelod y grisia roedd yna hogan bryd tywyll yn eistedd ar ei phen ei hun.

Dim ond Miss Williams fenga' oedd yn y gegein, ac yr oedd hi o dan bwysa. Roedd hi'n torri bara hefo twca.

'Fasat ti ddim yn picio â'r tre 'ma i rheina wrth y bwrdd o dan ffenest?' medda hi peth cynta'.

Ar fy ffordd yn fy ôl gofynnodd yr hogan wrth y bwrdd bach, yn Saesneg, faint o amsar chwanag fasa rhaid iddi ddisgwyl am fwyd.

'Mewn munud,' medda fi, ac ar hynny clywais waedd o ben y grisia, ac erbyn i mi fynd i'r gegin dyna lle roedd Miss Williams wedi agor ei bawd fel grawn pennog hefo'r twca fara, ac yn gwaedu fel mochyn. Dalais ei llaw o dan y dŵr oer a chwipio clwt amdani ora y gallwn i, ond yr oedd hi'n poeni mwy o lawar am y bobol oedd yn disgwyl eu dogn i lawr grisia. Ac ar hynny pwy ymddangosodd ond yr hogan gwallt du.

'Roeddwn i'n meddwl fod yna rhywbath o'i le,' meddai hi mwya hunanfeddiannol, a gafaelodd yn llaw Miss Williams cyn i honno gael cyfla i wrthynebu.

'Dydy hwnna yn da i ddim,' medda hi am y clwt, ac yr oedd hi wedi gwaredu nad oedd yna adnoda eraill ar gael. Yna, wedi trin y fawd, cipiodd frat oddi ar gefn y

drws a'i daro o'i blaen, a chymryd meddiant o'r gegin, ar ôl rhoi ordors bendant i Miss Williams eistedd yn dawl hefo panad wrth y bwrdd, ac erbyn hynny roeddwn i'n cyrraedd ac estyn iddi a chario bwyd fel Iddew yn yr Aipht, ac yr oedd Miss Williams yn edrach arnan ni bob yn ail fel tasa hi wedi gweld pedair enfys.

Y diwadd oedd i ni gael gwarad â phawb o'r gwaelod a chael cyfla i gael tamad ein hunan wrth y bwrdd bach, ac wrth ben hwnnw y cawson ni hanes yr hogan: Cecily oedd ei henw hi ac yr oedd hi'n nys yn Heswall, ac ar y pryd ar ei gwylia yn Rhostryfan. Roedd y gwybad gwres yn dechra dŵad yr adag honno.

Roedd Miss Williams erbyn hyn wedi fflonsio digon i gloi a mynd am y bws gan adael yr hogan hefo fi ar gongl stryd fel cath ar goll.

'Rydw i'n mynd i weld Betty Grable yn Majestic,' meddai hi. 'Wyt ti isio dŵad?'

'Mi rydw i'n mynd i weld Wallace Beery yn Guild Hall,' medda finna.

Doeddwn i ddim mor barod yr adag honno i gydfynd hefo chwiwia merchad. A phwy ddigwyddodd basio ar yr union funud on Miss Williams llau. 'Wela i,' medda hi. 'Uffar c'lywyddog.'

Y diwadd fu i Cecily ddŵad hefo fi yn hanner anfoddog i'r Guild Hall: gweld goliad i gael mynediad am ddim.

Mrs Davies oedd yn cadw'r Guild Hall yr adag honno, ac mae'n siŵr fod ganddi hi lond llaw, ac yr oeddwn ni wedi arfar hefo strancs y lle; gola ddim yn gweithio neu'r ffilm yn torri ond yr oedd petha yn dal yn dda y noson honno, ac yr oedd yr hen hogan yn ymddangos yn eitha hapus, hynny ydy, nes yr ymddangosodd rhyw spotiau mawr aflonydd ar y sgrin, fel tasa rhywun yn edrach arni hi drwy goedan ddeiliog, ac erbyn gweld, beth oedd yr achos ond haid o bryfaid cannwyll yn hedag o gwmpas y lantarn, a bu rhaid rhoi gora i'r ffilm a goleuo'r neuadd, ond erbyn hynny roedd y gwyfannod wedi diflannu i gorneli, a phan ail ddechreuwyd y perfformiad roeddwn nhw yn eu hola wedyn yn fflabian yn y pelydryn yn waeth fyth, a chan nad oedd yna dnodda i chwistrellu pryfaid ar gael yn yr oes honno bu'n rhaid rhoi terfyn ar y gweithgaredd, a dydw i ddim yn siŵr a gafodd y bobl eu pres yn ôl ai peidio. Beth bynnag y gred oedd fod yna rhyw gythral drwg wedi dŵad â'r gwyfynnod yno a'u gollwng nhw yn y tywyllwch.

Allan wedyn yng ngola' dydd, roedd yr hogan yn tantro y dyla ni fod wedi mynd i'r Majestic, ond gan ei bod hi'n rhy hwyr i fynd i weld Betty Grable yn dangos ei choesa, roedd yn rhaid meddwl am rhywbath amgenach i'w wneud, ond cymaint

oedd ei siomiant hi, fel y penderfynodd yr hogan fynd yn ei hól i Rostyfan, ac erbyn hyn roeddwn i'n dymuno gwynt teg ar ei hól hi, ac yn diolch i'r nefoedd nad oeddwn i wedi addo ei phriodi hi, a doedd yna fawr arall i minna ond mynd adra rhag ofn i rhyw anffawd arall fy ngoddiweddyd.

Pan gyrhaeddais i'r Waen Winau fodd bynnag a hwyllo am fy ngwely, canfyddais nad oedd fy waled i ddim gen i. A pheth oedd yn waeth oedd yr ansicrwydd nad oeddwn wedi rhoi siec yr hen ffarmwr yn y sêff hefo'r arian arall.

Wrth gwrs roedd hi'n rhy hwyr i neud dim yr adag honno o'r nos, ond roddodd hynny ddim pall ar y dyfalu. Roedd yn rhaid ei bod hi yn y caff i neu'r Guild Hall. Ond doeddwn i ddim yn pryderu gymaint am y tebygrwydd y basa rhywun yn gallu ei newid hi; beth oedd yn fy mhoeni i fwy oedd y stŵr fasa yn codi wrth hysbysu'r band ei bod hi yn y dwylo anghywir. Ac yna daeth posibilrwydd arall i'r meddwl. Tybad fod yr hogan Cecily honno wedi cael cyfla i'w chipio hi oddi arna' i yn nhywyllwch y Guild Hall? Roedd hi'n ymddangos yn hynod o awyddus i gael gwarad ohona i cyntad ag y daethon ni allan oddi yno.

Bora dydd Sul peth cynta mi es i lawr ar fy meic, ond doeddwn i ddim yn siŵr lle i fynd i chwilio am Miss Williams, a dyma fi yn mynd i edrach oedd yna rhywun o gwmpas y Guild Hall. Ac mae'n rhaid fod fy lwc i wedi troi. Roedd yna blisman yn sefyll o dan y Porth Mawr, a dyma fi'n egluro fy nhrafferth wrtho fo.

Roedd yr hogia rheiny yr adeg honno yn frodorion ac yn adnabod y rhan fwy o'r trigolion yn bersonol, ac mi roddodd gyfarwyddiad i mi fynd i weld gofalwraig y Guild Hall, oedd yn trigo yng ngwaelod steps o dan y Cloc Mawr, ac yn y fan honno y cefais i hyd iddi, ac i fy mawr lawenydd roedd hitha wedi cael hyd i'r waled a'i chynnwys o dan seti'r Guild Hall. Roeddwn i mor falch ar y funud nes rhoi dwy bunt o wobri iddi — tua cyflog wythnos a hanner, ac mi cymodd nhw yn eitha parod. Mae'n siŵr tasa hi ddim eu hangan nhw fasa hi ddim yn llau'r Guild Hall.

Fora Llun, y peth cynta wnes i yn y swyddfa oedd rhoi'r siec i'r pen clarc, heb sôn dim am y trafferthion. A hynny fu — wel, hyd tua diwedd yr wythnos, pan oeddwn i ar gychwyn i sêl arall a'r bag yn fy llaw, a'r llall ar ddwrn y drws.

'Cyn i chi fynd,' medda'r pen clarc, 'Tta byddai i'n cofio. Wyddoch chi'r siec honno roisoch chi i mi ddydd Llun?'

'Gwn.'

'Mae hi wedi bownsio!'

Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch
870605
am fanylion

ERIC JONES

PENISARWAUN

Ffôn: 872421

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

- ★ Prisiau rhesymol
- ★ Spreio tu mewn a thu allan
- ★ Estimates am ddim

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Dymuniadau Da i bobl ifainc y pentref sydd naill ai yn symud i ysgol newydd; i goleg; neu dechrau gweithio am y tro cyntaf. Ym mis Hydref bydd Sara Wood, Fron Heulog, yn dechrau ar ei chwrs gradd yn y Brifysgol ym Mangor a llongyfarchiadau mawr iddi hi ar ei llwyddiant. Fel cyn-fyfyrwr gallaf dystio mai Coleg ar y Bryn yw y Coleg gorau!

Marwolaeth: Sioc fawr oedd clywed am farwolaeth sydyn Mr Rennell Williams yn ei gartref yn Tan y Fron ar y 3ydd o Awst. Roedd yn berson amlwg iawn ei gyfraniad ym mhob agwedd ar fywyd y pentref. Yn ddi-os un o'i gariad pennaf oedd y Clwb Snwcer yn y Ganolfan. Ei ymdrechion ef oedd yn gyfrifol am lewyrch y Clwb dros y blynyddoedd diwethaf. Mawr obeithir y bydd y gwaith a ddechreuwyd ganddo yn parhau i'r dyfodol. Roedd yn barod iawn ei gwywynas a'i gefnogaeth bob amser ac nid oedd unrhyw dasg yn ormod ganddo. Roedd yn hoff iawn o gerdded ac yn fynych fe wna'i hynny gyda Meg y ci yn gwmni iddo. Fel y dywed Katie Ll. Hughes yn ei theyrnged mae ei farwolaeth yn erbyd fawr i ni fel pentref ac yn arbennig ar adeg pan mai rhai mor weithgar yn prinhaus. Yn naturiol fe welir ei golli fwyaf yn ei gartref gan ei wraig, ei blant a'r teulu oll. Cydymdeimlwn yn fawr â why yn eu profedigaeth. Bu'r angladd yn Amisogfa Bangor ar yr 8fed o Awst. **Cydymdeimlir** â Mrs E. Lynes, Snowdon View, a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl, Mrs Olive Muriel Cheeseman ar yr 2il o Awst. Roedd Mrs Cheeseman yn enedigol o'r pentref ac fe dreuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn gweithio yn Llundain ond fe ddychwelodd i'r Fachwen i fyw yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fe fu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar y 5ed o Awst.

Diolchiadau:

Dymuna Dilys Williams, 2 Bro Elidir, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth ddiweddar. Llauer o ddiolch am y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a'r rhoddion tuag at Ward Twrog, Ysbyty Eryri; a Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Ronald, Elizabeth a theulu

y ddiweddar Doris Fleming, 12 Maes Gwylfa, Deiniolen, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Llauer o ddiolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau, blodau, a rhoddion tuag Ward Twrog, Ysbyty Eryri, a Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r holl feddygon a'r staff ar Wardiau Twrog a Hebog am eu gofal; i'r Parchg Tegid Roberts am ei wasanaeth; Bryn Griffiths, Organydd; Mrs M. Davies a Mrs A. Hughes am ddarparu'r lluniaeth. Diolch yn arbennig i Glenys, Nellie a Jackie, cymdogion a merchod Cymorth Cartref. Diolchir hefyd i Mr E. W. Pritchard a Gwynfor am eu trefniadau trylwyr.

Dymuna Laura, Nancy, Rita a theulu Tan y Fron ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt drwy ymweliadau personol, galwadau ffôn, a'r cardiau a dderbyniwyd, yn eu profedigaeth sydyn o golli Ren. Diolch hefyd am y rhoddion tuag Gronfa Ymchwil y Galon.

Addysg y Gweithwyr (W.E.A.): Eleni eto mae trefniadau wedi eu gwneud i gynnal cyfarfodydd dosbarth nos yn y Ganolfan yn ystod mis Medi a dechrau mis Hydref. Fel arfer mae croeso i unrhyw un, o ba bentref bynnag, ymuno yn y dosbarthiadau hyn. Eleni Ms Cathrin Ll. Williams fydd yn gyfrifol am arwain y dosbarthiadau a'r pwnc fydd 'Y Wladfa Ddoe a Heddiw'. Bwriedir trafod agweddau hanesyddol, cymdeithasol a chrefyddol, a cheir golwg hefyd ar beth o lenyddiaeth Y Wladfa. Felly dylent fod yn nosweithiau difyr dros ben. Cynhelir y noson gyntaf ar nos Lun, Medi 5; yna ar nosweithiau Mawrth, Medi 13 a 20; nos Lun, Medi 26; nos Fawrth, Hydref 4. Pum noson i gyd a'r cyfan yn dechrau am 7 o'r gloch. Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn cefnogi'r nosweithiau hyn.

Eglwys St. Mair: Mewn cyfarfod o aelodau'r eglwys, a gynhaliwyd ar yr 20fed o Orffennaf o dan lywyddiaeth Archddiacon Bangor, Yr Hybarch Elwyn Roberts, gyda'r Parchg Idris Thomas, Deon Gwlad, a'r Parchg Tegid Roberts, Clerig mewn Gofal, yn bresennol penderfynwyd bod yr achos Eglwysig yn ei ffurf bresennol

yn Ninorwig yn dod i ben yn ystod misoedd nesaf. Fe wnaed y penderfyniad yn sgîl y gostyngiad sylweddol yn nifer y rhai sy'n addoli o Sul i Sul, a'r costau aruthrol sydd mewn cynnal yr adeilad. Felly, wedi cyfnod o dros gan mlynedd o addoli yn Eglwys y Santes Fair ni ellir cynnal yr Achos ymhellach. Er i un bennod ddirwyn i ben gobaith yr aelodau yw gweld pennod newydd yn agor gan mai y bwriad yw addasu ystafell fel Capel yn Eglwys y Plwyf, Llandinorwig. Bwriedir enwi'r Capel yn Capel Mair ac yno y bydd rhai o'r dodrefn ac eitemau cysegredig Eglwys St. Mair yn cael eu trosglwyddo. Fell bydd yr Achos mewn un adeilad yn dod i ben tra y parheir Achos o'r newydd o fewn Eglwys y Plwyf. Disgwylir i'r cynllun newydd yma yn ogystal a threfniadau cau yr Achos yn Ninorwig gael eu cadarnhau mewn cyfarfod o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig ar y 1af o Fedi.

Teyrnged i Mr Rennell Williams gan Mrs Katie Ll. Hughes

Brawychwyd cymdogaeth gyfan o glywed am farwolaeth sydyn Rennell. Ychydig mewn nifer yw Cymry'r ardal erbyn hyn ac mae hon yn golled enfawr i ni fel ardalwyr.

Dywedir yn aml mai pobol y 'Chwarel Lechi' yw trigolion Dinorwig, a gwir hyn, ond yng nghanol y llechi gleision gellir darganfod ambell i 'berl', ac yn sicr roedd Rennell yn un o'r rheiny. Dyn o natur foneddigaidd a gwên barod ar ei enau bob amser. Rhinwedd arbennig yn ei gymeriad oedd ei allu i weld daioni ym mhob person. Gallai ddweud ei farn heb flewyn ar dafod, ond er gwaethaf ambell i ddadl ddigon poeth ni welid unrhyw arwydd o ddrwg-deimlad na dial o gyfeiriad Ren.

Gellid ei ddisgrifio fel cymeriad 'crwn' gan mor eang oedd cylch ei wasanaeth, nid yn unig yn Ninorwig ond hefyd yn yr ardaloedd cyfagos. Roedd ar amryw o bwyllgorau ac un o'r rhaid oedd y Cyngor Plwyf lle'r oedd yn barod iawn i frwydro dros gael gwelliannau i'w ardal. Cawsom brawf o'i deyrngarwch mawr yn ei ymwneud â 'Menter Fachwen' a'i ddymuniad pennaf oedd i'r fenter lwyddo. Roedd yn gymeradwy iawn yng ngolwg ei gydweithwyr ac amlygwyd hynny ar ddiwrnod ei angladd. Cymerai ran amlwg yng nghyfarfodydd diwylliannol yr ardal, ac roedd ganddo farn ddoeth a phendant ar wahanol bynciau. Bydd yn gadael bwlch mawr ar ei ôl.

Ar ei aelwyd roedd yn briod gofalus ac yn dad cariadus ac ni ellir mesur maint eu colled hwy. Nid oedd hafal iddo fel cymwynaswr.

Treuliodd lawer o'i amser fel 'Capten' y Clwb Snwcer yn y Ganolfan. O glywed y newydd am ei farwolaeth roedd yr hogia' yn drist hyd at ddagrau. Lle gwell gaech chi i dreulio rhyw awr neu ddwy o chwerthin iach gyda Ren yn cadw contrôl ar y criw o Gymry a Saeson.

Do, mae hon wedi bod yn ergyd drom i'r ardal.

Cydymdeimlwn yn fawr a'r teulu yn eu colled; a'r gymdogaeth hefyd yn eu colled hwythau.

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Cymdeithas y Chwioriyyd: Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri, nos lau, Gorffennaf 7fed, o dan lywyddiaeth Mrs Jennie A. Roberts. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Verna Jones ar y thema 'Neges Paul at y Corinthiaid'. Gŵr gwadd y noson oedd Mr Selwyn Griffith, Penisarwaun, a rhoddodd sgwrs ddiddorol am ei yrfa farddol. Diolchwyd iddo gan Mrs Ifanwy Jones. Anfonwyd cofion y Gymdeithas at Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, a gipiwyd i Ysbyty Gwynedd eilwaith, ond sydd erbyn hyn yn gwella'n foddhaol. Rhoddwyd y te gan Mrs Dilys Jones a Miss Lowri P. Roberts a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Maxwell.

Marwolaeth: Ar Orffennaf 18fed bu farw Mr William Evans, Cae Gwyddel, yn 88 mlwydd oed, yn Ysbyty Bryn Seiont. Bu'r gwasanaeth angladdol yn breifat yn ei gartref ac yn dilyn yn gyhoeddus ym mynwent Llanrug ar Orffennaf yr 21ain. Gwasanaethwyd gan y Parchg Eifion W. Williams a'r Parchg John Morris. Y cludwyr oedd y Mri Bobbie Evans, Keith Roberts a Kenneth Jones. Cynrychiolwyd Capel M.C. Brynrefail gan Mrs Jennie A. Roberts, Miss L. P. Roberts a Mr R. W. Evans.

Mae'n cydymdeimlad yn ddwys â'i briod, Mrs Blodwen Evans, ac â'i ferch Miss Muriel Evans, ynghyd â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Dymuna Mrs Evans a Muriel ddiolch yn gynnes am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn ystod y brofedigaeth.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr diweddar y Clwb 300: mis Mehefin — £40: Alun Williams, 13 Bro Waun; £25: Mrs M. B. Davies, Bryn Eithin; £10: T. C. Williams, 17 Tref Eilian. **Mis Gorffennaf** — £40: Fiona Johnstone, Tŷ Gwyn; £25: W. M. Catt, Awel y Môr; £10: Edgar Owen, Glyn Awel. **Mis Awst** — £40: Mrs G. Keeler, 3 Croes-y-waun; £20: Dr H. Roberts, Hafoty, Rhosbodrual; £10: P. N. Greasley, 7 Pant-y-waen.

Newyddion o'r Ysgol:

Gwobr Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig 1994. Mewn seremoni wobrwyo a gynhaliwyd yn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, ddydd Gwener, Gorffennaf 8, derbyniodd yr Ysgol Gynradd wobwr McDonalds. Cyflwynwyd sic o £500 a Thystrysgrif i Rhys Huws a Lowri Glyn gan Mr Frank Stanton o gwmni McDonald's Restaurants. Enillodd yr Ysgol y wobwr am eu prosiect yn ymwneud â'r Normaniaid yng Nghymru. Roedd y disgyblion wedi cynhyrchu drama a thâp clywedig wedi ei selio ar y 'Bayeux Tapestry' a chestyll, yn enwedig cestyll Cymru.

Derbyn Tariannau: Anthony Harrison, Gwyndy, a enillodd darian cerdd yr Ysgol eleni. Cyflwynwyd y darian iddo gan Mr Nick Cox, prif glarinetydd Cerddorfa Philharmonic Lerpwl. Noddwr y wobwr flynyddol hon i'r ysgol yw Mrs Ann Marson.

Nathan Phillips a Fiona Davies a dderbyniodd dariannau Mabolgampau am 1994.

Laura Parker dderbyniodd y Gwpan Ymdrech; a Dewi Wyn Owen a dderbyniodd y Darian Cywaith.



Laura Parker efo'r Gwpan Ymdrech a Dewi Wyn Owen efo'r Darian Cywaith.

Llongyfarchiadau:

Llwyddiannau Cerddorol. Llongyfarchiadau i Eleri Williams Llwyn Onn, Rhyd-ddu ac Aled Rhys, Pen-y-graig, ar eu llwyddiant gyda theilyngdod yn yr arholiad canu'r piano, gradd 2. Bu Aled yn llwyddianus hefyd gydag anrhydedd yn arholiad y Basŵn, gradd 3.

Bu Iona Williams, Garreg Fawr, yn llwyddianus yn arholiad piano, gradd 5; a derbyniodd Llio Mair, Llwyn Onn, anrhydedd yng ngradd 5 arholiad canu'r piano. Bu Hefina Jones, Bron Eifion, yn llwyddianus yn arholiad theori cerdd, gradd 5.



Lowri Glyn a Rhys Huws yn derbyn sic am £500 a thystysgrif gan Mr Frank Stanton o gwmni McDonalds.

Llwyddo yn yr arholiadau. Llongyfarchiadau i holl bobl ifainc y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau gradd yn y colegau, ac i'r rhai fu'n llwyddianus yn yr arholiadau TGAU a Lefel Uwch. Dymunwn y gorau i bob un sydd wedi, ac a fydd, yn cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg a swydd.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Mrs L. Evans, Tegfan, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 92 mlwydd oed. Gobeithiwn ei bod yn gwella ar ôl syrthio a thorri ei chlun.

Dathlodd Andrew Beech, Rose Mount, a Gwyndaf Williams, Tros-y-gors, eu pen-blwydd yn 21 mlwydd oed a bu Rachel Davies, Nant y Mynydd, a Meilir Gwynedd, Nant, yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed. Dymuniadau gorau i'r dyfodol i bob un ohonoch.

Diolch: Dymuna Meilir Gwynedd, Nant, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

Priodasau: Llongyfarchiadau i Clive Beech, Bronallt, ar ei briodas â Nerys

o Ynys Môn. Ymgartrefodd y ddau yng Nghaernarfon.

Llongyfarchiadau i Sharon Jones, 7 Ael-y-Bryn, ar ei phriodas â Meirion o Fynydd Llandegai. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn y Fron.

Llongyfarchwn Glenda Edwards, Aneddle, Bod Hyfryd, ar ei phriodas ag Arwel Owen o Rhos-isaf. Ymgartrefodd y ddau yn y Groeslon. Dymuna Glenda ac Arwel ddiolch i'w teulu a'u cyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Priododd Iorwerth Williams, Heli, â Jane o Southampton, yng ngwres Ynysoedd y Cayman lle bydd y ddau yn ymgartrefu.

Llongyfarchiadau i Aeron Jones, Glyn Ceris, Bod Hyfryd, ar ei briodas â Sian Thomas o'r Groeslon. Maent wedi ymgartrefu yng Ngharmel.

Cydymdeimlwn â Mr Elfyn Griffith, Melfyn, Stad Tŷ Hen, yn ei brofedigaeth o golli ei dad yn ystod gwyliau'r haf.

Yn dawel yn ei gartref yn Nanhoron bu farw tad Mrs Cadi Jones, Nant. Cydymdeimlwn yn ddwys â hi yn ei phrofedigaeth.

Dymuna Cadi a'r teulu ddatgan eu diolch i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli un oedd mor annwyl iddynt. Diolch am y rhoddion hael er cof am Mr Thomas Hughes Williams, Nanhoron, i Gronfa Cancr Llŷn.



Heddu Gwynedd, Nant, yn cyflwyno sic o'r arian a dderbyniwyd er cof am ei thaid, Thomas Hughes Williams, Nanhoron. Yn derbyn y sic am £470 y mae Mrs Annie-Mary Williams o Lithfaen, ar ran Pwyllgor Cronfa Cancr Llŷn.

Adref o'r Ysbyty: Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Miss B. Jones, Tref Eilian; Mrs Ray Hughes, Manchester House; Mrs G. Roberts, Bryn Golau; Mrs L. Evans, Tegfan; Mrs Gwyn Davies, Bryn Eithin; Deian Elfryn, Coed Gwydryn; Mrs Eluned Coles, Bro Waun; Mr John Elwyn Roberts, Glaslyn, Bro Waun a Mr Jonathan Richards, Stad Tŷ Hen, ar ôl iddynt orfod treulio cyfnod yn yr ysgyty.

Anfonwn ein cofion hefyd at amryw o drigolion y pentref sydd yn gaeth i'w cartrefi oherwydd gwaeledd. Bu'n rhaid i Mrs Mary Ann Owen, Bod Arfon, Stad Tŷ Hen, dreulio cyfnod yn yr ysbyty wedi iddi ddisgyn a thorri ei chlun.

Anfonwn ein cofion at Mrs Lesley Williams, Stad Tŷ Hen, sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

Cynllun Ail-gylchu: Cytunodd Cydweithgor Amgylchedd Cyngor Sir Gwynedd i gefnogi ariannu Rheolwr dros dro i drefnu cynllun ail-gylchu a weithredir gan Antur Waunfawr. Gwnaed y cynnig gan y Cyng. Eurig Wyn a chafodd gefnogaeth y gweithgor cyfan. Bydd y gweithgor yn awr yn ceisio cyngor o fyd busnes a maes ail-gylchu i weld a ellir gwneud y penodiad yn barhaol.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/ffacs: 650291



Dewis eang o Welyau a '3P/Suites'. Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler' 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



SIOP GREFFTAU
CAFFI

CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. — 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig



Anthony Harrison gyda Tharian Gerdd Ysgol Waunfawr.

Grŵp Pop: Mae'r grŵp 'Almanac' bellach wedi sefydlu ei hun ymysg grwpiau cerdd Cymru. Buont yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd yn Nolgellau, ond yn anffodus oherwydd fod Deian wedi cael triniaeth i'w ben-glin methodd y grŵp a chymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau, ond fe lansiwyd eu casét cyntaf 'Rhy Hwyr' yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Dymunwn y gorau i Deian, Eilir a Rhys i'r dyfodol.

Cyfeillion Ysgol Waunfawr: Bu'r rhaglen deledu 'Ffair Sadwrn' a gynhaliwyd yn y pentref ar fore

Sadwrn, Gorffennaf 16, yn llwyddiant mawr, gyda llawer o bobl yr ardal yn cymryd rhan. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y fenter.

Chwaraeon: Ddydd Sadwrn, Mehefin 25, cynhaliwyd Pencampwriaeth Chwaraeon i Bentrefi Arfon yn y Waunfawr. Enillwyd Tarian Stena Sealink gan dîm Waunfawr ac enillwyd y darian Chwarae Teg gan dîm Bethel. Y timau a gymerodd ran oedd Bethel, Cwm-y-glo, a

Waunfawr. Llongyfarchiadau i dîm y Waun.

Mabolgampau'r Urdd: Llongyfarchiadau i Iolo Rhisiart, Llwyn Onn, ar ei lwyddiant yn y gystadleuaeth naid hir o dan 13 oed yn Mabolgampau'r Urdd y tymor diwethaf.

Adran Urdd y Pentref: Bydd tymor gweithgareddau'r Urdd yn cychwyn ar nos Fercher, Medi 14, am 6.30 o'r gloch yn y Ganolfan. Ceir noson i ymaelodi a gemau.

Lansio Llyfr: Mewn cyfarfod yn y



Tim pentref Waunfawr a enillodd Tarian Stena Sealink — Pencampwriaeth Chwaraeon i Bentrefi. Y timau a gymerodd ran oedd Waunfawr, Cwm-y-glo a Bethel. Aeth Tarian Chwarae Teg i Fethel.

Ganolfan ar nos Fawrth, Gorffennaf 26, lansiwyd llyfr hunangofiant Mr Gwynn Davies, *Anturiaf Ymlaen*. Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan Gerallt Lloyd Owen, Meirion McIntyre Hughes, Dafydd Wigley, O. M. Roberts a Norman Williams, gyda John Ogwen yn cadeirio.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Nedd a'r Cyffiniau roedd un o feirniaid y Bryddest yn awyddus i goroni 'Pawl' — a Phawl oedd Mr R. Gwynn Davies, Bryn Eithin.

Llongyfarchiadau iddo ac i bob un o'r pentref fu'n cymryd rhan yng nghystadlaethau yr Eisteddfod.



Fiona Davies a Nathan Phillips a enillodd Tarian Mabolgampau 1994.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275



Mrs Alwen Jones yn derbyn blodau gan Kate ac Alwyn. Yn y cefn y mae Anthony, Chris, Jane, Daniel a Ben — plant Bl. 6 sy'n gadael am Ysgol Brynrefail.

gan obeithio y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

Am ddwy flynedd a hanner bu Miss Wendy Smith, dan gynllun hyfforddiant yr ifanc, yn cynorthwyo yn Nosbarth y Babanod. Bellach apwyntiwyd Miss Smith yn Weinyddes Feithrin yr Ysgol. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Braf hefyd oedd cael croesawu bachgen newydd i'r ysgol, sef Craig Shannon. Bydd Craig yn treulio'r tymor hwn yng Nghanolfan laith Maesincla cyn ymuno gyda ni eto ym mis Ionawr.

Newyddion hapus arall oedd genedigaeth Mared Meleri i Rita a Wil Morris, Brynrefail. Mae Ceri Bryn a Rhian Wyn wrth eu bodd gyda'u chwaer fach newydd.

Ond daeth tristwch ar ddiwedd y tymor hefyd. Fe gareu fel ysgol gydymdeimlo â Mrs Ellen Mair Jones a Samantha, Richard a Geraint yn eu

profedigaeth lem o golli priod a thad annwyl. Dymuniad Mrs Jones oedd cyflwyno rhoddion er cof am Mr Vincent Jones i Ysgol Cwm-y-glo. Rydym yn gwerthfawrogi'r weithred hon yn fawr.

Daeth profedigaeth sydyn i ran aelod arall o'r staff. Bu farw Mrs Annie Williams, sef mam Mrs Mair Hughes, ar Fehefin 20fed. Carai Mrs Hughes ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a chyfeillgarwch a dderbyniodd hi a'i theulu gan staff yr ysgol, y rhieni a'r plant a phentrefwyr Cwm-y-glo.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Gorffennaf oedd Gwion ap Llwyd, Llanrug, a Miss L. Hughes, Tan Graig, Cwm-y-glo. Croeso i aelodau newydd ymuno â'r Clwb ar ddechrau blwyddyn arall. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r ysgol ar 870860.

NOSON GOFFI

YN Y GANOLFAN

NOS WENER, MEDI 9

am 6.30 o'r gloch

RAFFLAU A BYRDDAU GWERTHU

DEWCH YN LLU I GEFNOGI

GAN FOD YR ELW TUAG AT

EISTEDDFOD Y PENTREF

A GYNHELIR AR TACHWEDD 19

(PRIF ATYNIAD Y FLWYDDYN)

CLWB ERYRI

Ar y wibdaith flynyddol ar ddydd Sadwrn, Mehefin 18, a drefnwyd gan John Roberts, Llanrug, mwynhaodd yr aelodau amryw brofiadau diddorol. Cafwyd taith o gylch Llandudno a'r Gogarth Fawr, wedyn ymweld ag Eglwys Gadeiriol Llanelwy, ac eglwys y plwy' lle gorwedd Dic Aberdaron a'i dalent. Wedi bwrw golwg ar weithgareddau a chynnwys Bragdy Dyffryn Clwyd yng nghwmni'r perchennog, penderfynwyd mewn cyfarfod trefnu byrfyfyr fod Cledwyn Williams, Llanrug, i gael ei ddychafu'n aelod er-anrhydedd mewn cydnabyddiaeth o'i wasanaeth hir a pharod i'r Clwb gydol y blynyddoedd. Pasiwyd hefyd fod y man cyfarfod i'w symud i Westy Fictoria, Llanberis, am y tymor i ddod (y cyfarfod cyntaf ar nos Iau, Hydref 6, am 7 o'r gloch).

Etholwyd y canlynol i'r swyddi a nodir — Llywydd: Evan Parry, Ceunant; Is-lywydd: Wyre Thomas, Waunfawr; Cofnodydd: John Hugh Hughes, Llanberis; Bardd y Clwb: R. Gwynn Davies, Waunfawr; Trysorydd: Ieuan Ellis Jones, Llanberis; Ysgrifennydd: Iolo Huws-Roberts, Waunfawr; Trefnydd y Triplau: John Roberts, Llanrug (am weddill ei ddyddiau ar y ddaear!)


Diolchodd y Llywydd newydd i'w ragflaenydd, Eurwyn Jones, Llanberis, am ei arweiniad a'i gyfraniad gydol y tymor a fu, a hyderai y dangosid yr un ymroddiad a ffyddlondeb i'r Clwb yn ystod y tymor i ddod. Clôwyd y noson â chinio a chymdeithasu yng Ngwesty'r Tŷ Gwyn, Rhualt.

RHAGOR O CHWARAEON

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



GWÊL Y LLYN

**Lake View
Hotel
LLANBERIS
870422**

**Prydau Arbennig
ar gyfer partïon**

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

RAS YR WYDDFA



Dei Tomos, gyda help cyfiethydd, yn holi enillydd Ras 1994, yr Eidalwr Fabio Ciaponi.

'Ble mae nhw heddiw?'



At y Golygydd Chwaraeon,
Yn rhifyn Ebrill 1994 o'r 'Eco' mae
erthygl o dan y pennawd uchod, yn
sôn am gyn-bencampwyr Ysgol
Brynrefail.

Mi wn mai edrych yn ôl dros
gyfnod bodolaeth yr 'Eco', sef ugain
mlynedd roedd yr awdur, ond os
gwn i a wyddai fod dwy record yr
Ysgol wedi sefyll am dros ddeng
mlynedd ar hugain er i gannoedd
geisio eu torri dros y blyneddau.

Cyfeirio yr wyf yn gyntaf, ac
mae'n siŵr y gall Dic Parry
gadarnhau'r ffeithiau, at record y
naid uchel bechgyn hŷn yr Ysgol. Fe
sefydlwyd y record gan Stanley
Roberts, Llanberis, ond yn awr o
Llanrug, tua 1961. Nid wyf yn cofio'r
uchder ond cofiaf i Stan fynd ymlaen

i rownd derfynol Athletau Ysgolion
Cymru ym Mharc Eirias, Bae
Colwyn, lle bu o fewn trwch blewyn
i fod yn Bencampwr Cymru.

Yr ail record a sefydlwyd tua'r un
cyfnod, yn 1961, yw record taflu'r
waywffon (Javelin) bechgyn hŷn yr
Ysgol.

Eifion Roberts, Llanberis, a
sefydlodd y record ond 'does ganddo
ddim syniad beth oedd y pelter. Mae
Eifion yn ôl yn Llanberis yn awr ac
yn berchennog Becws Eryri.

Mae'n syndod i'r ddau ohonynt na
lwyddodd yr un o'r cannoedd o
fechgyn a fu yn Ysgol Brynrefail i
fynd yn uwch ac ymhellach!

Mae'r llun yn dangos tîm athletau
yr Ysgol, tua 1957. Mr Pritchard a
Miss Shirley yw'r athrawon.

Yr Home Guard yn Llanrug



Cafwyd bethyg y llun yma o Home Guard a band Llanrug. Fe'i tynnwyd
ym mis Hydref, 1940 yn y cae nesaf i'r hen Church Hall. Oes rhywun
o ddarllenwyr yr Eco yn y llun? Oes rhywun yn cofio ei dynnu?
Ysgrifennwch atom gyda unrhyw wybodaeth.

CRICED - Y DA A'R DRWG

Trof yn awr i'r meysydd criced.
Dirywiodd perfformiadau Morgan-
nwg yn sylweddol er fod tipyn o
wellhad diweddar ym mherfformi-
adau'r Sul. Croesawyd De'r Affrig
yn ôl i'r gorlan rhyng-wladol a
chafwyd cyfres brawf ddiddorol a
chynhyrfus. Cefais gryn bleser o
weld Mike Procter, rheolwr tîm De
Affrig yn mynnu lle amlwg i faner y
De Affrig Newydd yn Lords - a
hynny er fod gwaharddiad baneri yn
bodoli. Gwn, ar lefel leol, fod nifer o
chwaraewyr du De'r Affrig yn ceisio
dod i chwarae i glybiau yng Nghymru
a Lloegr er mwyn ehangu eu profiad.
Mae yna chwaraewyr o Awstralia a
Seland Newydd eisoes yn chwarae
yng Nghynghrair Gogledd Cymru.

Bu Michael Atherton yn y
newyddion am ei gamymddygiad. Yn
bersonol rwy'n teimlo ei fod yn euog
o'r ddwy drosedd ond rhaid
pwysleisio nad oedd ond yn efelychu
cannoedd o chwaraewyr - ar bob
lefel - o Sadwrn i Sadwrn. Yn
anffodus roedd llygaid y camera
arno.

Y mae lle'r teledu a'r dechnoleg
fodern ym myd y campau yn elfen
sydd i'w hastudio yn fanwl. Yn sicr
mae'r camera yno i ddangos a phrofi
niefer o gamweddau - ond yn
anffodus mae rhai campau yn
gwrthod derbyn 'tystiolaeth'
technoleg fodern fel amddiffyniad
unigolyn.

Teimlaf fod y defnydd o'r camera
a'r trydydd dyfarnwr ynglŷn â
'rhedeg allan' a maes yn gam i'r
cyfeiriad iawn. Ni hoffwn weld
unrhyw ddatblygiad pellach, er fod
cryn bwysau i'w ddefnyddio gyda'r
rheol 'coes o flaen y wiced'.

Yr hyn sy'n iach am griced ar y
lefel uchaf yw fod y camera yn
cefnogi dyfarniad y dyfarnwr yn aml.

GÊM 'TRI-HANNER?'

Un man ble gall y dechnoleg
weithio yw yn amseriad y gêm. Nid
yw gem pêl-droed yn cynnwys 90
munud o 'chwarae'. Nid yw diwrnod
o chwarae criced yn cyrraedd nod o
90 pelawd yn y 6awr penodedig.

Beth petai cloc ar faes pêl-droed
sydd ond yn rhedeg pan mae'r bêl ar
dir y chwarae. Beth fyddai hyd y gêm
tybed? O ran radl, oni fyddai yn haws
cael gêm dda pe newidid siâp y gêm
i dri cyfnod o 30 munud. Rwy'n siŵr
y byddai'r 30 munud olaf dan
fformat o'r fath yn fwy bywiog na
llawer i hanner olaf nifer o gemau
presennol.


Rhywbeth i gnoi cil arno ac i ennyn
ymateb gobeithio. Beth bynnag yw
eich barn beth am ddechrau tymor
newydd yr Eco trwy wneud ymdrech
i gefnogi neu gynnal ein timau a
chymdeithasau lleol?

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD**



**BANGOR
354646**

CROESAIR GORFFENNAF




AR DRAWS

3. Wele Ed a fo yn y cwrdd wedi gwirioni'n lân (5)
8. Fe rwymir y sypyn bach fel arfer (5)
10. Does dim rhyfedd i leidr wedi meddwi gaei ei ormesu (5)
11. Un enwog am ganu'n swynol... (3)
12. Ac fe ganodd Dafydd am un Tal-y-sarn (5).
13. Fedr rhain ddim, yn ôl y Sais! (7)
14. Un fywiog ydi Myfanwy! (5)
17. Cylchdro amser (6)
19. Rhai o'r 13 ar draws yn achosi trafferth (7)
20. Cân mewn cantata (4)
21. Coed un o gymoedd mwyaf adnabyddus Cymru (4)
22. Dim digon i un tew gael mynd i mewn (7)
23. Mae'n flin, a hynny o fethiant Cled i fargeinio'n llwyddiannus (6)
27. Un sy'n crwydro o le i le... (5)
28. ... ac un sy'n chwifio'r fflag (7)
30. Meddyginiaethau (5)
31. Dyn a roddodd gythral o gweir i'r Sais ers talwm. Mae'n fêl i mi (3)
32. Mam a dad (5)
33. Gweithio heb golli (5)
34. U bedol (5)

I LAWR

1. Gyrru o fwa neu ddryll (5)
2. Nepell o Garmel, yng Nghymru a Phalesteina (7)
4. Y geni llafurus yn dwyn blaenffrwyth (4)
5. Adeilad yn perthyn i eglwys neu gapel (6)
6. Clawdd sydd ddim yn y lle mae ei enw'n awgrymu (5)
7. 'Deryn du a gwyn o'r Gogledd. Dyna un brathog! (5)
9. Dyn bach mewn mintai o gantorion (3)
12. Mignen (7)
15. Hoff wirol Ceril? (5)
16. Mae'n rhaid mai dyn du ydi hwn yn ôl ei enw! (5)
17. Un ffordd i wneud pump (3,1,3)
18. Sodium Chloride Portdinorwig (5)
19. Hanner hanner-brif (6)
21. Troi oddi amgylch (7)
22. Ieuan = Porthmadog; Gerallt = Cricieth (6)
24. Ymgolli mewn rhywbeth neu ar rywun (5)
25. (Dim cliw — gweler y nodiadau)
26. Cloddio neu dyrchu fel pe baech ar eich gwyliau (5)
28. Cernflew (4)
29. Fy mêt i o 31 ar draws wedi dod yn ôl (3)

CROESAIR MIS MEDI



Daeth deunaw o atebion cywir i groesair mis Gorffennaf i law, a da yw gweld enwau newydd ymysg yr ymgeiswyr. Yn unol â dymuniad un o'r cystadleuwyr mwyaf selog, rwyf am gyhoeddi o hyn allan enwau pob un o'r rhai llwyddiannus, sef ym mis Gorffennaf:

Mrs E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Dilys Pritchard-Jones, Abererch; Jennie Williams, Clynnog; Jean Hughes-Jones, Rhiw; N. Hughes, Cwm-y-glo; E. E. Jones, Rhoshir-waun; Janet Hughes, Pistyll; Mrs Ceridwen Williams, Hafan Elan, Llanrug; Mrs Rhiannon

Pritchard-Jones, Pontllyfni; Mrs E. Pritchard, Pontllyfni; Helen Owen, Penisarwaun; Nansi Davies, Rhuthun; Eluned Jones, Pencae-newydd; Miss Mair Foulkes, Penisarwaun; Iorwerth a Jean Williams, Caernarfon; Mary Davies, Waunfawr; un di-enw o Gaernarfon; a Mair Jones, Hafryn, Pwllheli, sef enillydd y mis gan mai ei hymdrech hi ddaeth allan o'r het.

Mewn ymgais i ddarganfod dull gwell na thynnu enw allan o het fe ddewisir enillydd croesair mis Medi trwy gystadleuaeth.

Fe sylwch nad oes cliw wedi ei baratoi ar gyfer 25 i lawr, ond, os bydd y croesair wedi ei orffen yn gywir, bydd y gair pum llythyren yno yn gyfan. Rwyf am i chi felly greu cliw cryptig i'r gair yma, ac os bydd mwy nag un croesair cywir, yna y cliw gorau, yn fy marn bach i, fydd yn rhoi'r wobwr i'r hwn a'i creodd.

Pob lwc i chi. Yr atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn Medi 23, os gwelwch yn dda.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Dyddiadur y Mis

MIS MEDI

4. **Sul DEINIOLEN:** Yr Ysgol Sul Unedig yn dechrau am 10.30 y bore; ac oedfa'r hwyr am 5 o'r gloch.
5. **Llun DINORWIG:** Dosbarthiadau Nos (WEA) yn dechrau yn Y Ganolfan am 7 o'r gloch. Ms C. Ll. Williams: 'Y Wladfa, Ddoe a Heddiw'.
7. **Mercher LLANRUG:** Helfa Drysor tuag at y Ganolfan Gymuned am 6.30 o'r gloch yn Ystafell y Band.
8. **Iau DEINIOLEN:** Cyfarfod y Chworiydd yng Nghefnywaun am 7 o'r gloch. **DINORWIG:** Plygu'r 'Eco' yn Y Ganolfan am 6 o'r gloch.
9. **Gwener WAUNFAWR:** Noson Goffi am 6.30 o'r gloch yn Y Ganolfan.
11. **Sul LLANRUG:** Ysgol Sul am 10 y bore ym Mhontrhythallt. Oedfa Bregethu yn y Capel Mawr am 10 y bore. Yr oedfa olaf yn y Capel Mawr — Oedfa Dadgysegru — am 2 o'r gloch.
13. **Mawrth LLANRUG:** Merched y Wawr — cyfarfod cyntaf y gangen am y tymor. 7.30 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd. **CAERNARFON:** Capel Salem (Annibynwyr) — Cyflwyniad i'r Maes Llafur newydd gan Ms Catrin H. Williams.
14. **Mercher WAUNFAWR:** Noson gyntaf cangen yr Urdd am y tymor am 6.30 o'r gloch yn Y Ganolfan.
15. **Iau a 16. Gwener YR ARDAL:** Perfformiadau ychwanegol o'r ddrama gerdd 'O Gaethiwed i Ryddid' gan ddoniau lleol yn Theatr Gwynedd, Bangor.
18. **Sul LLANRUG:** Aelodau Capel y Rhos yn addoli ym Mhont-rhythallt.

19. **Llun DEINIOLEN:** Merched y Wawr — cyfarfod agoriadol y tymor.
21. **Mercher BETHEL:** Plaid Cymru — cyfarfod anffurfiol yn Y Bedol am 8 o'r gloch.
22. **Iau LLANRUG:** Cymdeithas Chworiydd Capel y Rhos. Sgwrs gan Miss D. Adlam.
26. **Llun DEINIOLEN:** Cyfarfod agoriadol y Gymdeithas Lenyddol.
28. **Mercher PENISARWAUN:** Cyfarfod Dosbarth Padarn yng Nghapel Ysgoldy am 7 o'r gloch.
29. **Iau PENISARWAUN:** Plygu'r 'Eco' yn Neuadd yr Eglwys o 6 o'r gloch ymlaen.

RHODDION

£15: Ron ac Elizabeth Pleming
£10: Dorothy May Jones, 17 Lôn y Bryn Fflat, Caernarfon, er cof am ei chefnider, Mr Emyr Pritchard, Deinioelen. Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, Llanberis.
£5: Mr Hugh Jones, 79 Maes Padarn, Llanberis. Mrs Elizabeth Roberts, Bangor (gynt o Stryd Siarlot, Llanberis) a'r teulu, er cof am ei mham, y ddiweddar Mrs Hetty Hughes. M. W. Williams, 5 Tan y Cae, Bethel. Mrs Nellie Roberts, 12 Lllys y Gwynt, Penisarwaun. Nigel Kirkpatrick. Mr a Mrs Gwynn Davies, Bryn Eithin, Waunfawr. Arwel a Glenda Owen, Aneddle, Bod Hyfryd, Waunfawr. Laura Williams, Tan y Fron, Fachwen. Dilys Williams, 2 Bro Elidir, Dinorwig.
£3: Mr Gwilym Evans, Tŷ Crwn, Llanberis. Teulu Cyrnant Lodge, Waunfawr. Mrs Maria Pritchard, 4 Vaynol Cottages, Llanberis.



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gweiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/facs: 0286 672619

Richard S. Humphreys

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

CHWARAEON

A FU HI'N 'HAF HIRFELYN TESOG'?

Ras y Wyddfa; agor maes Y Bwthyn yn Neiniolen; Jiws yn ymddeol (?); datblygiad Alun Vaughan fel rhedwr o fri. Bu digon yn digwydd yn lleol dros yr haf — heb sôn am ail ddechrau'r tymor pêl-droed.

Am y tro ceisiaf fwrw golwg yn ôl dros lwyfan ehangach campau a digwyddiadau'r haf. Er eu bod ar lefel ryngwladol, teimlaf bod iddynt agweddau fydd yn effeithio ar y campau yn lleol.

DYFARNWYR SÂL?

Ym myd pêl-droed, Cwpan y Byd oedd yn hoelio'r sylw. Rhaid canmol yr lanciau am eu trefniadaeth, ac am y meysydd gwych. Mae'n rhyfeddod fod un o gemau Cwpan y Byd wedi cael ei chwarae ar faes campws prifysgol. Meddyliwch am Gymru yn chwarae ar feysydd Treborth! Onid ydym ni flynyddoedd ar ei hôl hi? Y newid rheolau oedd y prif destun trafod yn enwedig y dacl o'r tu cefn. Un anodd i'w dehongli yw hon. Rhaid nod ei bod hi'n bosib i ennill y bêl mewn tacl o'r cefn. O weld tair gêm leol yn ddiweddar mae tipyn o broblem. Roedd y dyfarnwr lleol yn cosbi unrhyw dacl o'r cefn. Mewn llawer o achosion roedd y broblem yn codi oherwydd lleoliad y dyfarnwr ar y pryd. Yn sicr nid oedd y dyfarnwr yn cadw i fyny â'r chwarae. I waethygu'r sefyllfa



Julie McCubbin, enillydd y tlws i Bencampwyr y Merched ym mabolgampau Ysgol Brynrefail ac Arwel Ellis a ddaeth i'r brig fel prif athletwr y mabolgampau.

gwelais achos ble y gofynnodd y chwaraewr i'r dyfarnwr am eglurhad a derbyn y cerdyn melyn am 'dissent'. O siarad â chwaraewyr lleol y teimlad a gaf yw fod y cardiau melyn yn dod allan yn aml iawn y tymor yma. Gobeithio nad yw'r 'cerdyn melyn' yn fodd o guddio gwendidau dyfarnwyr. Nid oess le i ddyfarnwyr gwael, fwy na chwaraewyr 'budr' ar faes pêl-droed.

CYFLE I'R IFANC?

Bwriad y newid rheolau yw rhoi mwy o gyfle i chwaraewyr ddangos eu doniau. Fe gymer amser i hyn ddigwydd ar lefel leol, lle mae'r gêm 'pêl hir' wedi hen ennill ei phlwyf. Byddai'n braf gweld yr hen grefft o 'driblo' yn ail ymddangos. Y mae dyletswydd ar y sawl sy'n hyfforddi ein timau ieuencid i ail-addysgu yr ifanc, a chael gêm sy'n cyfuno pleser, mwynhad a chystadleuaeth. Yn anffodus gwelaf fod trefnwyr y cynghreiriau lleol yn anelu at gynghreiriau un adran a golyga hyn y bydd sgoriau uchel, unochrog yn gyffredin, a'r diddordeb yn prysur ddiplannu. Nid ydym wedi llwyddo i greu strwythur yn lleol fel y gall plentyn ddatblygu yn naturiol o'r lefel -10, -12, -16 trwodd i'r timau yng Nghynghrair Sain. y mae llawer hen benau yn dal i lenwi ein timau lleol — ac ambel i hen, hen ben! O gofio bod chwaraewyr o'r tu allan (cylch Caernarfon, er enghraifft) hefyd yn britho'r timau, ble mae'r bechyn lleol am gael gêm? Mae llawer o'r ieuencid yn bodloni ar gael tlws ar ddiwedd y tymor am fod yn aelod o garfan yn unig.

Tybed a oes gormod o dimau mewn ardal gymharol fach?

A oes digon o chwaraewyr o safon i gynnal y timau hynny?

Y mae'n rhyfeddol, er enghraifft, y cynifer o chwaraewyr lleol sy wedi chwarae i Lanberis, Llanrug a Deiniolen. Onid yw hynny yn dweud rhywbeth?

Y BWGAN MAWR

Y mae diddordeb cynyddol lleol mewn athletau yn un o brif ddatblygiadau y blynyddoedd diwethaf hyn. Y mae cyfraniad Clwb Rhedwyr Eryri

HELFA DLWS-OR!

Ar ddiwedd mis Gorffennaf cynhaliwyd deuddegfed Chwaraeon Arbennig Cymru yma yng Ngwynedd. Mae rôl arbennig i'r gystadleuaeth hon ac y mae'r ymdrech a'r trefniant ynglyn â hi i'w chanmol yn arw. Rhennir y gystadleuaeth yn ddwy brif adran — nofio ac athletau. Cynhaliwyd y gystadleuaeth nofio ym Mhwl Nofio Bangor



Iwan Morris a'i dylsau.

a'r athletau ar drac Parc Eirias ym Mae Colwyn.

Un o sêr y gystadleuaeth yn ddi-os oedd Iwan Morris, Treflys, Bethel. Enillodd bedair medal yn y pwll nofio — aur yn y 25m dull rhydd; a medalau arian yn y 25m ar y cefn; 25m dull broga a'r rês gyfnewid. Fel na bai'r helfa hon heb fod yn ddigon fe gipiodd Iwan bedair medal arall ar y trac. Daeth aur yn y 200m; arian yn y 60m; a'r ras gyfnewid; ac efydd yn y wib 100m. Gall Iwan fod yn falch iawn o'i fedalau a'r dracwisg a gyflwynwyd i'r cystadleuwyr i nodi'r achlysur. Am yr ymdrech arbennig yma braf yw cyflwyno Tlws arall i Iwan, sef Tlws y Mis ar gyfer mis Awst.

Mewn noson gymdeithasol cyfarfu Iwan â Barry Horne a Neville Southall. Gobeithio nad rhywbedd dd'wedodd Iwan wrthynt sy'n gyfrifol am ddechreuad trychinebus Everton eleni!

Y CYNTAF YN EWROP



Bu'n ddechrau tymor prysur iawn i Marc Lloyd Williams wedi iddo symudo Borthmadog i Ddinas Bangor. Cafodd y fraint o fod y chwaraewr clwb cyntaf (hyd y gwn i) o'r fro hon i chwarae yn un o bencampwriaethau clybiau Ewrop. Yn wir, bydd yn gwestiwn cwis da yn y dyfodol. Pa chwaraewr chwaraeodd mewn gêm Ewropeaidd i'w glwb cyn chwarae gêm gynghrair i'r clwb hwnnw? Ymddengys fod Marc wedi mwynhau'r profiad a'i fod eisoes yn canfod cefn y rhwyd gan sgorio yn y ddwy gêm gyntaf yng Nghynghrair Konica. Yn amlwg fe gymer dipyn o amser iddo gynefino â chlwyb newydd o gofio ei berthynas wych gyda Dave Taylor ym Mhorthmadog.

Mae yna un peth sy'n fy mhoeni ynglŷn â chystadlaethau Ewrop. Onid yw hi'n rhyfedd fod Bangor — a phob clwb arall hefyd — yn cael defnyddio chwaraewyr o unrhyw wlad i ennill eu cynghrair neu gwpan i gyrraedd Ewrop yna wynebu gwahoddiad i'r chwaraewyr sydd wedi dod a'r llwyddiant. Yn y dyddiau yma o chwâl muriau ac Ewrop 'unedig' onid yw hi'n amser i wahardd y rheol hon? Nid Man U yw'r tîm 'Saesneg' cryfaf, na AC Milan y tîm 'Eidalaidd' cryfaf. Teimlaf mai annheg fyddai cyfyngu chwaraewyr mewn cynghrair genedlaethol gyda nifer fawr o gemau. Serch hynny nid yw'n afresymol i gyfyngu y chwaraewyr yng Nghwpan Cymru neu FA Cup i Gymry neu Saeson yn unig.

Pob lwc i Marc beth bynnag, a gobeithiwn y caiff deithio Ewrop unwaith eto y tymor nesaf.

MABOLGAMPAU YSGOL BRYNREFAIL

Gwn fod nifer o gyn-ddisgyblion yr Ysgol yn hoffi gwybod canlyniadau y cystadlaethau tai o flwyddyn i flwyddyn. Unwaith eto eleni cafwyd mabolgampau llwyddiannus, a'r marciau terfynol oedd: Eilian 591½; Eryri 512½; Gwyrfa 398½; Elidir 368½.

Dyfarnwyd y prif dylsau am berfformiadau unigol i Julie McCubbin (Brynrefail) ac Arwel Ellis (Bethel). Dyfarnwyd y tlysau am y prif berfformiadau mewn blynyddoedd penodedig i Iola Davies (Brynrefail); Martin Parry (Cwm-y-glo); Rory O'Donnell (Llanberis); Ellen Robinson (Bethel); a Sarah Thomas (Llanrug).

Llongyfarchiadau iddynt i gyd.



Iola, Julie, Arwel, Martin, Rory, Ellen a Sarah a Martin — enillwyr y tlysau am berfformiadau unigol.